 Eneidiau, dygwyl y Meirw=y ail o
 Dachwedd.
- All-spice, ol'-speis, *s.* chwegronos, perith.
- Allude, al-liw'd', *v. n.* cyfeirio, crybwyll,
 awgrymu; cytgam.
- Illuminate, al-liw'-mu-net, *v. a.* addurno,
 gwychu, tecäu; allogi, almu.

Allure, al-liw'-yr, *v. a.* denu, lithio, hudo.
 Allurement, al-liw'-yr-ment, *s.* deniad, lithiad; hudoliaeth; arlith.
 Allurer, al-liw'-ryr, *s.* denwr, arlithiwr; twyllwr.
 Allusion, al-liw'-zhyn, *s.* cyfeiriad, crybwylliad; awgryn.
 Allusive, al-liw'-suf, *a.* cyfeiriol; awgrymol; cyffelybol.
 Alluvial, al-liw'-fi-yl, *a.* maranol, marianol, marianog.
 Alluvium, al-liw'-fi-ym, *s.* maran, marian; maranedd; dyfrbridd; rhyferthwy.
 Ally, al-lei', *v. a.* cynghreirio; cyfathrachu; cystlynu:—*s.* cynghreiriad, cydblaid, plaid; cyfathrach; câr, perthynas.
 Almanac, al'-ma-nac, *s.* almynag, amseroni; blwyddiadur; dyddyfr:—*pl.* almynaciau, amseroniau; blwyddiaduron.
 Almightyness, ol-meí'-ti-nes, *s.* hollalluogrwydd.
 Almighty, ol-meí'-ti, *a.* hollalluog, ollalluog:—*s.* yr Hollalluog=Duw.
 Almond, a'-mynd, *s.* almon, cneuen Groeg; almonwydd; cilchwyrnen, chwaren.
 Almonds, a'-myndz, *s. pl.* cilchwyrnau'r gwddf, y gyddfchwarenau.
 Almoner, al'-myn-yr, *s.* elusenwr; alwydd, annerydd.
 Almonry, al'-myn-ri, *s.* elusenfa, cardotty.
 Almost, ol-möst', *ad.* braidd, agos, bron, prin, haiach; yn agos, ym mron, o fewn ychydig; gan mwyaf; ar; prin na; braidd na.
 Alms, amz, *s.* elusen, alwysen, elwysen, cardod.
 Alms-deeds, amz'-didz, *s. pl.* elusenau, cardodau.
 Alms-giver, amz'-gif-yr, *s.* elusenwr, alwysenydd.
 Alms-giving, amz'-gif-ing, *s.* elusendod, elusen garwch.
 Alms-house, amz'-hows, *s.* elusendy; tloty; ysbytty.
 Alms-man, amz'-man, *s.* elusenog, rheidusyn:—*pl.* rheidusion, angenogion.
 Almg, al'-myg, } *s.* almugwydd, algum.
 Algum, al'-gym, } wydd; "coed almugim."
 Alnage, al'-nej, *s.* lllatheliad; lllath fesuriad.
 Aloes, al'-öz, *s.* elyw, aloes.

Aloes-tree, al'-öz-tri, *s.* coed elyw, pren aloes, aloewydd.
 Aloetic, al'-ö-et'-ic, *a.* elywig, aloesaid.
 Aloft, a-loft', *ad.* yn uchel, fry, i fynd, i fynydd; uchod. [ffolineb.
 Alogy, al'-ö-ji, *s.* afreswm, gwrthreswm;
 Alone, a-lön', *a.* unig, unigol; ei hun; arbenig, digyffelyb; yn unig, wrtho ei hun; o'r neilldu.
 Along, a-long', *ad.* gyda, gydag; hyd, ar hyd; yn y blaen, rhag.
 Along-side, a-long'-seid, *ad.* ochr yn ochr, yn gyfarystlys.
 Aloof, a-luff', *ad.* draw, oddi draw, o bell, o hirbell; adlaw.
 Alopecy, al'-ö-pi-si, *s.* tanllwynog; gwallglwyf, moelni.
 Aloud, a-lowd', *ad.* yn uchel, yn groch, â llef uchel.
 Alow, a-lö', *ad.* yn isel, obry, i lawr.
 Alp, alp, *s.* alp, aran; mynydd uchel:—*a.* gwyn.
 Alp-mountains, alp-mown'-tenz, *s. pl.* yr Alpau, y Mynyddoedd Mynnuau, y Mynyddau Gwynion.
 Alpaca, al-pac'-y, *s.* y paca=math ar gamel bychan; esmwythwe (a wneir o wlan y paca), alpaca.
 Alpha, al'-fia, *s.* A Groeg; y cyntaf.
 Alphabet, al'-ffy-bet, *s.* egwyddor, agwyddor; y llythyrenau, rhestr (cyfres) y llythyrenau, eglythyrenau.
 Alphabetic, al'-ffy-bet'-ic, } *a.* eg-
 Alphabetical, al'-ffy-bet'-i-cyl, } wydd-
 orol, agwyddorol, eglythyrol.
 Alpine, al'-pun, *a.* alpin, alpaidd, aran-ol, mynyddig; uchel, ban.
 Already, ol-red'-i, *ad.* eisoes, eisys, eiswys; yn barod, hyd yn hyn.
 Also, ol'-sö, *ad.* hefyd; yr un modd, gyda hyny:—*c.* hefyd.
 Alt, alt, } *a.* ban; banllais, gorllais:
 Alto, al'-tö, } —*s.* y banllais, yr uchlais.
 Altar, ol'-tyr, *s.* allor; bwrdd y cymmun.
 Altarage, ol'-tyr-er, *s.* offrw, allordal.
 Alter, ol'-tyr, *v.* arallu, newid, cyfnewid; amrywio, amgenu.
 Alterable, ol'-tyr-ybl, *a.* newidiadwy, aralladwy; newidiol, cyfnewidiol.
 Alterableness, ol'-tyr-ybl-nes, } *s.* new-
 Alterability, ol'-tyr-y-bul'-i-ti, } idiol-
 deb, newidiolrwydd, aralloldeb.
 Alterant, ol'-tyr-ynt, *a.* cyfnewidiol, arallus; eiliadol.
 Alteration, ol'-tyr-e'-shyn, *s.* newidiad, cyfnewidiad, aralliad; arallrwydd, newid.

Alternative, ol'-tyr-e-tuf, *a.* aralliadol, alliadol, newidiadol:—*s.* arallai, arall-og:—*pl.* aralogion, alliadolion.

Altercate, al'-tyr-cet, *v. n.* ymgrecu, ymdaeru, ymeirio, ymleffel, ymserthu, ymliasu, ymgainio, ymryson, amryson, ymsywyn; ymddadlen.

Altercation, al-tyr-ce'-shyn, *s.* ymgreciad, ymrafael, ymgaintach; dadl, ymddadlen; ymgiprys; cynhen, ymryson; ymsywyn.

Alternacy, al-tyr-ny-si, *s.* cylchydod, cylcholdeb.

Alternate, al-tyr-nyt, *a.* cylchynol, eiliadol; bob yn ail, ar glych, bob yn eilwrs; oliannol, olynol, llialliadol, adgyrchol; cyfnewidiog:—*s.* cylchnewidiad; tro.

Alternate, al-tyr'-net, *v.* cylchnewid, eiliadu, oliannu, llallu; nidro; anwadalu.

Alternately, al-tyr'-net-li, *ad.* ar glych, yn glychynol, ar ei dro, yn olynol.

Alternation, al-tyr-ne'-shyn, *s.* cylchyniad, cyfnewidiad, llialliad.

Alternative, al-tyr'-na-tuf, *a.* dewisiadol:—*s.* dewis, dewisiad.

Although, ol-ddö', *ad.* er, er hyny; pe, ped; cto, er mai, cyd bo, yn y bo, cyd byddo.

Altiloquence, al-tul'-ö-cwens, *s.* rhodreawith, chwyddiaith, ffrostiaith.

Altimeter, al-tum'-i-tyr, *s.* uchderiadur, uchderfeidr=offeryu i fesur uchder.

Altimetry, al-tum'-i-tri, *s.* uchderaeth, uchderiadaeth, uchfesureg, uchfesuriaeth.

Altonant, al-tus'-ö-nant, *a.* banseinol, uchelseiniol, uchelseinawl; croch, sein-fawr; chwyddieithol.

Altissimo, al-tus'-su-mo, *a.* banaf, uchelaf.

Altitude, al'-ti-tiwd, *s.* uchder, uchelder, ucheledd; argonedd, tragorian.

Altivolent, al-tuf'-ö-lent, *a.* banhedol, uchedol.

Altogether, ol-tw-gedd'-yr, *ad.* yn hollol, yn llwyr, yn gyfan, yn gwbl, i gyd, i gyd oll, yn ddieithrad, achlan, yn nghyd.

Aludel, al'-iw-del, *s.* affeidel=math ar lestr heb waelod arferedig mewn fferylliaeth.

Alum, al'-ym, *s.* allog, alm:—*v. a.* allogi, almu. [almaidd.]

Aluminous, a-liw'-mu-nyz, *a.* allogol.

Alutation, al-iw-te'-shyn, *s.* lledriad, cyffeithiad lledr, lledrgyffeithiad.

Alveary, al'-i-yr-i, *s.* gwenynfa, gwenynog, gwenynlle, gardd wenyn; cwyryfa.

Alveolar, al'-i-ö-lyr, *a.* morteisiol; cellog.

Alvine, al'-fun, *a.* ceudodol, coluddol; esgothol.

Always, ol'-wez, } *ad.* yn wastad, yn
 Always, ol'-we, } *wastadol*, bob am-
 ser, yn feunyddiol, o hyd, byth, byth
 a hefyd.

Am, am, *v. n.* ydwyf, wyf, yr wyf, yr ydwyf.

Amability, a-ma-bul'-i-ti, *s.* hygarwch, hawddgarwch, anwyledd, addfwynder.

Amain, a-men', *ad.* yn bybyr, yn egniol, yn lew, yn ddewr; â'r holl nerth; yn angerddol, yn ffyrnig; ar unwaith, yn ddisymmwth.

Amalgam, a-mal'-gam, *s.* delfysg, delfysgedd, addwyfysg=cymmysg o ar-ian byw a rhyw adwyn arall; cymmysgedd.

Amalgamate, a-mal'-gam-et, *v.* delfysgu; cymmysgu, tryfysgu; uno.

Amalgamation, a-mal-gam-e'-shyn, *s.* delfysgiad, delfygiath, cymmysgiad; uniad.

Amand, a-mand', *v. a.* anfon, gyru ymaith; deol.

Amandation, a-man-de'-shyn, *s.* cenadaeth, cenadwriaeth, negeswriaeth.

Amanuensis, a-man-iw-en'-sus, *s.* ysgrifenydd, ysgrifenwas; rhaglaw.

Amaranth, am'-a-ranth, *s.* ammor; blodau ammor; anedwaint, anfarwaint.

Amaranthine, a-ma-ran'-thun, *a.* ammoraidd; anedwinol, anedwin, anwyw, anniflanedig.

Amaritude, a-mar'-i-tiwd, *s.* chwerwder, chwerwedd, chwerder, bustledd.

Amarulent, a-mar'-iw-lent, *a.* chwerw, bustlaidd.

Amass, a-mas', *v. a.* pentyru, casglu, tyru, crugio, dasylu, athyru, croni:—*s.* pentwr, crug, cronfa, mwl, twysged.

Amassment, a-mas'-ment, *s.* pentyriad, twysgiad, cludeiriad, croniad.

Amateur, am'-a-tiwyr; a-my-tyr', *s.* desgarrwr, celfofydd, celfhoffwr.

Amative, am'-a-tuf, *a.* caradog, cariadaidd.

Amatorial, am-a-tö'-ri-yl, } *a.* cariad-
 Amatorious, am-a-tö'-ri-yz, } ol, cariad-
 Amatory, am'-a-tyr-i, } og, cared-
 igol, cariaidaidd, serchlawn.

Amaurosis, am-o-rö'-sus, *s.* pylolwg, pyl-ni, tywyllni.

Amaze, a-mez', *v. a.* synu, rhyfeddu, irdangu, aruthro, serfanu; dyrysu:—*s.* syndod, aruthredd.

Amazement, a-mez'-ment, *s.* syndod,

uthredd, irdant, chwithdod; eresi; braw, dychryn.
Amazing, a-mez'-ing, *a.* syn, rhyfeddol, aruthrol, eres, engyr; synfawr.
Amazon, am'-az-yn, *s.* gwrferch, gwrforwyn, garwen, gwroles; rhyfeles, budduges.
Amazonian, am-a-zö'-ni-yn, *a.* gwrol; amasoniaian.
Ambages, am-be'-jiz, *s. pl.* cylchymadrodd, amgylchiaith, ameiriad; amddadl, troad.
Ambagious, am-be'-jiyz, *a.* cylcheiriol, amroddol; dyrys, methlus.
Ambassador, am-has'-sa-dyr, *s.* cenadwr, cenad, negesiadur, negeswr; herodr.
Ambassage, am'-bas-sej, } *s. Embassy.*
Ambassade, am-bas-sed', }
Amber, am'-byr, *s.* gwefr, ambr:—*a.* gwefrain, gwefrol, ambraidd:—*v. a.* gwefru, ambru.
Amber-beads, am'-byr-bej, *s.* glain gwefr.
Amber-drink, am'-byr-dringc, *s.* gwefrwy, diod wefr.
Ambergris, am'-byr-gris, *s.* gwefris, gwefrlud.
Ambidexter, am-bi-decs'-tyr, *s.* cyflawiog, cyfwynebog, deuochrog, dauwynebog, dyhiryn.
Ambidextrous, am-bi-decs'-tryz, *a.* cyflawiog.
Ambient, am'-bi-ent, *a.* amgylchol, amredol. [mysgfwyd.
Ambigu, am'-bi-giv, *s.* mysgwest, cym-
Ambiguity, am-bi-giv'-i-ti, *s.* amwysedd, mwysder, petrusedd, amheuaeth; aneglurder, tywyllni.
Ambiguous, am-big'-iw-yz, *a.* amwys, mwys, amwysol, annilys, amhëus, amheul, petrusol; aneglur.
Ambiguousness, am-big'-iw-yz-nes, *s.* = *Ambiguity.*
Ambigy, am-bul'-ö-ji, *s.* mwyseg, mwysiaith; cuddsiarad, amheuson.
Ambilquous, am-bul'-ö-cwyz, *a.* mwys-eiriol; cuddebus.
Ambiloquy, am-bul'-ö-cwi, *s.* mwyseiriad, mwyslafariad; annilysiaith; cuddebiaeth.
Ambit, am'-but, *s.* amgylchedd, cylchyd, amgant.
Ambition, am-bish'-yn, *s.* uchelgais, uchelfryd, taergais, gorymgais, gorfyn, gorfyndod; swyddymgais, ucheldrem; chwannogaeth.
Ambitionless, am-bish'-yn-les, *a.* diawydd, diorymgais, anorfynig.
Ambitious, am-bish'-yz, *a.* uchelgeisiol,

uchelfrydig, gorfynol; chwannog, tra-chwantus; trahaus, rhwyfus, trafrostus; ymbilgar.
Ambitiousness, am-bish'-yz-nes, *s.* uchelfrydedd, gorfynt; chwannogrwydd.
Ambitude, am'-bi-tiwd, *s.* cylchedd, cwmpas.
Ambles, am'-bl, *v. n.* rhygyngu:—*s.* rhygyng, rhygyngedd.
Ambler, am'-blyr, *s.* rhygyngfarch, march rhygyngog.
Amblygon, am'-bli-gyn, *s.* tryfal pylongl.
Ambo, am'-bö, *s.* darllenfa, pregethfa; darllenne, pulpud, pwlpud.
Ambrosia, am-brö'-zhi-y, *s.* ammrwysan, ammrwys=bwyd dychymygol y duwiau paganaid.
Ambrosial, am-brö'-zhi-yl, *a.* ammrwysol, anfarwol, bywiol; per, hyfryd, eidiog.
Ambry, am'-bri, *s.* elusenfa, cardotfa, cardotty; bwytty, bwydgell, nester.
Ambulant, am'-biw-lynt, *a.* rhodiannol, treiniol, amrodiol.
Ambulate, am'-biw-let, *v. n.* rhodianna, rhodio, amrodio, amdramwy, gorymda, cerddeta, cerdded; tuthio.
Ambulation, am-biw-le'-shyn, *s.* rhodiad, amrodiad, amdreiniad.
Ambulatory, am'-biw-la-tyr-i, *a.* rhodiannol, amdramwyol, amredol, gworymdaol, symmudol:—*s.* amrodfa, rhodfa.
Ambury, am'-biw-ri, *s.* ysgwl=dafaden waedlyd ar geffyl; llystwddf=twddf ar lysiau:—*pl.* ysgylian.
Ambuscade, am-bys-ced', } *s.* cynllwyn,
Ambush, am'-bwsh, } rhagod, cyfragod; cynllwyniad; cynllwynfa, rhagodfa, llechfa; cadbwli:—*v.* cynllwyn, rhagod, cyfragod, cadlechu.
Ambust, am-byst', *a.* llosgedig, gwylosgedig.
Ambustion, am-byst'-cyn, *s.* llosg, llosgiad, goddaith; gwylosg, lleithlosg.
Amel, am'-yl, *s.* = *Enamel.* [ig.
Amelcorn, am'-yl-corn, *s.* gwenith ffrein-
Ameliorate, a-mel'-iö-ret, *v. a.* gwelläu, gwella; ffaethu, diwyllio.
Amelioration, a-mi-liö-re'-shyn, *s.* gwelläd, gwelliant, gwellineb.
Amen, e'-men', *ad.* amën; boed felly, felly boed, felly y bo; yn wir.
Amenable, a-mel'-nybl, *a.* atebol, cyfrifol!
Amenability, a-mi-ny-bul'-i-ti, *s.* ateboldeb.
Amenance, am'-en-yms, *s.* arweddiad, ymddygiad, moes, agwedd.

ö, llo; u, dull; w, swn; w, pwn; y, yr; g, fel tsh; j, John; sh, fel s yn eisieu; z, zël.

Amend, a-mend', *v. a.* cyweirio, adgyweirio; adnewyddu; diwygio, gwella, gwell.

Amendable, a-mend'-ybl, *a.* cyweiriadwy; adgyweiriol, gwellanol; gwelladwy.

Amendment, a-mend'-ment, *s.* cyweiriad; gwellad, gwelliant, diwygiad.

Amends, a-mendz', *s.* iawn, daffar, dadolwch; tál, pwyth.

Amenity, a-men'-i-ti, *s.* hyfrydwch, tirionwch, sirioldeb, areuledd.

Amerce, a-myrz', *v. a.* dirwyo, camlyrio, camgyly.

Amercement, a-myrz'-ment, *s.* dirwy, camlwrw, camgwyl.

Amethyst, am'-i-thust, *s.* amethyst, glasgochem, gem glasgoch = maen gwerthfawr o liw glasgoch.

Amiable, e'-mi-ybl, *a.* hygar, hawddgar, achar, caruaidd, serchus, cariadlawn, hyserch, maws, cu, cymmaws; prydweddol, prydfwrth; addfwyn.

Amiability, e'-mi-ybl-nes, *s.* hawddgarwch, cariadlondeb, hygarwch; prydfwrthwch.

Amianthus, am-i-an'-thys, *s.* urael, ystinos.

Amicable, am'-i-cybl, *a.* cyfeillgar, cariadus, cariadlawn, mwyn, cymmaws; heddychol, tawel, cymmodol; addfwyn.

Amiability, am'-i-cybl-nes, *s.* caredigrwydd, hyserchedd, cymmodoldeb; addfwynder.

Amice, am'-us, *s.* casul, iswenwisg; gwenwisg; hws.

Amid, a-mud', } *prp.* ym mysg, ym
Amidst, a-mndst', } mhlith, yng nghanol; plith, rhwng.

Amiss, a-mus', *a.* beius, beiol, gwallus: —*ad.* ar fai, ar gam, yn feius, allan o le, o le; yn anghymhwys, yn wallus, yn ddrwg.

Amission, a-mish'-yn, *s.* colled, coll; difuddiad.

Amit, a-mut', *v. a.* gollwng, rhyddhau.

Amity, am'-i-ti, *s.* cyfeillach, cyfeillgarwch; cymdeithas, cyweithas; cyfundeb, cydgordiad; cariad, caredigrwydd.

Ammonia, am-mö'-ni-y, *s.* ammonia, hedacali, gwrthsurai.

Ammoniac, am-mö'-ni-ac, *a.* ammoniol, hedacalig.

Ammunition, am-miw-nish'-yn, *s.* cadarnwrth, cadarpariaeth, cadarlwy, aerddarpariaeth, defnyddiau rhyfel.

Amnesty, am'-nes-ti, *s.* ebargofraith, anghofraith, tellwedd, argyreifiant.

Amnion, am'-ni-yn, } *s.* ambilen, col-
Amnios, am'-ni-os, } bilen, crothbilen.

Among, a-myng', } *prp.* ym mhlith,
Amongst, a-myngst', } ym mysg, rhwng;
plith, mysg, gyda, gydag; yng nghanol.

Amoret, am'-ö-ret, *s.* cariad; nwyfusen.

Amorette, } am'-ö-ret', *s.* nwyfusen,
Amaurette, } nwyfeges; nwyfusedd.

Amorist, am'-ö-rust, *s.* cariad, cariadfab, carodyn, carwr; anlladwr, nwyfwr, merchetwr, gordderchwr.

Amorosa, am-ö-rö'-zy, *s.* cariades, cariadferch; nwyfes, hynwfyfes, anllades.

Amarous, am'-ar-yz, *a.* nwyfus, hynwryf, careugar; serchlawn; anllad; hoff.

Amorousness, am'-ar-yz-nes, *s.* nwyfusrwydd; hoffder; anlladrydd.

Amorphous, a-mor'-ffyz, *a.* dilun, diddull.

Amort, a-mort', *a.* digalon, prudd: —*ad.* ar farw; yn llwfr, yn bendrist.

Amortization, a-mor-ti-ze'-shyn, } *s.* tir-
Amortizement, a-mor-tuz-ment, } alliad, iortholiant.

Amortize, a-mor-tuz, *v. a.* alliorthi, iortholi=trosi tir droes byth i gymdeithas neu frawdoliaeth.

Amotion, a-mö'-shyn, *s.* symmudiad.

Amount, a-mownt', *v.* cyrhaeddyd, cyrhaedd, dyfod; tyfu; cyssymio, cyfansymio: —*s.* cyfanswm, cyssum, swm; y cyfan, maint.

Amour, a-mu'yr, *s.* nwyfedd, nwyf; anlladwaith, serchneges.

Amoval, a-muf'-yl, *s.* symmudiad, trysymmudiad.

Amove, a-muf', *v. a.* symmud, syffyd; diswyddo.

Amphibia, am-ffub'-i-y, *s. pl.* dwyelfeniaid, amelfogion, amelfeniaid: —*sing.* amelfog, amelfeniad, cyntefyn.

Amphibiology, am-ffi-bi-ol'-ö-ji, *s.* amelfeneg, amelfeniaeth=traethawd ar amelfogion.

Amphibious, am-ffub'-i-ys, *a.* dwyelfenol, amelfenol; cymmysg; cyntefin.

Amphibology, am-ffi-bol'-ö-ji, *s.* amwys-eg, mwysobiaeth, mwysdraith; amheuedd.

Aphibolous, am-ffub'-ö-lyz, *a.* ynnysgytiol, ymergydiol. [gyrch.

Amphibrach, am'-ffi-brac, *s.* corfan am-Amphiscians, am-ffish'-i-yns, } *s. pl.* am-Amphiscii, am-ffish'-iei, } gysgodiaid, deugysgodiaid=trigolion y trofanau.

Amphitheatre, am-ffi-th'-a-tyr, *s.* amchwareufa, arddyrchfa; cemmaes.

Amphitheatrical, am-ffi-thi-at'-ri-cyl, *a.* amddyrchfaol, amchwarwyfaol.
 Ample, am'-pl, *a.* helaeth, ehelaeth, eang, maith, llydan; mawr, praff, llawn, aml; bras.
 Ampleness, am'-pl-nes, *s.* helaethder, eangedd; mawrder; llawnder, aml-edd.
 Ampliation, am-pli-e'-shyn, *s.* helaethiad, eangiad, mwyhâd.
 Amplificate, am-pliff'-i-cet, *v. a.* helaethu, chwanegu.
 Amplification, am-pliff-i-ce'-shyn, *s.* helaethiad, eangiad; mwyhâd; am-gylchiaeth.
 Amplifier, am'-pliff-ei-yr, *s.* helaethydd, eangwr; chwanegwr.
 Amplify, am'-pliff-ei, *v. a.* helaethu, mwyhau; lledu, taenu, amlhau; chwanegu, cynnyddu.
 Amplitude, am'-pli-tiwd, *s.* helaethrwydd, eangder, meithder; praffder, rheidder; mawrder, maint; digonedd.
 Amply, am'-pli, *ad.* yn helaeth; yn gyflawn.
 Amputate, am'-piw-tet, *v. a.* amdori, amdrychu, damdori, tori aelod, cythellu.
 Amputation, am-piw-te'-shyn, *s.* amdoriad, toriad aelod, cythelliad.
 Amulet, am'-iw-let, *s.* swynogl, cyfar-edd, swyngyfaredd.
 Amuse, a-miwz', *v. a.* difyru, dyddanu, lloddi, hufoddio, digrifhan.
 Amusement, a-miwz'-ment, *s.* difyrwch, digrifwch, dyddanwch, lloddiant, gochwareu.
 Amuser, a-miwz'-yr, *s.* difyrwr, digrifydd.
 Amusive, a-miw'-suf, *a.* difyr, dyddanus, hyfryd, hufoddio, lloddus.
 Amygdalate, a-mug'-da-let, *a.* almonaidd:—*s.* almonwy.
 An, an, *ind. art.*—*A*: arferedig o flaen llafariad neu *h* fud:—*an* army=byddin; *an* hour=awr.
 Anabaptism, an-a-bap'-tuzm, *s.* ail-fedyddiaeth, eilfedyddiaeth.
 Anabaptist, an-a-bap'-tust, *s.* ail-fedyddiwr, eilfedyddiwr, adfedyddiwr.
 Anacamptic, an-a-camp'-tic, *a.* adlewyrchedig, adlewyrchol, llewyrchol.
 Anacamptics, an-a-camp'-tics, *s.* adlewyrcheg, adlewyrchaeth, llewyrchidaeth.
 Anacathartic, an-a-ca-thar'-tic, *s.* cyfogai, chwydiadau; cyfogllyn, cyffyr at gyfogi.

Anachoret, an-ac'-ö-ret, } *s.* meudwy=
 Anachorite, an-ac'-ö-reit, } *Anchoret.*
 Anachronism, an-ac'-rö-nuzm, *s.* cam-amseriad, camfrudiaeth.
 Anaclastic, an-a-clas'-tic, *a.* dattoriadol; adlewyrchol.
 Anaclastics, an-a-clas'-tics, *s.* trylewyrcheg, tryweleg; pelldremaeth; rheiddeg.
 Anacreontic, an-a-cri-on'-tic, *s.* Anacreoneg=cân ar ddull Anacreon:—*a.* Anacreonaidd.
 Anademe, an'-a-düm, *s.* gwyrten, gwallgoron, coron flodau; coronbleth.
 Anadiplosis, an-a-di-plö'-sus, *s.* adgymmeriad.
 Anagogetical, an-a-gö-jet'-i-cyl, } *a.* cyf-
 Anagogical, an-a-gö'-ji-cyl, } rin-
 iol, dirgeledig, ysbrydol; allegol; tywyll, aneglur.
 Anagram, an'-a-gram, *s.* trawlslythriad, mysglythriad, croeslythyreniad; croeseb.
 Anagrammatical, an-a-gram-mat'-i-cyl, *a.* trawlslythryol; croesebus.
 Analects, an'-a-lects, *s. pl.* detholion, pigion.
 Analeptic, an-a-lep'-tic, *a.* adferol, cryfhaol, edrychol:—*s.* adferai, adferiadau.
 Analeptics, an-a-lep'-tics, *s. pl.* adferolion, cyfnertholion, edrydoliau.
 Analogical, an-a-loj'-i-cyl, *a.* cyfaleddol, cymharol, cyffelybol, cyfatebol, cydweddol, gohanredol; perthynol.
 Analogically, an-a-loj'-i-cyl-i, *ad.* yn gyflaidd, yn gyffelyb.
 Analogy, a-nal'-ö-ji, *s.* cyfaledd, cyfatebiad, cyfatebiaeth, cydweddiad, cyffelybiad, hefeliant, cyssondeb, tebyg-oldeb; perthynas.
 Analysis, a-nal'-i-sus, *s.* dosraniad, dadansoddiad, trychwaldiad, dosbarthiad, dattodiad, dadglymiad; egoriad.
 Analyst, an'-a-lust, *s.* dosranwr, dadansoddwr, trychwalwr.
 Analytic, an-a-lut'-ic, *a.* dosranol, dattodol, dosbarthol. [dadansoddeg.
 Analytics, an-a-lut'-ics, *s.* dosraniaeth, Analyse, an'-a-leiz, *v. a.* dosranu, dadansoddi, trychwalu, dosbarthu, dadglymu; agor.
 Analyzer, an-a-lei'-zyr, *s.* dosranwr, dadansoddwr, dosbarthwr, dattodydd.
 Anamorphosis, an-a-mor'-ffö-sus, *s.* afluniad, anffuriant.
 Anapæst, an'-a-pæst, *s.* corfan crychdyrchafedig (o ddwy sill fer ac un hir).
 Anaphora, a-naff'-ö-ry, *s.* adweddiad=trofeg ymadrodd.

- Anarch, an'-arc, *s.* anlywodwr, terfysg-ydd.
- Anarchical, an-ar'-ci-cyl, *a.* anlywodol, aflywodraethol, terfysgus, dilywodraeth. [Anarch.
- Anarchist, an'-ar-cust, *s.* anlywodwr=
- Anarchy, an'-ar-ci, *s.* aflywodraeth, anlywodraeth; amheuaeth; annhrefn, terfysg.
- Anasarca, an-a-sar'-cy, *s.* dyfrglwyf, dyfrwst; ollddyfrwst.
- Anastrophe, a-nas'-trö-ffi, *s.* gwrth-droad, gwrtheirdroad = cyfnewidiad trefn naturiol geiriau mewn ymadrodd.
- Anathema, a-nath'-i-my, *s.* esgymmundeb, esgymmuniad, melldith, anathema.
- Anathematize, a-nath'-i-my-teiz, *v. a.* esgymmuno, melldigo, rhydyngu, damdyngu, diofrydu, anathemu.
- Anatocism, a-nat'-o-suzn, *s.* adlog, arlog, llog ar log.
- Anatomical, an-a-tom'-i-cyl, *a.* difyniadol, difynol; attoriadol.
- Anatomist, a-nat'-ö-must, *s.* difyniwr; attorydd.
- Anatomize, a-nat'-ö-meiz, *v. a.* difyniadu, difynio.
- Anatomy, a-nat'-ö-mi, *s.* difyniaeth, difyneg; difyniant; attoriaeth.
- Ancestor, an'-ses-tyr, *s.* hynafiad:—*pl.* hynafiaid; cyndadau, teidiau, y tadau; rhiaint, rhieni; y rhai gynt.
- Ancestral, an'-ses-tyrl, *a.* hynafaidd, cyndadaidd; cyndadol, rhieniöl.
- Ancestry, an'-ses-tri, *s.* hynafiaeth, gwelygordd, bonedd, cyffenedd, rhieniäeth; achau, llinachau.
- Anchor, angc'-yr, *s.* angor, heor:—*v.* angori, heori, bwrw angor.
- Anchorage, angc'-yr-ëj, *s.* angorfa, angordraeth, heordraeth; angoriad.
- Anchoret, angc'-ö-ret, } *s.* meudwy,
- Anchorite, angc'-ö-reit, } didryfrwr, unigwr, golychwydwr.
- Anchovy, an-çö'-fi, *s.* brwyniad=math ar bysgodyn bychan.
- Ancient, en'-shent, *a.* hen, hynafol; oedranus, hirhoedlog, oesol, henain:—*s.* henur, henuriad, henydd.
- Anciently, en'-shynt-li, *ad.* gynt, yn y cyfnyd; yn y dyddiau gynt, yn yr hen amseroedd.
- Ancientry, en'-shynt-ri, *s.* hynafiaeth, bonedd; achau.
- Ancients, en'-shynts, *s. pl.* hynafiaid, hynafiaid, henuriaid.
- Ancient-of-days, en'-shynt-yf-dez', *s. yr* Hen Ddihenydd; lor.
- Ancillary, an'-sul-yr-i, *a.* morwynol; isweinyddol; cynnorthwyol, ffrwyol:—*s.* llawforwyn.
- Ancon, angc'-yn, *s.* arelin, penelin.
- And, and, *c. a.* ac, ag; hefyd.
- Andabatism, and'-y-bat-uzm, *s.* ansicwydd, annilysrwydd; anwadalwch.
- Andante, an-dan'-ti, *a.* manwl; lled-araf, goaraf.
- Andiron, and'-i-ryn, *s.* brigwn, gobed.
- Androea, an-drö'-y, *s.* creigymlyn=math ar fwswn.
- Androgynal, an-droj'-i-nyl, *a.* deurywiol, deurywiog.
- Androgynus, an-droj'-i-nyz, *s.* deurywiog, deurywiad, deuryw, lifyn hafog.
- Androgyny, an-droj'-i-ni, *s.* deurywiaeth.
- Anecdote, an'-ec-döt, *s.* hanesyn, chwedlig, cofhanesyn.
- Anecdotal, an-ec-döt'-i-cyl, *a.* hanesynol.
- Anemography, an-i-mog'-ra-ffi, *s.* gwyntyddiaeth.
- Anemometer, an-i-mom'-i-tyr, *s.* gwyntiadur, gwyntfesur.
- Anemoscope, a-nem'-ö-scöp, *s.* gwyntebyr, gwyntfyng.
- Anent, a-nent', *ad.* yng nghylch; argyfer, gyferbyn.
- Aneurism, an'-iw-ruzm, *s.* ymlediad, lydaniad; ymledwst.
- Anew, a-niw', *ad.* o newydd; trachefn, eto; eilwaith.
- Anfractuous, an-ffrac'-çiw-yz, *a.* dyrtsfaol, bachdroawl, dyrtsol, dyrtsdroawl.
- Angel, en'-jyl, *s.* angel, (*pl.* angylion, engyl, engylion);—*f.* angyles, duwies, elen.
- Angel, en'-jyl, *s.* angel=chweugain, cheugaint; angel=enw pysgodyn.
- Angel-fish, en'-jyl-ffish', *s.* maelgi=pysgodyn o genedl y morgi.
- Angelic, an-jel'-ic, *a.* angylaidd, angylain; claidd, elig.
- Angelot, an'-ji-lot, *s.* telynel=offeryn cerdd.
- Anger, ang'-gyr, *s.* dig, digder, llid, digofaint, diglloedd, digllonder, casfar, lliidiogrwydd, blyngder, casnar, casnur, bär, gwyth, amwyth, soriant, gwythlloedd, elldid, casineb, adlo, sär, broch; dolur:—*v. a.* digio, lldio, an-foddloni; cyffroi.
- Angina, an-jel'-ny, *s.* mynyglog, hychgryg, dolur gwddf.
- Angiography, an-ji-og'-ra-ffi, *s.* llestr-

yddiaeth, corfflestryddiaeth = darlun-
iad o lestri 'r corff dynol.

Angiology, an-ji-ol'-ô-ji, *s.* llestroneg,
corfflestrereg = traethawdar lestri 'r corff
dynol.

Angle, ang'-gl, *s.* ongl, elin, congl, cor-
nel, gaff, gaffach, cil, cilfach, cilan,
ebach, bachell; genwair, bach, bach
pysgota, bechyn:—*v.* genweirio, pys-
gota.

Angler, ang'-glyr, *s.* genweiriwr, gen-
weirydd.

Angle-rod, ang'-gl-rod, *s.* genwair, gwi-
alen (ialen) bysgota.

Anglicism, ang'-gl-suzm, *s.* Seisnigaeth,
Saesonigiaeth.

Anglicize, ang'-gli-seiz, *v. a.* Seisnigo,
Saeseoneiddio.

Angling, ang'-gling, *s.* genweiriad.

Angling-line, ang'-gling-lein, *s.* genweir-
lin, llinyn genwair, llinyn pysgota,
llinyn middi, ffunen, ffunen bysgota.

Angour, ang'-gyr, *s.* poen, dirboen; tag-
fa, gwasgfa.

Angry, ang'-gri, *a.* dig, digofus, dig-
lawn, lliidog, lliidus, addig, blwng;
anfoddog, sor, ffrom, gygus; sarug,
dreng, gwythog, brochus.

Anguish, ang'-gwis, *s.* ing, cyni, gofid,
cyfyngdra, caledi, cystudd, dygnedd,
cysteg; gloes, gwŷn, gwasgfa, dolur,
gloesni, poen, angwyth, engur:—*v. a.*
gorboeni, dirboeni, gloesygu, cystuddio.

Angular, ang'-giw-lyr, *a.* ongllog, elinog,
congllog, cornellog.

Angulated, ang'-giw-le-ted, *a.* onglledig,
cornellog, ongllog, bachog.

Angust, ang'-gyst, *a.* cul, cyfyng.

Anhelation, an-hi-le'-shyn, *s.* dyhead,
dyheud; byranadliad, diffyg anadl.

Anhelous, an'-hi-lyz, *a.* dyheawl, dy-
heul; byranadlog.

Anhydrous, an-hei'-dryz, *a.* annyfrol,
annyfrain, diddwfr.

Aniented, an'-ien-ted, *a.* somedig; di-
ddymedig.

Anile, a-neil', *a.* gwrahaidd, gwrachi-
aidd, henaidd.

Anileness, a-neil'-nes, } *s.* gwracheidd-
Anility, a-nul'-i-ti, } rwydd, gwrechi,
henwreigiaeth, gwrahandod.

Animable, an'-i-nybl, *a.* bywadwy.

Animadversion, an-i-mad-fyr'-shyn, *s.*
adfryd, barn, ystyriaeth, sylwad,
beirniadaeth; cerydd, cystwy.

Animadversive, an-i-mad-fyr'-suf, *a.* ad-
frydol; syniol.

Animadvert, an-i-mad-fyrt', *v. n.* ad-

frydu; ystyried, sylwi; barnu, beirn-
iadu; ceryddu, cospi.

Animadvert, an-i-mad-fyr'-tyr, *s.* ad-
frydwr; beirniad, sylwedydd; sen-
wr, seniador.

Animal, an'-i-myl, *s.* anifel, anifail, mil,
milyn, ysgrubl, bywiad, byw:—*a.*
seifeilig, anifeiliol, milaid; eneidiol,
bywiol, anianol.

Animalcula, an-i-mal'-ciw-ly, *s. pl.*
milionos. [ionol.]

Animalcular, an-i-mal'-ciw-lyr, *a.* mil-
Animalcule, an-i-mal'-ciwl, *s.* milionyn:
—*pl.* milionos.

Animal economy, an'-i-myl i-con'-ô-mi,
s. milfodog, milodyddiaeth, milfod-
raith.

Animal fluid, an'-i-myl fflw'-ud, *s.* mil-
wy, milaw.

Animal heat, an'-i-myl hit, *s.* mildym-
mer, mildymmeredd.

Animality, an-i-mal'-i-ti, *s.* milfodaeth,
mileiddiaeth; anianogrywydd.

Animal nature, an'-i-myl ne'-cyr, *s.* mil-
edd, milnawd, milanian.

Animal spirits, an-i-myl spyr'-uts, *s.*
ysbrydoedd; nwyf, arial.

Animate, an'-i-met, *a.* bywhau, bywiogi,
bywiocâu, bywioli, eidiogi, eidio; ari-
ialu, pyblu, hawntu; cefnogi, cysuro;
eneidio:—*a.* byw, bywiol, bywydol,
eidiol.

Animated, an'-i-me-ted, *a.* bywedig;
bywydol; bywiog, nwyfog, nwyfus,
arialus, erfai, yniol, egniol, ysbryd-
lawn, hawntus.

Animation, an-i-me'-shyn, *s.* bywhâd,
bywiogrywydd, byweiddiad; eneidiaid,
enybed, hawnt, hawntiad, bywdeb,
bywyd, calondid.

Animative, an'-i-ma-tuf, *a.* bywhaol,
bywiogol, bywiocaol.

Animator, an'-i-me-tyr, *s.* bywhâwr,
bywiawdwr, bywiogwr.

Animose, an'-i-môs, *a.* ysbrydog, ysbryd-
lawn, arialus; gwresog, angerddol.

Animosity, an-i-mos'-i-ti, *s.* dygasedd,
gelyniaeth, casineb, blyngedd, cilwg,
mig, annysgymmod.

Anise, an'-us, *s.* anis.

Anise-seed, an'-us-sid, *s.* had anis.

Anker, ang'-cyt, *s.* barilan (o wahanol
fesur, mewn gwahanol fanau).

Ankle, ang'-cl, *s.* migwrn, bigwrn, ffer,
ffern, ucharn, deilw.

Annalist, an'-a-lust, *s.* blwyddiadur,
blwyddhanesydd, blwyddolwr, hanes-
wr blwyddol; hanesydd.

- Annals, an'-nylz, *s. pl.* blwyddiuron, blwyddolion; brutiau, hanesion.
- Annats, an'-nyts, *s. pl.* cynwyn, cynffrwyth, blaen-gnwd, blaenffrwyth.
- Anneal, an-nal', *v. a.* tymmeru; gwres-dymmeru; crasu, poethi.
- Annex, an-necs', *v. a.* olddodi, attodi, atddodi; cyssylltu, chwanegu, atosod; uno:—*s.* olddod, atosawd, chwanegiad.
- Anexation, an-nec-se'-shyn, *s.* attodiad, cyssylltiad, olddodiant, chwanegiant; uniad.
- Annihilable, an-nei'-hi-lybl, *a.* diddymadwy, difodadwy.
- Annihilate, an-nei'-hi-let, *v. a.* diddymu; difa, dyfetha.
- Annihilation, an-nei-hi-le'-shyn, *s.* diddymiad, diddymiaeth, diddymiant, difodiad.
- Anniversary, an-ni-fyr'-syr-i, *a.* blynyddol, blwyddol:—*s.* cylchwyl, gwyl flynyddol.
- Annomination, an-nom-i-ne'-shyn, *s.* argyfenwad; mwysair; cyflythyriad, unlythyriad.
- Annotate, an-nö-tet, *v. n.* nodiadu, sylwadu, arnodiadu; esbonio, egluro.
- Annotation, an-nö-te'-shyn, *s.* nodiad, sylwad, arnodiad; esboniad, eglurhâd.
- Annotator, an-nö-te'-tyr, *s.* nodiadur, arnodiadur, sylwadur; sylwedydd, arnodydd; esboniwr.
- Announce, a-nowns', *v. a.* cyhoeddi, dadgan, hysbysu, mynegi.
- Announcement, an-nowns'-ment, *s.* cyhoeddiad, hysbysiad, mynegiad.
- Annoy, an-noi', *v. a.* blino, aflonyddu, terfysgu, coddi, drygu, argyweddu, poeni:—*s.* blinder; niwed, asgen.
- Annoyance, an-noi'-yng, *s.* blinder, aflonyddwch, anesmwythder; gofid, rhwystr; sarhâd.
- Annoyer, an-noi'-yr, *s.* blinwr, argyweddwyr. [lawn.
- Annoyful, an-noi'-fwl, *a.* blin, terfysg.
- Annual, an'-niw-yl, *a.* blynyddol, blwyddol:—*s.* blwyddiatur, blwyddog.
- Annually, an'-niw-yl-i, *ad.* yn flynyddol, bob blwyddyn, o flwyddyn i flwyddyn.
- Annuitant, an'-niw-i-tynt, *s.* blwyddelwog, blwydd-dalog = derbynydd tâl blynyddol.
- Annuity, an'-niw-i-ti, *s.* blwyddoseb, blwyddelw, blwydd-dâl.
- Annul, an-nyl', *v. a.* dirymu, dilëu, diddymu, cyreifio.
- Annular, an'-niw-lyr, *a.* modrwyol, rhwyol, cylchol; modrwyaidd.
- Annulet, an'-niw-let, *s.* modrwyen, modrwyig, cylchig.
- Annulment, an-nyl'-ment, *s.* dirymiad, dilead, diddymiad.
- Annurate, an'-niw'-myr-et, *v. a.* at-rifo.
- Annuration, an'-niw'-myr-e'-shyn, *s.* atrifiad, atrifiant.
- Annunciate, an-nyn'-shi-et, *v. a.* hysbysu, dadgan, amlygu, mynegi.
- Annunciation, an-nyn'-shi-e'-shyn, *s.* y Cyfarchiad, Cyfarchiad Mair, Gwyl Fair y cyhydedd=y 25ain o Fawrth; cyhoeddiad, mynegiad.
- Anodyne, an'-ö-dun, *s.* esmwythai, cysed, torboen, torloes:—*a.* esmwyth-aol, esmwythol, llinarol.
- Anoint, a-noint', *v. a.* eneinio; iro, elio, ireidio.
- Anointed, a-noin'-ted, *p. a.* eneiniedig, eneinol:—*s.* eneinog.
- Anointer, a-noint'-yr, *s.* eneinwr, eneinnydd.
- Anointing, a-noint'-ing, } *s.* enein-
Anointment, a-noint'-ment, } iad; eli-
ad, ireidiad.
- Anomalistic, a-nom'-a-lus-tic, *a.* afreolaidd, direol; anghyfartal, anghyfreddol.
- Anomaly, a-nom'-a-li, *s.* afreoledd, afreolaeth; anghyfartaledd, anghyfreddiad; anhafaledd.
- Anon, a-non', *ad.* ar fyr, yn fuan, yn y man, ar frys, yn ebrwydd, yn ddiwed, yn ddiannod, yn ddiattreg, ar ffwrst, allan o law; weithiau, yn awr ac eilwaith.
- Anonymous, a-non'-i-myz, *a.* dienw, anhysbys.
- Anopsy, an'-op-si, *s.* anolwg.
- Anorexy, an'-ö-rec-si, *s.* dicrâwch, anny-chwant=pall chwant ymborth.
- Anosmia, an-os'-mi-y, *s.* afrogl, afrogl-euaeth.
- Another, an-ydd'-yr, *a.* arall, all:—*pr.* un arall.
- Ansated, an'-se-ted, *a.* dyrdddolog, llofellog, doleng; carnog.
- Answer, an'-syr, *v. a.* ateb; cyfateb; gorebu:—*s.* ateb, atebiad; gorebiad.
- Answerable, an'-syr-ybl, *a.* atebol; cyf-atebol, cyfrifol, ymrwymol; atebadwy.
- Answerer, an'-syr-yr, *s.* atebwr, ateb-ydd; cyfatebwr; gwrthebwr.
- Ant, ant, *s.* morgrugyn, grugiad, myw-ionyn, dyban, morionyn.
- Antacid, ant'-as-sud, *s.* gwrthsur, ansur.
- Antacid, ant'-ac-rud, *s.* gwrthlymsur.
- Antagonist, an-tag'-ö-nust, *s.* gwrthwy-

nebwr, gwrthwynebydd, erbyniwr, gwrthasafwr, gwrthryniad, gwrthblaid, gwrthymdrechyd; gwrthgyhyr:—*a.* gwrthwynebol, gwrthweithiol, gwrthasafol.

Antagonize, an-tag'-ö-neiz, *v. a.* gwrthwynebu, gwrtherbynu.

Antagony, an-tag'-ö-ni, *s.* gwrthwynebiad, gwrthymdrechiad; ymdrech, gwrthedd.

Antalgic, an-tal'-jic, *a.* esmwythol, esmwythaol, llinarol.

Antanaclasis, an-tan-a-clé'-sus, *s.* gwrthymgyrch=ffugr areithyddol.

Antarctic, an-taró'-tic, *a.* deheuol; *de.* Antarctic pole, an-taró'-tic pöl, *s.* pegwn y *de*, y pegwn deheuol.

Antarthritic, an-tar-thrut'-ic, *a.* gwrthgymmalystog; *da* rhag y gymmalwst.

Antasthmatic, an-tas-mat'-ic, *a.* gwrthfogfaol, gwrthfygodol:—*s.* gwrthfygodai.

Ant-bear, ant'-beyr, } *s.* grugarth, grug-
Ant-eater, ant'-i-tyr, } ysfil.

Ante-act, an'-ti-act, *s.* cynweithred, rhagweithred.

Antecede, an-ti-sid', *v. a.* rhagflaenu, blaenori, blaenu.

Antecedence, an-ti-sé'-dens, *s.* rhagflaeniad, blaenoriaeth, blaenafiaeth, cyndod.

Antecedent, an-ti-sé'-dent, *a.* rhagflaenol, rhagfyndol, blaenorol, rhagredol:—*s.* rhagflaenor, rhagflaenorydd, blaenor, blaenafydd, rhagredor, blaenydd, blaenorydd.

Antecessor, an-ti-ses'-syr, *s.* rhagarweinydd, penog; hynfeddiannwr; hynafiad.

Antechamber, an'-ti-çam-byr, *s.* rhagystafell. [ydd.

Antecursor, an-ti-cyr'-syr, *s.* rhagreddeg.

Antedate, an'-ti-dét, *s.* rhagamseriad, rhagddyddiad, cynamseriad.

Antidiluvian, an-ti-di-liw'-fi-yn, *a.* cynddylifol, cynddylwiol:—*s.* cynddylfiad, cynddylwyd.

Antelope, an'-ti-löp, *s.* crychgorn, gafr-ewig.

Antemerdian, an-ti-myr-ud'-i-yn, *a.* anterth, anterthol, cyn nawn, cyn canol dydd, bore.

Antemetic, an-ti-met'-ic, *a.* gwrthgyfogol:—*s.* gwrthgyfog, gwrthgyfogai.

Antemundane, an-ti-myn'-den, *a.* cyn y byd.

Antepast, an'-ti-past, *s.* blaenbrawf, cynbrawf, rhagbrawf.

Antepenult, an-ti-pi-nylt', *s.* rhagoben, y sill olaf ond dwy.

Antepenultimate, an-ti-pi-nylt'-i-met, *a.* rhagobenol; *yr* olaf ond dwy.

Antepileptic, ant-ep-i-lep'-tic, *a.* gwrthlewygol:—*s.* gwrthlewygai.

Anteposition, an-ti-pö-zish'-yn, *s.* gwrthgyflead.

Anterior, an-té'-ri-yr, *a.* blaenorol, rhagfed; *cyn.*

Anteriority, an-ti-ri-or'-i-ti, *s.* blaenoriaeth, blaenafiaeth, cyndod.

Anteroom, an'-ti-rwm, *s.* rhagystafell.

Anthelmintics, an-thel-mun'-tics, *s. pl.* gwrthlyngyriion.

Anthem, an'-them, *s.* glwysgan, glwysgerdd, anthem; cydgan.

Anther, an'-thyr, *s.* brigell, brigen.

Ant-hill, ant'-hul, *s.* mordwyn, myrdwyn, myrgrug, crug morgrug.

Anthology, an-thol'-ö-ji, *s.* gwlliadur, blodiadur, blodioneg, blodeuaeth; blodeugerdd.

Anthony's fire, an'-tö-niz ffei'yr, *s.* iddwf, tân iddwf.

Anthracite, an'-thra-seit, *s.* maenlo, glo careg, glo caled, caledol.

Anthropology, an-thró-pol'-ö-ji, *s.* dyniadur, dynamianaeth; dynwedyddiaeth.

Anthropophagy, an-thró-poff'-a-ji, *s.* breuadaeth, dynfwytäd, cnawdysiad.

Anthroposophy, an-thró-pos'-ö-ffi, *s.* dynwyddiant, dynofyddiaeth, dynwybod-aeth. [gysgol.

Anthypnotic, an-thup-not'-ic, *a.* gwrth-antic, an'-tic, *s.* digrifwr, munudiwr, mydumiwr, ysmaldodwr; ysgentyn:—*v. a.* mydumio, ystumio, munudio:—*a.* hen; digrif.

Antichrist, an'-ti-creist, *s.* anghrist, gwrthgrist.

Antichristian, an-ti-crus'-ti-yn, *a.* anghristiol, anghristaidd, gwrthgristiol; anghristionogol.

Antichristianism, an-ti-crus'-ti-an-uzm, *s.* anghristiolaeth, anghristiaeth, gwrthgristiolaeth.

Antichronism, an-ti-crö'-nuzm, *s.* gwrthamseriad, camamseriad.

Anticipate, an-tus'-i-pet, *v. a.* rhagflaenu, dyddarbod, rhagachub, rhagreddeg; rhagwled, rhagfwynhau, rhagbrofi.

Anticipation, an-ti-si-pe'-shyn, *s.* rhagflaeniad, dyddarbodaeth, arbodaeth; rhagfwynhäd.

Anticipator, an-tus'-i-pe-tyr, *s.* rhagflaenydd, dyddarbodwr, cynddygwr.

Anticlimax, an-ti-clei'-macs, *s.* disgyn-eb, disgyniaith.

ö, llo; u, dull; w, swm; w, pwn; y, yr; ç, fel tsh; j, John; sh, fel s yn eisieu; z, zél.

- Anticonvulsive, an-ti-con-fyl'-suf, *a.* gwrthddirgrynol.
- Anticor, an-ti-cor, *s.* ysgyfeinwst, yr ysgyfaint.
- Antidotal, an-ti-dö-tyl, *a.* gwrthwennynol, dadwennynol.
- Antidote, an-ti-döt, *s.* gwrthwennyn, dadwennyn.
- Antiface, an-ti-ffes, *s.* gwrthwyneb.
- Antifebrill, an-ti-ffeb'-rul, *a.* anfwythol, gwrthdwennynol.
- Antilogy, an-tul'-ö-ji, *s.* gwrthddywed-iad, ymwrtheb.
- Antimetathesis, an-ti-mi-tath'-i-sus; an-ti-met-a-thz'-sus, *s.* gwrtherbyniaeth = troell ymadrodd.
- Antimonarchical, an-ti-mö-nar'-ci-cyl, *a.* gwrthdeyrnol, gwrthunbenol.
- Antimonial, an-ti-mö-ni-yl, *a.* delydrol.
- Antimony, an-ti-myn-i, *s.* delydr, cyffer-fwn, antimyni.
- Antinomian, an-ti-nö-mi-yn, *a.* gwrth-ddeddfol, anneddfol, gwrthreithiol :— *s.* gwrthddeddfwr, anneddfiad, antinomiad.
- Antinomianism, an-ti-nö-mi-yn-uzm, *s.* anneddfiaeth, gwrthddeddfiaeth, antinomiaeth.
- Antinomy, an-ti-nom-i, *s.* gwrthdeddf, gwrthgyfraith, gwrthreithiant.
- Antipathetic, an-ti-pa-thet'-ic, *a.* gwrthnawsol, gwrthwynebol.
- Antipathy, an-tup'-y-thi, *s.* gwrthnaws, gwrthfflas, gwrthwynebedd, casineb; anghytteimlad.
- Antiperistasis, an-ti-per-us'-ta-sus, *s.* gwrthgylchsaf, gwrthamsaf.
- Antipestilential, an-ti-pes-ti-len'-shyl, *a.* gwrth-heintus, anheintus.
- Antiphlogistics, an-ti-fflö-jis'-tics, *s. pl.* gwrthfflamegion.
- Antiphony, an-tuff'-ö-mi, *s.* gogydgan, atebgan, gwrthgan.
- Antiphraasis, an-tuff'-ra-sus, *s.* gwrtheiriad, gwrthair, gwrthieithiad.
- Antipodes, an-tup'-ö-diz, *s. pl.* gwrthdroediaid, gwrthdroedolion, gwrthdroedogion.
- Antipoinson, an-ti-poi'-zn, *s.* gwrthwennyn.
- Antipope, an-ti-pöp, *s.* gwrthbab.
- Antiquarian, an-ti-cwe'-ri-yn, *a.* hynafiaethol, hynafol :— *s.* hynafiadur, hynafiaethydd.
- Antiquary, an-ti-cwe-ri, *s.* = *Antiquarian.*
- Antiquate, an-ti-cwet, *v.* heneiddio; diddyma, dilëu.
- Antiquated, an-ti-cwe-ted, *p. a.* heneiddiedig, heneiddiol; diarfer; diddymedig.
- Antique, an-tic', *a.* henafol, henaidd, hen, cynoesol :— *s.* henwaith; hynafiaeth.
- Antiquity, an-tic'-cwi-ti, *s.* hynafiaeth, hynafiaeth; hender; *y* cynoesoedd, *y* cynamseroedd, yr amser gynt; yr hynafiaid.
- Antiquities, an-tic'-cwi-tiz, *s. pl.* hynafion; hynafiaethau.
- Antiscii, an-tish'-i-ei, *s. pl.* gwrthgysgodiaid, gwrthgysgodogion = trigolion dau du'r cyhydedd.
- Antiscorbatic, an-ti-scor-biw'-tic, *a.* gwrthglefrig, gwrthglafrol.
- Antiscorbatics, an-ti-scor-biw'-tics, *s. pl.* gwrthglefrigion, gwrthglafrolion.
- Antiseptic, an-ti-sep'-tic, *a.* gwrthbydrol.
- Antiseptics, an-ti-sep'-tics, *s. pl.* gwrthbyrolion.
- Antispasmodic, an-ti-spaz-mod'-ic, *a.* gwrthwynegol.
- Antispasmodics, an-ti-spaz-mod'-ics, *s. pl.* gwrthwynegion; cyfferi rhag yr wrwst.
- Antisplenetic, an-ti-sple-net'-ic, *a.* gwrthdduegol.
- Antistasis, an-tus'-ta-sus, *s.* rhaghysbysiad, rhagddangosiad.
- Antistrophe, an-tus'-trö-ffü, *s.* gwrthymdroad, gwrthdro.
- Antistrumatic, an-ti-strw-mat'-ic, *a.* gwrthfanwynog.
- Antithesis, an-tuth'-y-sus, *s.* cyferbyniaeth, gwrthosodiad, trawsddodiad.
- Antitrinitarian, an-ti-trun-i-te'-ri-yn, *s.* gwrthdrindodiad, gwrthdrindodwr; undodwr :— *a.* gwrthdrindodawl, gwrthdrindodaidd.
- Antitype, an-ti-teip, *s.* gwrthlun, gwrthgysgod.
- Antivenereal, an-ti-fi-nö'-ri-yl, *a.* gwrth-anllad, gwrthanllad.
- Antler, an'-tyr, *s.* cornogsl, corn-gang, corn gainc :— *pl.* cornogslau = cangau cyrn carw.
- Antöci, an-tö'-sei, *s. pl.* gwrthdrigan-wyr.
- Antonomasia, an-tö-nö-me'-zhy, *s.* lled-enwad, gwrthenwad.
- Antre, an'-tyr, *s.* ogof, ffau, lloches.
- Anus, an'-ys, *s.* rhefr; cyfeistedd.
- Anvil, an'-ful, *s.* einging, cynsyllt.
- Anvil-stock, an'-ful-stoc, *s.* cyff einging, ploeyn einging.
- Anxiety, ang-zei'-i-ti; angc-sei'-i-ti, *s.*

- pryder, gofal, dyddoriant; anesmwyth-
 der, cur, trymfryd, dygnedd, prwysti,
 brwyn, cyni, helbul, gnif; cymrhyder,
 gofeiliant.
- Anxious, *angc'-shyz, a. pryderus, pryder-*
ol, awyddus, dyddorgar; anesmwyth,
brwyniog, trymfrydig.
- Anxiousness, *angc'-shyz-nes, s. pryder-*
usrwydd, carcusrwydd; pryderi.
- Any, *en'-i, a. un, unrhyw; neb; neb-*
awd, nebun, dim; rhyw; pwy bynag.
- Anywise, *en'-i-weiz, ad. yn rhywfodd,*
yn rhyw ddull; mewn un modd; cr
dim.
- Aorist, *e'-ö-rust, s. ammhenedol, amser*
amhenedol.
- Aorta, *c-or'-ty, s. gorwythen, prif-*
wythen.
- Apace, *a-pes', ad. ar frys, ar ffwrst, yn*
chwimwrth; yn fuan, yn ddiaros, yn
ddioed, yn ebrwydd, yn ddiannod; yn
esgud.
- Apagoge, } *ap'-a-gö-ji; ap-a-gö'-ji, s.*
 Apagogy, } *gorymddygiad, gorym-*
ddwyn.
- Apagogical, *ap-a-goj'-i-cyl, a. gorym-*
ddygol, gorddygiadol.
- Apanthropy, *a-pan'-thrü-pi, s. annyn-*
garwch, neilldugarwch, cilgarwch.
- Apart, *a-part', ad. o'r neilldu, ar neill-*
du; ar wahan, ar ddydol; wrtho ei
hun; y nail oddi wrth y llall.
- Apartment, *a-part'-ment, s. rhandy,*
ystafell, cafell.
- Apathetic, *ap-a-thet'-ic, a. dideimlad,*
annheimladol.
- Apathy, *ap'-a-thi, s. annheimlad, di-*
deimladrwydd, annwyf; difaterweh.
- Ape, *ep, s. äb, epa, nar, sinach, gwrab;*
dynwardwr:—v. a. dynwarded, am-
redu, mocio; chwareu yr äb.
- Apeak, *a-pic', ad. ar ei big; yn syth.*
- Apepsy, *a-pep'-si, s. treullball, annhrael.*
- Aperient, *a-pe'-ri-ent, a. agoriadol;*
rhyddhaol, ysgothol:—s. agorai, ys-
gothai.
- Apertion, *a-pyr'-shyn, s. agoriad, adwy.*
- Apertly, *a-pyr't'-li, ad. yn eglur, yn*
amlwg, yn oleu; yn agored.
- Apertness, *a-pyr't'-nes, s. agoroldeb,*
angheuadrwydd; amlygadrwydd.
- Apertor, *a-pyr'-tyr, s. agorydd, agor-*
iawdr.
- Aperture, *ap'-yr-çiwyr, s. agoriad, agor-*
ad, gorel, adwy, bwlch, rhwyll, agen,
tll.
- Apetalous, *a-pet'-a-lyz, a. diflodeuddail,*
diflodail.
- Apex, *e'-pecs, s. } copa, top, cop,*
 Apices, *ap'-i-siz, s. pl. } pen, crib, cwn-*
wg, blaen; hirnod; brigen.
- Aphelion, *a-ff'-li-yn, s. heullbellafaint*
pellafaint=y pwynt pellaf oddi wrth
yr haul yng nghylchdro planed.
- Aphæresis, *a-ff'-ri-sus, s. blaendoriad,*
blaendrwch; amdrychiad.
- Aphilanthropy, *aff-i-lan'-thrü-pi, s. ann-*
nyn-garwch.
- Aphis, *aff'-us, s. } llysleuen;*
 Aphides, *aff'-i-diz, s. pl. } gwrach y*
lludw, gwrach y twca:—pl. llyslau.
- Aphony, *aff'-ö-ni, s. lleisgoll, llafargoll;*
mudandol.
- Aphorism, *aff'-ö-ruzm, s. gwireb, ar-*
wiredd, arwir; gosodiad, byrwediad.
- Aphorist, *aff'-ö-rust, s. gwirebydd; ys-*
grifenwr gwirebion.
- Aphoristical, *aff'-ö-rus'-ti-cyl, a. gwir-*
ebus, byrwedol.
- Apiary, *e'-pi-yr-i, s. gwenynfa, gwen-*
ynog, gwenynlle.
- Apiece, *a-pis, ad. pob un, bob un; ar*
wahan, yn wahanredol.
- Apish, *e'-pish, a. abaidd, epaol, gwrab-*
aidd; dynwardol; ffol, coegaidd,
coegfalch; diwerth.
- Apishness, *e'-pish-nes, s. abeiddrwydd,*
gwrabeiddrwydd; dynwardiaeth;
ffoledd, coegedd, coegyndod.
- Aplustre, *a-plys'-tyr, s. oladdurn, addurn*
llywle llong.
- Apocalypse, *a-poc'-a-lups, s. Dadgudd-*
iad, Datguddiad, Llyfr y Dadguddiad;
arddadguddiad.
- Apocalyptical, *a-poc-a-lup'-ti-cyl, a.*
dadguddiadol, dadguddiol; arddad-
guddiol. [doriad.
- Apocope, *a-poc'-ö-pi, s. oldrychiad, ol-*
 Apocrypha, *a-poc'-ri-ffa, s. yr Apocry-*
pha; annilysiadur; annilyseb.
- Apocryphal, *a-poc'-ri-ffal, a. anghanon-*
aidd, anawdurol; annilysol, amheu-
ol; cudd.
- Apodictical, *a-pö-dic'-ti-cyl, a. arddang-*
osol, areglur, aramlygol, dangosedigol.
- Apodixis, *ap-ö-dic'-sus, s. arddangosiad,*
prawf.
- Apogee, *ap'-ö-ji, s. diarbellaflant, pell-*
afaint=y fan bellaf oddi wrth y ddaiar
yng nghylchdro planed.
- Apogiatra, *a-pö-ji-a-tiw'-ry, s. addurn-*
eg, addurnod.
- Apograph, *ap'-ö-graff, s. adysgrif, cyf-*
ysgrif, cysgrif; egluryn.
- Apologetical, *ap-ol-ö-jet'-i-cyl, a. am-*
ddiffynol, diheuradol, esgusodol.

- Apologist, a-pol'-ō-just, } *s.* amddi-
 Apologizer, a-pol'-ō-jeiz-yr, } ffynydd,
 diffynydd, diheurydd, esguswr.
 Apologize, a-pol'-ō-jeiz, *v.* amddiffyn,
 diheuro, esgusodi; ymesgusodi.
 Apologue, ap'-ō-log, *s.* addysgwera, moes-
 wera, chwedl, alleb.
 Apology, a-pol'-ō-ji, *s.* amddiffyniad, di-
 heurad, diheurawd, esgusodiad, esgus-
 awd; ateb.
 Apomecometry, ap-ō-mi-com'-i-tri, *s.*
 pelfesuriaeth.
 Apophlegmatic, ap-ō-ffleg-mat'-ic, *a.*
 cnogyfferol; a gwyd lysnafedd.
 Apophthegm, ap'-ō-them, *s.* doetheb,
 doethair, areb, direb, fraethair.
 Apoplectic, ap-ō-plec'-tic, *a.* parlysol,
 parlysaidd, mudbarlysol.
 Apoplexy, ap'-ō-plec-si, *s.* menyddwst,
 cyswst, y parlysol mud.
 Aporrhœa, ap-or-rh'-y, *s.* mws, mysor-
 iad, deigyriad.
 Aposiopesis, a-pos-i-ō-pi'-sus, *s.* attaliaith
 =ffugr areithyddol.
 Apostacy, a-pos'-ta-si, *s.* gwrthgiliad,
 gwrthgwymp, adlithiad; syrthiad
 ymaith, ymadawiad; cornwyd.
 Apostate, a-pos'-tet, *s.* gwrthgiliwr,
 enciliwr; bradychwyr, bradwr:—*a.*
 gwrthgiliol, gwrthgiledig; gau, ffals,
 bradychus.
 Apostatize, a-pos'-ta-teiz, *v. n.* gwrth-
 gilio, adlithro, ymadael, encilio.
 Aposteme, ap'-os-tim, *s.* cornwyd, lly-
 nor, addwyd, gorgai, crug.
 Apostimate, a-pos'-ti-met, *v. n.* llyneri,
 cornwydo, crawni.
 Apostle, a-pos'-sl, *s.* apostol, ebostol,
 ebostol; anfonog:—*pl.* apostolion,
 ebostolion, ebostyl; anfonogion.
 Apostleship, a-pos'-sl-ship, *s.* apostol-
 iaeth, ebostolaeth; anfonogaeth.
 Apostolic, a-pos-tol'-ic, *a.* apostolig,
 apostolaidd; anfonogol, cenadol.
 Apostrophe, a-pos'-trō-ffi, *s.* tolnod,
 dadymchwel, gwrthdro; cyfarchiad.
 Apostrophize, a-pos'-trō-ffeiz, *v.* tolnodi;
 dadymchwel, dadymchwelyd, gwrth-
 droi; cyfarch, anrech. [yrfa.
 Apothea, a-pō'-thi-cy, *s.* cyfferifa, cyff-
 Apothecary, a-poth'-i-cyr-i, *s.* cyfferied-
 ydd, cyfferiwr.
 Apothecary's shop, a-poth'-i-cyr-iz shop,
 Apothecary's hall, a-poth'-i-cyr-iz hol,
s. cyfferifa.
 Apothegm, ap'-ō-them, *s.* =*Apophthegm.*
 Apotheosis, ap-ō-th'-ō-sus, *s.* dwyfol-
 aeth, dwyfoliad, duwoliad.
- Apothesis, a-poth'-i-sus, *s.* dodfa, dod-
 iad.
 Apozem, ap'-ō-zem, *s.* trwyth, isgell,
 llysdwrwyth, diod.
 Appal, ap-pol', *v.* dychrynu, brawychu,
 arswydo; digaloni; synu; llesghau.
 Appalled, ap-pold', *a.* dychrynedig; syn-
 edig; brawychedig; arswydu.
 Appalment, ap-pol'-ment, *s.* dychrynu;
 llesgedd, digalondid; dyddelwad.
 Appanage, ap-pa'-nej, *s.* mesttir, tir a
 rydd tywysog i'w blant ieuaf; cyn-
 naliaeth, maeth.
 Apparatus, ap-pa'-re'-tys, *s.* cyfarpar,
 offer, peiriant; arlwy, darmerth, ar-
 merth; cêr, celfi, trec, taclau, peir-
 iannau.
 Apparel, ap-par'-el, *s.* dillad, gwisg,
 diwyg, gwisgad, archenad, trwsiad,
 trws; gwisgoedd; taclau; ymddangos-
 iad:—*v. a.* dilladu, gwisgo, arwisgo,
 trwsiadu, taclu, addurno, trecio.
 Apparent, ap-pe'-rent, *a.* amlwg, eglur,
 goleu, hywel; dibetrus; ymddangos-
 iadol, tebygol.
 Apparently, ap-pe'-rent-li, *ad.* yn aml-
 wlg, yn eglur, yn weladwy; mewn
 ymddangosiad.
 Apparentness, ap-pe'-rent-nes, *s.* am-
 lygrwydd, eglurder; rhithedd; ym-
 ddangosiad.
 Apparition, ap-pa'-rish'-yn, *s.* drychiol-
 aeth, gweledigaeth, lledrith, ysbryd,
 ellyll; gwagysbryd; ymddangosiad,
 ffurf.
 Apparitor, ap-par'-i-tyr, *s.* rhingyll,
 gwyisiwr, berllysgydd.
 Appeach, ap-pi'-c, *v. a.* cyhuddo, beio.
 Appeal, ap-pi'-l, *v.* atalw, ymoralw,
 barnalw, barngeisio, ymddibleidio,
 ymddiheuro, holgeisio, gwrth-hawlu,
 ympelio, appelio; cyfeirio, galw, tyst-
 alw; cyhuddo:—*s.* atalwad, barn-
 alwad, ymoralwad, adfarn, ymddi-
 bleidiad, ymddiheurad, ympeliad, ap-
 peliad; cwynwys; achwyniad.
 Appealer, ap-pi'-l-yr, *s.* ymddiheurwr,
 ymddibleidiwr, ympeliwr, appeliwr.
 Appear, ap-pi'-r, *v. n.* ymddangos, ym-
 rithio, damrithio, darymrithio, peith-
 io, blanu, ymddrychioli; tywynu;
 edrych; darre.
 Appearance, ap-pi'-r-yns; ap-pi'-ryns,
s. ymddangosiad, gwedd, golwg, dull,
 rhith, agwedd, edrithiad, gosgedd,
 llun, sut, ffed, swd, damrith, baran-
 edd, trem, golygwedd; edrychiad;
 gwelediad, gweledigaeth.

- Appease, ap-piz', *v. a.* llynyddu, gostegu, dystewi, dybuddo, tawelu, heddychu, diddigio, llareiddio, dilidio, dylofi, llinaru; tecâu; cymmodi; haru.
- Appeased, ap-pizd', *p. a.* llynyddedig, dyhuddedig.
- Appeasement, ap-piz'-ment, *s.* llynyddiad, gostegiad, dyhuddiant; cymmodiad; datterfysgiad.
- Appeaser, ap-pi'-zr, *s.* heddychwyr, dylofwr; cymmodwr.
- Appellant, ap-pel'-lynt, *s.* barn-geisydd, ymddibleidiwr; cyhuddwr, cwnwr, erlynydd, achwynwr; heriwr, beiddiwr.
- Appellate, ap-pel'-let, } *s.* cyhuddai, y
Appellee, ap-pel'-le', } cyhuddedig, amddiffynwr.
- Appellation, ap-pel'-le'-shyn, *s.* enwad, enw, cyfenwad, galwad.
- Appellative, ap-pel'-la-tuf, *a.* enwol, cyfenwol, enwedigol; cyffredin:—*s.* enwad, enw cyffredin.
- Appellatory, ap-pel'-la-tyr-i, *a.* adfarnol, ymddibleidiol, barnalwol.
- Append, ap-pend', *v. a.* dibynnu, cydio; cyssylltu, attodi, chwaneu at.
- Appendage, ap-pen'-dej, *s.* dibynai, llabed; attodiad, atddodiad, chwanegeiad, cyssylltiad.
- Appendant, ap-pen'-dynt, *a.* dibynol, glynol, chwanebol, cyssylltiol, perthynol:—*s.* dibynai, dibyniad, dringl; chwanegeiad.
- Appedicate, ap-pen'-di-cet, *v. a.* dibynnu; attodi.
- Appendix, ap-pen'-dics, *s.* attodiad, chwanegeiad, adchwanegeiad, cyflenwad, ychwanegeiad, angwanegeiad; dibydraith.
- Apperception, ap-pyr-sep'-shyn, *s.* argynrith; cydwybodoldeb.
- Appertain, ap-pyr-ten', *v. n.* perthyn, perthynu, deiryd.
- Appertainment, ap-pyr-ten'-ment, *s.* perthyniad, perthynasiad.
- Appertenance, }
Appertenance, } ap-pyr'-ti-nyns, *s.*
Appertenance, } perthynas, perthynoldeb; attodiad, darymsawdd.
- Appertinent, ap-pyr'-ti-nent, *a.* perthynol, perthynasol:—*s.* perthynad, perthynedd.
- Appetence, ap'-pi-tens, *s.* chwant, awydd, blys, chwantach; attyniad.
- Appetibility, ap-pe-ti-bul'-i-ti, *s.* chwenycholdeb, blysiad, awyddolrwydd.
- Appetible, ap'-pi-tubl, *a.* chwenychol, dymunol.
- Appetite, ap'-pi-teit, *s.* chwant, dychwant, blys, gwangc; ainge, awydd, chwant bwyd, awydd at fwyd, bwydflys.
- Applaud, ap-plod', *v. a.* canmawl, clodfori, moli, mawrygu; cyforddylio.
- Applauder, ap-plod'-yr, *s.* canmolwr, moliannydd.
- Applause, ap-ploz', *s.* canmoliaeth, clod, bloddest, clodforedd, cymmeradwyaeth; cyforddyl.
- Applausive, ap-plo'-suf, *a.* clodforol, moliannus.
- Apple, ap'-pl, *s.* afal; canwyll llygad, mablygad.
- Apple-man, ap'-pl-man, *s.* afaleuwr, afalydd=gwerthwr afalau.
- Apple-tree, ap'-pl-tri, *s.* afallen, afallwydden, pren afalau:—*pl.* afallon, eflyll, afallwydd, afalwydd, coedafalau.
- Apple-woman, ap'-pl-wym'-an, *s.* afalyddes, afaleuwraig.
- Apple-yard, ap'-pl-iard, *s.* perllan, afallach, afaleule.
- Applicable, ap-plei'-ybl, } *a.* cymhwys,
Applicable, ap'-pli-cybl, } addas, cyfaddas, priodol; cymhwysiadol; gofyddus.
- Appliance, ap-plei'-yngs, *s.* cymhwysiad; ymgynnygiad.
- Applicant, ap'-pli-cant, *s.* ymgynnygiwr, ymgeisydd, ymddewiswr, ymroddwr, erfyniwr; cymhwysydd.
- Application, ap-pli-ec'-shyn, *s.* cymhwysiad, cyfaddasiad; ymgynnygiad, ymroad; ymgeisiad, ymddesiad, ymgais; cais, deisyfiad; dyfalwch, ystigrwydd, diwydrwydd; rhoddiad, dodiad.
- Applicative, ap'-pli-ca-tuf, *a.* cymhwysol, addasol.
- Applier, ap-plei'-yr, *s.* = *Applicant*.
- Apply, ap-plei', *v. a.* cymhwyso, addasu; rhoi, rhoddi, gosod, doddi; gofyn, erfyn; ymroi, ymroddi, ymddeisio, deisebu, ymgeisio, ymgynghori; astudio; arfer, defnyddio; trosi, sutio, gweddu; cytuno.
- Appoggiatura, ap-pod-ja-tur'-ry, *s.* ysgipnod.
- Appoint, ap-point', *v. a.* penodi, pennu; gosod, trcfnu, nodi, doddi; dogni; sefydlu, amcanu, llunio, penderfynu; cyfnodi; apwyntio.
- Appointed, ap-poin'-ted, *a.* taclus, trwsiadus.
- Appointee, ap-poin'-ti', *s.* penodai, y penodedig.

- Appointer, ap-poin'-tyr, *s.* penodwr, gosodwr, trefnwr, apwyntiwr.
- Appointment, ap-point'-ment, *s.* penodiad, gosodiad; cyfnod, oed; ammod, cytundeb; archiad, gorchymyn; trec, taclau; dogr.
- Corruptness, cor'-ryp't'-nes, *s.* llygredid, llygredigaeth, halogedigaeth; pydr-edd, braenedd, hadledd; drygioni, gwŷd.
- Corsair, cor'-seyr, *s.* morwilliad, gwillmyr, morleidr, morherwr; herwlong, herwiblong.
- Corse, cors, *s.* corff, celain, abwy.
- Corselet, cors'-let, *s.* brondor, bronfoll, dwyfroneg, llurig; bron-gengl, bron-dengl; ednogfron.
- Corselet, cors'-let, *v. a.* bronfolli, dwyfronegu.
- Corset, cor'-set, *s.* gwasgrwym, ystaws, ystywaws, gwasgai, gwasgyr, gwasg.
- Corset, cor'-set, *v. a.* gwasgrwymo, ystywosi.
- Cortege, cor'-tezh, *s.* gosgordd.
- Cortes, cor'-tez, *s. pl.* senedd Yspañ, llywcdlys; seneddwyr Yspañ.
- Cortex, cor'-tecs, *s.* rhisg, rhisgl.
- Cortical, cor'-ti-cyl, *a.* rhisgol, rhisglog.
- Cortile, cor'-tul, *s.* beili, clos, cyntedd.
- Corundum, cö-ryn'-dym, *s.* corund=math ar ddelidfaen.
- Coruscant, cö-rys'-cynt, *a.* fflachiol, llachar, dysgleiriol, tywynol, mellt-enol, llathraid, ysblan.
- Coruscant, cö-rys'-cynt, *s.* gorwyn:—*pl.* gorwynion.
- Coruscate, cö-rys'-cet, *v. n.* fflachio, lluchedenu, llewyrchu, dysbleinio.
- Coruscation, cö-rys'-ce'-shyn, *s.* fflach, lluchedyn, mellen; lluchediad, llethrid, tywyniad, melleniad.
- Corvette, cor'-fet', *s.* peithlong, cadlongen, cadfad, peithfad.
- Corvine, cor'-fun, *a.* branol, branog, cigfranaidd.
- Corybantic, cor-i-ban'-tic, *a.* ynyfydwyllt, gorphwyllog, llerth; Corybantig.
- Corypheus, cor-i-ff'-ys, *s.* cör-flaenor, pencor; Coryphæus.
- Coscinomancy, cos'-si-nö-man-si, *s.* gogarmes, gogrdewiniaeth.
- Cosecant, cö-s'-cynt, *s.* cydrylin, cyttrychlin, trylin gyflaw.
- Cosmetic, coz-met'-ic, *a.* prydferthol, tecaol, addurnol.
- Cosmetic, coz-met'-ic, *s.* tegai, prydfertthai, teglyn, tegychlyn, tegwy, tlysllyn, tegolchai.
- Cosmical, coz'-mi-cyl, *a.* bydysodol; perthynol i'r hollfyd; bydol; unadegol, anghyfadegol=yn codi neu fachlud gyda'r haul.
- Cosmically, coz'-mi-cyl-li, *ad.* gyda'r haul; yn unadegol.
- Cosmogonist, coz-mog'-ö-nust, *s.* pythonydd, pythagorydd, bydhandydd.
- Cosmogony, coz-mog'-ö-ni, *s.* pythoniaeth, pythonas, pythagoras, bydenidas, bydhaniaeth, bydgread.
- Cosmographer, coz-mog'-ry-ffyr, *s.* bydonydd, bydgraffwr, bydarluniwr.
- Cosmography, coz-mog'-ry-ffi, *s.* bydoniaeth, bydgraffyddiaeth, bydyssodiaeth, bydarluniaeth.
- Cosmolabe, coz'-mö-leb, *s.* bydebyr, ollyfydiadur.
- Cosmolatory, coz-mol'-y-tyr-i, *s.* bydaddoliad, bydaddoliaeth.
- Cosmologist, coz-mol'-ö-jist, *s.* pythonegydd, pythonegwr.
- Cosmology, coz-mol'-ö-ji, *s.* pythoneg, bydoneg, ollyfydeg, bydwyddoreg.
- Cosmometry, coz-mom'-i-tri, *s.* bydfeidraeth=bydfesuriad yn raddau a myn-udau.
- Cosmopolitan, coz-mö-pol'-i-tyr, } *s.*
Cosmopolite, coz-mop'-ö-leit, } byd-

ddinesydd, bydanneddwr; dyn didrig-fan.
 Cosmorama, coz-mö-ré-my, s. bydwel, bydolwg, bydolygfa, bydsyllawd.
 Cossie, cos'-sic, a. alsoddol, alsoddegol.
 Cost, cost, s. traul, cost, pris; colled; poeni; gwychedd; asen, eisen.
 Cost, cost, v. a. costio, costi; talu.
 Costal, cos'-tyl, a. asenol, eisol; ystlysol.
 Costard, cos'-tyrd, s. llorpfafal; pen.
 Costive, cos'-tuf, a. rhwym, bolrwym.
 Costiveness, cos'-tuf-nes, s. bolrwymedd, rhefrwymedd, y bolrwym, rhwymdra.
 Costless, cos'-les, a. diwerth, rhad.
 Costliness, cost'-li-nes, s. costusrwydd, mawrgost; traul, cost; gwerthfawrogrwydd.
 Costly, cos'-li, a.ustus, treulfawr, drudfawr; drud, prid; gorwych; mawreddus.
 Costume, cos'-tiwm, s. dullwrig, dullwrigiad, priodwrig; gwisg; dullwedd.
 Co-sufferer, cö-syff-yr-yr, s. cydoddefydd.
 Co-supreme, cö-siw-prim', s. cydbenaeth, cydbenadur.
 Cot, cot, s. bwthyn, bwth, cotas, cotty, caban, lliest, lliesty, cut, cwt, twlc; penty, buarth, corlan; bysle, bawdle; bad; oen llawfaeth.
 Cote, cöt, v. a. plygredeg, dyblygu; ennill tir, darblygu.
 Cote, cöt, s. corlan=Cot.
 Cotemporary, cö-tem'-pö-ryr-i, a.; s. cyfoed=Cotemporary.
 Coterie, cot-yr-'i, cö-ti-ré, s. gwych-gymdaith, dillyn-gor, llon-gynnulfa; boneddesfa, cynnullas; cymdeithas.
 Coterminous, cö-tyr'-mu-nyz, a. cytterfynol, cyffiniol; cyfagos.
 Cothurnate, cö-thyr'-net, a. gwentasog, cwrnog, curanog, llopanog.
 Cothurnus, cö-thyr'-nys, s. gwentas, cwrnog, curan; treisawd, treisawd.
 Cotillon, cö-tul'-iöng, s. chwimddawns, chwimgorelw.
 Cotquean, cot'-cwin, s. cadl, begw, mursen o ddyd, hyswiddyn=ymyrwr & gorchwylion benywod.
 Co-trustee, cö-try-s-té, s. cydymddiriedai, cydymddiriedur.
 Cotswold, cots'-wöld, s. corlan, defeitty.
 Cott, cot, s. corwely, gwelyan; crogwely; cryd.
 Cottage, cot'-tej, s. cotas, cotty, bwthyn, caban, lliesty, egwal, tyan.

Cottager, cot'-te-jyr, s. cottywr, bwthynwr, cabanwr; ystafello.
 Cottidæ, cot'-ti-dæ, s. penbwlaod, penbyliaid. [cotymwe.
 Cotton, cot'-tn, s. cotwm, ceden, cotn;
 Cotton, cot'-tn, a. cotymaidd, cotymog, cedenog, cotnaidd.
 Cotton, cot'-tn, v. n. cotymu, cedenu, cotni; ymuno, ymlynu, gludio.
 Cotton-machine, cot'-tn-my-shin', s. cotymiadur, cedeniadur, peiriant cotwm, ermig gotwm.
 Cotton-plant, cot'-tn-plant, s. cotymwydden, cedenwydden, prysgen gotwm.
 Cottony, cot'-tn-i, a. cotymaidd.
 Cotyla, cot'-i-ly, s. teddyf, teddyf esgyrn, esgyrnrain, esgyrnaf.
 Cotyledon, cö-tul'-i-dyn, s. hadgib, hadgod, hadnoddai; bogeilys, dail y gron.
 Couch, cowç, v. gorwedd; ymgrymu; gorweddian, yswatio; cynnwys, amgyffred; mynegi, amlygu; cuddio, celu; tacnu, cyttyru; cynllwyn; annelu; dadruchenu; cydosod, cyfansoddi.
 Couch, cowç, s. gwâl, glwth, glytha, trwl, gorweddffa, gwalas, gorweddffainge; haen, gwanaf.
 Couchant, cow'-çynt, a. tororweiddiol, yswatiol, cyrcydol, gorweddol.
 Couchee, cwsh'-i, s. hwyrofwy, nosofwy, ymweliad nosawl.
 Coucher, cow'-çyr, s. dadruchenydd, dadhuchydd; coflyfr, glwyslyfr.
 Cough, coff, s. peswch.
 Cough, coff, v. pesychu.
 Could, cwd, p. t. (Can) galluedig, dichonedig.
 Coulter, cöl'-tyr, s. cylltyr, cwlltyr, cylltor, cwlltr, crowyn.
 Council, cown'-sul, s. cynghor, ymgynghorfa; cymmanfa, eisteddfod, cys-sylfa.
 Council-board, cown'-sul-böyrd, s. cys-sylfwrdd, bwrdd y cynghor; cynghorfa.
 Councillor, cown'-sul-lyr, s. cynghorydd; tregynghorwr.
 Counsel, cown'-sel, s. cynghor, cyssyl; cyfarwyddyd, cyssyliad; pwyll, callineb; cyfrinach, rhin; gair; addysg; amcan, arfaeth; dyfais; cynghaws, cynghawsydd, cynghorwr, cyssyliwr, dadleuwr, canllaw, amddiffynwr, tafodawg llys; arddadlwr.
 Counsel, cown'-sel, v. a. cynghori, annog; rhybuddio; cymmeradwyo.

- Counsellable, cown'-sel-ybl, *a.* cynghorus; cynghoradwy.
- Counsellor, cown'-sel-lyr, *s.* cynghorwr, cynghoriad, cyssyliwr, cynghawsydd, cynghaws, dadlenwr, arddadlydd, argyfreithiwr, canllaw, siawnsler; anogydd.
- Counsellorship, cown'-sel-yr-ship, *s.* cynghoryddiaeth, cyssylyddiaeth, cyrin-gynghoriaeth, celgyssyliaeth, siawnsleriaeth.
- Count, cownt, *v.* cyfrif, rhifo; bwrw; prisio, ystyried, barnu, cymmeryd: — *s.* cyfrif, rhif, rhifedi, nifer; cyfrifiant; iarll.
- Countable, cown'-tybl, *a.* cyfrifadwy, hyrif, rhifadwy.
- Countenance, cown'-tu-nyns, *s.* gwyneb, wyneb, gwyneppryd; trem, friw, gwedd, pryd, golwg, gwep; edrychiad, golygiad, gosgedd, baran; nawdd, cefnogaeth; derbyniad, parch, ffafr: — *v.* *a.* cefnogi, noddi, achlesu, amddiffyn, cynnorthwyo; ffafrio; hoffi; dangos.
- Counter, cown'-tyr, *s.* rhifwr, cyfrifydd; prawiadur; maelfwrdd, bwrdd cyfrif; ffugarian, rhitharian; chwedlwr, clepiedydd; gwrthtalaw, mysgalaw, goralaw, gwrthlais: — *ad.* gwrth, croes-, gwrth-; yn groes, yng ngwrthwyneb, yn erbyn, yn y gwrthwyneb, gyferbyn: — *a.* cyferbyniol, gwrthwyneb; gwrth-, croes-.
- Counteract, cown'-tyr-act', *v.* *a.* gwrthweithredu; gwrthsefyll, gwrthwyn-ebu.
- Counteraction, cown'-tyr-act'-shyn, *s.* gwrthweithrediad, gwrthwynebiad; attalm, gwrthryniad; lludd, rhwystr.
- Counter-attraction, cown'-tyr-at-trac'-shyn, *s.* gwrthattyniad, gwrthddeniad.
- Counterbalance, cown'-tyr-bal'-yns, *v.* *a.* gwrthbwysio, cyferbwysio; cydbwysio, cyfartalu.
- Counterbalance, cown'-tyr-bal'-yns, *s.* gwrthbwys, cyferbwys; cydbwys; mantol.
- Counterbond, cown'-tyr-bond, *s.* gwrth-rwymeb, gwrthysgrifrywym, gwrth-rwym.
- Counterbuff, cown'-tyr-byff, *v.* *a.* gwrthguro, gwrthergydio: — *s.* gwrthgur, gwrthergyd, gwrthdarawiad.
- Counterchange, cown'-tyr-çenj, *s.* gwrthgyfnewid; cydnewidiad: — *v.* *a.* gwrthnewid; cyfnewid; cymmysgu.
- Countercharge, cown'-tyr-çarj, *s.* gwrthgyhuddiad, gwrthachwyn: — *v.* *a.* gwrthgyhuddo, gwrthgwyno.
- Countercharm, cown'-tyr-çarm, *s.* gwrthswyn, gwrthgyfaredd: — *v.* *a.* gwrthswyno, gwrthgyfareddu, gwrthrempio.
- Countercheck, cown'-tyr-çec, *v.* *a.* gwrthgeryddu, gwrthattal, gwrth-senu: — *s.* gwrthgerydd, gwrthattalfa; lludd; ystwy, cerydd.
- Counter-current, cown'-tyr-cyr-rent, *a.* gwrthredegol: — *s.* gwrthgerhynt, gwrthryd, gwrthlif.
- Counterdistinction, cown'-tyr-dus-tinge'-shyn, *s.* gwrthwahaniaeth, gwrthwahanred, gwrthddynodiant.
- Counter-evidence, cown'-tyr-ef-i-dyns, *s.* gwrthdystiolaeth, gwrthbrawf.
- Counterfeit, cown'-tyr-ffit, *v.* ffugio, dynwarded, efelychu; ffuantu, lledrithio; adlunio, eilunio; twyllo, ymddieithro: — *a.* ffugiol, gau, ffals, rhithiog, rhagrithiol, ffuantus; adluniadd: — *s.* ffugiwr, ffuantydd, twyllwr; fflug, rhith, dynwardiad; eilun, tebygiad, ffugeb; rhagrith.
- Counter-influence, cown'-tyr-un'-ffl-wens, *v.* *a.* gwrthddylanwadu.
- Countermand, cown'-tyr-mand', *v.* *a.* gwrthorchymmyn, gwrtherchi; galw yn ol: — *s.* gwrthorchymmyn; gwrthwad.
- Counter-march, cown'-tyr-març', *v.* *n.* gwrthrodio, gwrthdeithio, gwrthgychwyn.
- Counter-march, cown'-tyr-març, *s.* gwrthdrawd, gwrthrodriad, gwrthgychwyn; dychweliad, attrodriad.
- Counter-mark, cown'-tyr-marc, *s.* gwrthnod: — *v.* *a.* gwrthnodi.
- Counter-mine, cown'-tyr-mein, *s.* gwrthglawdd; gwrthgloddfa; disodliad, seithugiad; cyfrwysdro, methliad: — *v.* *a.* gwrthgloddi; disodli, dadymchwelyd, cyfethlu; gwrthweithio.
- Counter-mure, cown'-tyr-miwr, *s.* gwrthfur, gwrthwal, rhagfur.
- Counterpace, cown'-tyr-pes, *s.* gwrthgamre, gwrthgam.
- Counterpane, cown'-tyr-pen, *s.* torsed, cwrlid, huling, teisan, brycan, cadwy.
- Counterpart, cown'-tyr-part, *s.* gwrthran, gwrthbarth; gwrthysgrifen, cyfysgrif, adlun, cyflen.
- Counterpetition, cown'-tyr-pi-tish'-yn, *s.* gwrthddeiseb, gwrtherfyniad.

- Counterplea, cown'-tyr-pli, *s.* gwrth-ddadl, gwrtheb.
- Counterplot, cown'-tyr-plot, *s.* gwrth-frad, gwrthstryw.
- Counterplot, cown'-tyr-plot', *v. a.* gwrth-fradlunio, gwrthfradu.
- Counterpoint, cown'-tyr-point, *s.* gwrth-nodiant, gwrthalawiad, gwrthbwyntal, gwrthgrifiant; gwrthbwynt, gwrthbwngc; torsed, cwrlid, huling.
- Counterpoise, cown'-tyr-poi-z, *v. a.* gwrthbwyso, gwrthfantoli:—*s.* gwrthbwys, cyferbwys; cydbwys, gwrthfantol.
- Counterpoison, cown'-tyr-poi-zn, *s.* gwrthwenwyn, dadwenwyn.
- Counterpressure, cown'-tyr-presh'-yr, *s.* gwrthwasgiad, gwrthwasg.
- Counterproject, cown'-tyr-prö-ject, *s.* gwrthddyfais, gwrthgynllun.
- Counterscrap, cown'-tyr-scrap, *s.* gwrthlechwedd; gwrthragfyr.
- Counterséal, cown'-tyr-sil, *v. a.* gwrthselio, gwrtholoi.
- Countersign, cown'-tyr-sein, *v.* gwrthlofnodi, gwrthenwebu, gwrthnodi.
- Countersign, cown'-tyr-sein, *s.* gwystl-air, cysswynair.
- Counterstatute, cown'-tyr-stat'-iwt, *s.* gwrthdeddf, gwrthraith.
- Counterstroke, cown'-tyr-ströc, *s.* gwrthergyd, gwrthgur.
- Countersway, cown'-tyr-swe, *s.* gwrth-rwysg, gwrthddylanwad.
- Countertaste, cown'-tyr-test, *s.* gwrtharchwaeth, gwrthchwaeth.
- Counter-tenor, cown'-tyr-ten-yr, *s.* gwrthalaw; rhyngalaw; banalaw.
- Countertide, cown'-tyr-teid, *s.* gwrthlif, gwrthlanwad.
- Countertime, cown'-tyr-teim, *s.* gwrthamser; gwrthwynebiad.
- Counterturn, cown'-tyr-tyrn, *s.* gwrthdro, gwrthdroad, gwrthchwyl.
- Countervail, cown'-tyr-föt, *v. a.* cystadlu, cyfartalu; cyflawni; cydfantoli, cyferbynu.
- Countervail, cown'-tyr-fel, *s.* cyfantol, cydbwys.
- Counterview, cown'-tyr-fiw, *s.* gwrtholwg; cyferbyniad; gwrthgyflead.
- Countervote, cown'-tyr-föt, *v. a.* gwrthbleidleisio, gwrthbleidio.
- Counterweigh, cown'-tyr-we, *v. a.* gwrthbwyso, cyferbwyso, gwrthfantoli.
- Counterwheel, cown'-tyr-hwal, *v. a.* gwrthchwylo, gwrtholwyno.
- Counterwork, cown'-tyr-wyrc, *v. a.* gwrthweithio, gwrthweithredu.
- Countess, cown'-tes, *s.* iarllles.
- Countinghouse, cown'-ting-hows, *s.* cyfrifdy, gorchwyldy.
- Countingroom, cown'-ting-rum, *s.* cyfrifgell, gorchwylfa.
- Countless, cown't'-les, *a.* aneirif, dirifedi, afrifed.
- Countrified, cyn'-tri-fieid, *a.* gwladaidd, gwledig; taio, aflednais.
- Country, cyn'-tri, *s.* gwlad; bro, goror, ardal, tir, pan, tuedd; y wlad; rhaith gwlad.
- Country, cyn'-tri, *a.* gwladaidd, gwladol.
- Countryman, cyn'-tri-man, *s.* gwladwr, cydwladwr, cwylad; gwerinwr; tyddynwr; taio.
- County, cown'-ti, *s.* rhandir, swydd, sir; iarllaeth.
- County, cown'-ti, *a.* rhandirol, sirol.
- Coup, *cu*, *s.* ergyd, tarawiad.
- Coup-de-main, cw'-dy-mang, *s.* rhuthgyrch, ymladdfa lawlaw; cleddyfaer.
- Coupee, cw-pe', *s.* trychddawns, dawns-lan, corelchwyf.
- Couple, cypl, *s.* par, dau, cwpwl, cwplws; cadwyn.
- Couple, cypl, *v.* cyssylltu; cyplysu, cyplu, cynharu; cydio, ymgylu; cydieuo, priodi; cadwyno, rhwymo.
- Couplet, cyp'-let, *s.* pennill; dwyodl, deuodl, dwyfraich, dwywers; par o odlau.
- Coupling, cyp'-ling, *s.* cyssylltiad, cyplysiad, cydiad; cwplws.
- Courage, cyr'-ej; cyr'-ij, *s.* dewrder, gwroldeb, glewder, pybyredd, gwychder, gwrolfrydedd, mawrfrydedd, hyfder, gwronedd; calon, cysur, ysbryd.
- Courageous, cyr'-ej-z, *a.* dewr, gwrol, calonog, glew, eofn, drud, dihafarch, gwrolfryd, anturiog, gwronaidd, cefnog, mawrfrydus, agwrdd.
- Courageousness, cyr'-ej-z-nes, *s.* dewrder, gwroniaeth=*Courage*.
- Courant, cw-rant', *a.* rhedol, dywadnol.
- Courant, cw-rant', *s.* brysgorelw; brysdaplas; brysalaw; brysiadur.
- Courier, cw'-ri-yr, *s.* brysgennad, brysiadur, negesydd, rhedegydd, teithwas.
- Course, cöyrs, *s.* gyfa, rhedfa, ystod, hynt, rhawd; helynt, hwyl; gyriad, talm; fiordd, trafn, cwrs, lle, cylch cyfnewid; moes, arfer; rhes, cyfres;

- haen, tedd; saig, huliad; rhwysg; rhyd, cerynt, rhodre, rhydfa; helfa; chwyfla, cyrch, trawd; oed, hyd; sias; cwmpas; dyddgylch; gradd, rhenge; rheol, cyfraith; rhodwedd; ffrwd.
- Course, cöyrs, *v.* hela, hely, ymlid, celyn; gyru, hyntio; rhedegfain.
- Course, cö'yr-syr, *s.* rhedfarch, rhedegfarch, helfarch, buanfarch, brysfarch, cleufarch; cadfarch; heliwr.
- Courses, cö'yr-suz, *s. pl.* prifhwyliau; misglwyf, mislif.
- Court, cö'yr, *s.* llys, breninllys, brenindy, breinllys, teyrnllys, palas; y llys; cwr, cyntedd, talwrn, cadlas, cynhordy, buarth; neuadd; moes, truthfoes, truth, gweniaith; mwnder, moesgarwch.
- Court, cö'yr, *v.* truthio, gwenieithio, denu; caru; ceisio; erfyn ar; arddeisyf, argeisio.
- Courteous, cö'yr-cyz, *a.* hyfoes, moesgar, dillynfoes, llysaidd, cyfysol, boneddigaidd, mwyn, cymmwynasgar, tirion; ceinwych, telediwr.
- Courteousness, cö'yr-cyz-nes, *s.* hyfoesedd, moeswychedd, moesgarwch, cyflysod; tiriondeb, hynawsedd, cyweithas.
- Courter, cö'yr-tyr, *s.* carwr, cariad, cariadfab.
- Courtezan, cyr-ti-zan', *s.* puten, putain, cyffoden, llysbuain, putan llys.
- Courtesy, cyr-ti-si, *s.* hyfoesedd, moesogrwydd, moes, syberwyd, boneddigrwydd, mwnder, caredigrwydd, llysolrwydd, tirionwch; cymnwynas, ffafir.
- Courtesy, cyrt-si, *s.* ymblyg, carsawd, ymostyngiad, glinblygiad.
- Courtesy, cyrt-si, *v. n.* glinblygu, carsodi, ymblygu.
- Courtier, cö'yr-tiyr, *s.* llyswr, gwr llys; truthiwr. [rhian llys.
- Court-lady, cö'yr-le-di, *s.* gwraig llys.
- Court-leet, cö'yr-lit, *s.* pentreflys, llys pentrefol, cantreflys.
- Courtliness, cö'yr-li-nes, *s.* moesgarwch, cyflysod, llyseiddrwydd, cyweithasrwydd, dillynder, llysfoesau, syberwyd.
- Courtly, cö'yr-li, *a.* llysaidd, llysol; moeswych, hyfoes; hynaws, tirion, mwyn, dillyn; boneddigaidd.
- Court-martial, cö'yr-mar'-shyl, *s.* cadreithlys, aerlys, cadraith, cadlys, cadreithgor, llys milwrol.
- Courtship, cö'yr-ship, *s.* carwriaeth, caru; ymgaru; cais.
- Cousin, cyz-zn, *s.* cefnder, cefnderw; car, cydgar.
- Couteau, cw-to', *s.* anglas, bidog, byrgledd.
- Cove, cöf, *s.* cilfach, crigyll, ebach, cil, cilfa; gwasgodfa; ceuaddurn, ceugant.
- Cove, cöf, *v. a.* cilfarchu.
- Covenant, cyf-i-nynt, *s.* cyfammod, ammod, cynghrair, cytundeb, dygymmod; ammoddeb; cofen.
- Covenant, cyf-i-nynt, *v.* cyfammodi, ammodi, cytuno; ymgvfammodi.
- Covenantee, cyf-i-nynt-ti, *s.* cyfammodai = yr un y gwneir ammod iddo.
- Covenanter, cyf-i-nynt-tyr, *s.* cyfammodydd, ammodwr, cytunwr.
- Covenous, } cyf-i-nyz, *a.* twyllodrus, Covinous, } cocedus, ffals.
- Cover, cyf-yr, *v.* toi, gorchuddio, amlen, cysgodi, hullo, gwisgo, enhuddo, tuddedu; celu, celcio; clorio, fforelu, caesio; gordaenu, caenu; marchogaeth, neidio, rheidio, cyfebru, llamu; gwasgodi, noddi; deor; talu, cleirio; cynnwys; ffugio.
- Cover, cyf-yr, *s.* clawr, caudad, to, llen, tudded, amlen, gorthio, hulier, huddad, gwisg, caes, caen, cloryn, golof, tawr; diddosrwydd, amddiffynfa, gwasgodfa; gwarthan, cudd, celc, argel, encil; esgus, rhith.
- Covercle, cyf-yr-cl, *s.* cloryn, hulier, clawr, gwerchyr.
- Covering, cyf-yr-ing, *s.* gorchudd, gwisg, arlen, enhudded, hul, llen = Cover; dillad.
- Coverlet, cyf-yr-let, *s.* huling, torsed, teisban, cwrlid, cadwy, brycan, pallen.
- Covert, cyf-yrt, *a.* cudd, cuddiedig, dirgel, gorchuddiedig; celgar, cyfrinachol; lledrithiog, ffals; cysgodol, diddos.
- Covert, cyf-yrt, *s.* cuddfa, llechfa, encilfan, celfa, cudded, cuddigl, cil; gwasgodfa, diddosfa, cysgodfan, amddiffynfa, noddfa; prys, prysglwyn, cuddlwyn; ninnael; gorchudd; ffau.
- Covertly, cyf-yrt-li, *ad.* yn gudd; tan law, tan gudd; dan gel.
- Coverture, cyf-yr-cyr, *s.* gorchudd; cysgod; diddosfa; achles, amddiffyn; cowyll; gwrnoddiaid.
- Covet, cyf-et, *v.* chwennyachu, trachwennyachu, cybyddu, chwantu, awyddu, trachwantu, deisyf, hiraethu, rhybucho.

Covetous, cyf-i-tyz, *a.* trachwantus, cybyddlyd; crintach, cyrrith, cynuil; awyddus, chwannog; barus.

Covetousness, cyf-i-tyz-nes, *s.* cybyddod, cybyddiaeth; arian-garwch, byd-olrwydd; trachwant, awydd; argynnildeb, crintachrwydd.

Covey, cyf-i, *s.* nythaid, nythlwyth; haid, cyfor, twr; cynnulliad; llawnrif.

Covin, cyf-un, *s.* cyttwyll, cydfrad, cydhoced; twyll, somiant, twyllofaint.

Coving, cyf-ing, *s.* mydwrn, myddwrn, ysgwyddiad bwaog.

Cow, cow, *s.* buwch, bu, buch; henfon: —*pl.* buchod, gwartheg, buw, biw; cwcwll, cwll, top simne.

Cow, cow, *v. a.* digaloni, tori calon, hurtio, llyfrhau; cystwyo; brawychu.

Coward, cow'-yrd, *s.* anwr, llyfrwas, adwr, cachgi, ofnog, llegach, corach.

Coward, cow'-yrd, *a.* annewr, anwraidd, llwfr, digalon, llegus, bawaid, cilgiaidd.

Coward, cow'-yrd, *v. a.* digaloni, llyfrhau, hurtio, anwroli.

Cowardice, cow'-yrd-dus, } *s.* an-
Cowardliness, cow'-yrd-li-nes, } wredd,
llyfrder, ofnogrwydd, anghalondid,
anwroldeb, adwriaeth, aneofnder,
libyndod.

Cowardly, cow'-yrd-li, *a.* annewr, llyfr-
aidd = *Coward*.

Cowardly, cow'-yrd-li, *ad.* yn anwraidd,
yn ofnog.

Cower, cow'-yr, *v. n.* cwrain, cyrcydu,
yswatio.

Cowherd, cow'-hyrd, *s.* porthwr, heusor,
bugail, beudywr; bugail gwartheg.

Cowhouse, cow'-hows, *s.* beudy, clety,
buchdy.

Cowish, cow'-ish, *a.* llyfraidd, ofnus,
cachgiaidd.

Cow-keeper, cow'-ci-pyr, *s.* gwarthegydd,
bugeidwad.

Cowl, cowl, *s.* cwcwll, cwll, hwf, pen-
wisg mynach; mit, ystondir, yston-
dart.

Cow-leech, cow'-lic, *s.* buchfeddyg, biw-
feddyg, meddyg gwartheg.

Cow-pen, cow'-pen, *s.* cut gwartheg,
ffald buchod; buches.

Cow-pox, cow'-pocs, *s.* bufrech, biwfrech,
brech y buchod.

Cow-yard, cow'-iard, *s.* buches, buarth,
buchas.

Coxcomb, coes'-côm, *s.* coegyn, ysgoeg-
yn, mursyn, ysgogyn, pertyn, pefryn,

mursenwr; erib ceiliog; cribell; cor-
yn, coran.

Coxcomical, coes-com'-i-cyl, *a.* coegyn-
aid, coegfalch, murseddaidd.

Coy, coi, *a.* osgoil; mursenlyd, ys-
wil, gwyl, cywilyddgar; gwagelog,
dystaw.

Coy, coi, *v. n.* mursenu, ysgoegi; llyf-
hau.

Coyness, coi'-nes, *s.* mursendod; taw-
edogrwydd, gochelgarwch; yswildod,
gorwyledd.

Cozen, cyz'-zn, *v. a.* twyllo, hudo,
hocedu, coegio, twyllddenu, somi.

Cozenage, cyz'n-ej, *s.* twyll, hoced,
dichell, hud, ystryw; cast; cyfrwys-
der.

Crab, crab, *s.* crange, morgrange, craf-
ange; ceimwch coch; afal sur, corafal,
cogwrn, grobosyn; afallen sur, cor-
afallen; cambill, dirwynydd, rhwyn-
iadur; monyn, soryn, drengyn.

Crab, crab, *a.* sarug, sur, blwng, gerwin.

Crabbed, crabd, *a.* anfoddog, croes,
sur, sarug, drygnwydus, anhynaws,
anynad, trwysur, anhydryn, traws,
cras; astrus, dyrys, tywyll.

Crabbedness, crab'-bed-nes, *s.* sarug-
rwydd, surni, anfoddogrwydd, croes-
der, anfwynder.

Crab-louse, crab'-lows, *s.* crangleuen;
—*pl.* crangleu.

Crack, crac, *v.* bregu; agenu, hollti;
tori; briwo, brifo, yssigo; crigio, ym-
agor, ymrwygo; ysgortio; gwichio;
bostio, brolio, ymfrostio; amharu,
annlrefnu.

Crack, crac, *s.* breg, bradwy; agen,
holt; clec, trwst, clap; toriad; crech-
lais; penwendid; ymfrost; anni-
weirdeb; cyffoden, puten.

Crack-brained, crac'-brend, *a.* penchwib-
an, chwidr, syfrdan, hurt, amhwyll-
og.

Cracker, crac'-cyr, *s.* bostiwr, broliwr,
bocsachwr; tan-belen, crinellyd, es-
ruthren, ysgortydd; hwyad gynffon-
fain.

Crackle, crac'-cl, *v. n.* clindarddach,
crinellu, crecian, grillian, gwingellu.

Crackling, crac'-ling, *s.* clindarddach,
crinelliad, grilliad; crinell.

Cracknel, crac'-nel, *s.* breudeisen; tei-
sen ddeugras.

Cradle, cre'-dl, *s.* cryd, cawell baban;
cawell, ceull; crud; lithrystrom;
croper, crifyr; babandod; dechreufa;
cyll.

Cradle, *cre'-dl*, *v.* siglo cryd; llonyddu, esmwytho, susganu, suo; crydu.
 Craft, *craft*, *s.* crefft, celfyddyd, celf; gallu, medr; cyfrwystra, dichell; elw; hud, cast; corlong, ysgraff.
 Craftiness, *craft'-ti-nes*, *s.* cyfrwysder, ystryw, dichell, ffelder, twyll, ffalst-edd.
 Craftsman, *crafts'-myn*, *s.* crefftwr, celfyddydwr, gallofydd, saer.
 Crafty, *craft'-ti*, *a.* cyfrwys, ystrywgar, ffalst, dichellgar, ffel, hocedus; medrus.
 Crag, *crag*, *s.* clogwrn, clogwyn, clegr, clegyr, craig, ysgythredd, ysgyryd, taren; ysgyrgrag.
 Cragginess, *crag'-gi-nes*, *s.* clogyrnedd, clogyrnach, ysgythrogwydd.
 Craggy, *crag'-gi*, *a.* clogyrnog, ysgythr-gog, clegrog, clogwynog, creigiog, garw, serth.
 Crane, *crec*, *s.* bost, ymfrost, brawl; rhegen yr yd, rhegen y rhych, creciar.
 Cram, *cram*, *v.* gorlenwi, sechu, secu, tynlenwi, sachu, sagio; glythu, cegu, pegi.
 Cranbo, *cram'-bö*, *s.* rhosp; rhoschwareu, rhospau; rhospiad; odl, cydodliad; odlchwareu.
 Cramp, *cramp*, *s.* gwrwst, cwlwm gwythi, yr wrwst, gwyneg, dirdynwst, crebachwst, cramp; caethiwed, attalfa, rhwystr; *craft*, *creffyn*, *dalgraff*, *caff*, *crwca*, *gafaelfach*.
 Cramp, *cramp*, *v.* *a.* erebachu, dirwasgu, parlysu; caethiwo, attal, cyfyngu; *creffynu*.
 Cramp, *cramp*, *a.* anhwadd, dyrys, anhyddeall, caled; clymog, cygnog.
 Crampers, *cram'-pyrn*, } *s.* *craft*
 Cramp-iron, *cramp'-ei-yrn*, } *haiarn*,
craft, *dalgraff*=*Cramp*.
 Cramp-fish, *cramp'-ffish*, *s.* ystwythbysg, cyffiedydd, cyffbysg.
 Crampoons, *cram-punz'*, *s.* *craftau*, *creffynau*, *dalgraffiau*, *esgidgraffiau*.
 Cranberry, *cran'-ber-ri*, *s.* llygaeren, ceiriosen *y waen*:-*pl.* llygaeron, llygeirin, ceirios *y waen*.
 Crane, *cren*, *s.* garan, cregyr, crychydd, creÿr, creÿr glas, y gwddf cryg, aderyn garhir; cambill, garan, garanbill, dyrwynydd; cambibell, dysbyddell.
 Craniogonomy, *cre-ni-og'-nô-mi*, *s.* creuanwyddeg, creuanwyddiaeth.
 Craniology, *cre-ni-ol'-ô-ji*, *s.* creuaneg, creuanaeth, menyddeg.
 Craniometer, *cre-ni-om'-i-tyr*, *s.* creuan-

iadur, *creuanfesur*, *creuanfeidyf*, *creuanyr*.
 Craniocopy, *cre-ni-os'-cö-pi*, *s.* creuan-sylliaeth.
 Cranium, *cre'-ni-ym*, *s.* creuan, siol, siäd, iad, pen-glog; padell yr ymenydd.
 Crank, *crange*, *s.* crange, trogambill, cambill; tro, plyg, bachdro; *craft-haiarn*.
 Crank, *crange*, *a.* pybyr, heini, heinif, hoenus, cryf, gwrdd, bywiog, iachus; hyf, eon; syth, hyddymchwil.
 Crank, *crange*, *v.* dolenu, dolystumio, ymddolenu, ymnyddu; amlwybro, dillio, plygu, crychu.
 Crankle, *crang'-cl*, *s.* plyg, camedd, dolen, plygiad; doleniad; crychiad.
 Crankle, *crang'-cl*, *v.* dolenu=*Crank*.
 Crankness, *crang'-nes*, *s.* pybyrwch, hoenusder, bywiogrydd, cryfder; sythder.
 Cranny, *cran'-ni*, *s.* agen, hollt, agenig; twll, lloches, llechfod; cegluniadur.
 Crants, *crants*, *s.* heddwyrten, hunwyrten, elorbleth.
 Crape, *crep*, *s.* galarwe, crychwe.
 Crape, *crep*, *v.* *a.* crychu, modrwyo, llofni, argrychu.
 Crapple, *crap'-pl*, *s.* crafangc, ewin, crafa, ysbag.
 Crapula, *cre'-piw-ly*, *s.* alar, tordyn, alariad, brwysgedd.
 Crapulous, *crap'-iw-lyz*, *a.* brwysg, meddw, abrwysg, alarglaf, glwth; alarllud.
 Crash, *crash*, *s.* trwst, ffrwch, grill, grem, rhingc, cneic; tordwrst, clechdyr; chwilfriwiad.
 Crash, *crash*, *v.* chwilfriwio, dryllio; malurio; grillio, rhingcian; trystio, crechian, clechdori, darsteinio.
 Crasis, *cre'-sus*, *s.* ardymyr, naws, tymmer, creth, gwaettymer, tymmer *y gwaed*; crebycheb; cymmysgedd.
 Crass, *cras*, *a.* bras, garw, anghoethedig; praff, braisg, tewdrwch.
 Crassitude, *cras'-si-tiwd*, } *s.* tewedd,
 Crassness, *cras'-nes*, } *tewychedd*,
trwch, *tewdrwch*; *garwedd*, *amnhur-*
edd.
 Crastination, *cras-tu-ne'-shyn*, *s.* oediad, gohiriad.
 Cratch, *crac*, *s.* rhesel, rhastal; preseb, cör ychain, cafn ebran.
 Crate, *cret*, *s.* cawell, basged, rhwyllas.
 Crater, *cre'-tyr*, *s.* llosgorel, llosgenau, cegfa, ceg llosgfal; y Cwpan=cydser yn yr arddrych dde.

Craunch, cransh, *v. a.* malurio, grillian, treisgnoi, rhingcian, deintrygnu.
 Cravat, cra-fat', *s.* gwddwgen, gyddflen, gyddfidas, gyddflian, pilyngwddf.
 Crave, cref, *v. a.* crefu, deisyf, erfyn, atolygu, taergoisio, ymbil, dymuno; chwenaychu.
 Craven, cre'-fn, *s.* adwr, anwr, cilgi, ofnog, llibynwas, llyfrwas.
 Craven, cre'-fn, *v. a.* llyfreiddio, adwrio, anwroli.
 Craving, cre'-fing, *s.* crefiad, taergais, erfyniad; gwange, chwant.
 Craving, cre'-fing, *a.* crefol, taer, deisyf-ol; newynllyd, anniwall; llawdus.
 Craw, cro, *s.* crombil, crofa.
 Crawfish, cr'-ffish, *s.* ceimwch yr afon, ceimwch coch.
 Crawl, crol, *v. n.* ymlusgo, cropian, criplan, creinio, sathru; ymlithro; heidio; ffalsio. [buarth pysgod.
 Crawl, crol, *s.* loc pysg, ffrongre pysg.
 Crayon, cre'-yn, *s.* pwyntyl, pwyntyr, marmbwyntel; marmarluniad.
 Crayon, cre'-yn, *v. a.* marmarlunio; braslunio; amlinellu.
 Craze, crez, *v. a.* tori, briwio, bregu-sigo, malurio; gwanhau, amharu; syfrdanu, gorphwyllo.
 Craziest, cre'-zi-nes, *s.* penwendid, gwallgofrwydd, ffoledd, chwidredd; gwendid, methiant, llesgedd; breuder, yssigrwydd.
 Crazy, cre'-zi, *a.* penwan, hurt, chwidr, amhwyllog; gwan, simsan, methiantus, yssig.
 Creak, cric, *v. n.* gwichio, crecian, grillian, crygleisio, rhygnu, rhingcian.
 Creaking, cric'-ing, *s.* gwich, creciad.
 Cream, crim, *s.* hufen.
 Cream, crim, *v. a.* hufenu.
 Cream-faced, crim'-ffesd, *a.* hufenwep; gwelw, melynwyn; gwepsalw, pig, lwyd; llwfr.
 Creamy, cr'-mi, *a.* hufenog, hufenaidd; mychweg, melys.
 Creance, cr'-yng, *s.* credlinyn, meinlinyn hebog.
 Crease, cris, *s.* ol plyg, llun dill, ol plygiad; crychiad, plyg; rhiglinell.
 Crease, cris, *v. a.* crychu; tolcio.
 Create, cri-et', *v. a.* creu; gwneuthur, gwneyd; achosi, peru; cenedlu.
 Creation, cri-et'-shyn, *s.* creadigaeth; cread, creadwriaeth; gwneuthuriaeth; y bydyssawd, yr hollfyd.
 Creative, cri-et'-tuf, *a.* creadol, creadigol, creol; dyfeisiol, peiriadol.

Creator, cri-et'-tyr, *s.* creawdwr, creawd-ydd, crêwr; peron, perydd, periadur, achosydd, naf; gwneuthurwr.
 Creature, cri'-cyr, *s.* creadur.
 Crebrous, cr'-bryz, *v. a.* mynych, aml.
 Credence, cr'-dens, *s.* cred, coel, crediniaeth, credid, ffydd, ymddiried; cymmeriad; credfa.
 Credence, cr'-dens, *v. a.* credu, coelio.
 Credenda, cri-den'-dy, *s. pl.* credolion, credoau.
 Credent, cr'-dent, *a.* credol, crediniol, hygred, hygoel; gwiwgred.
 Credentials, cri-den'-shylz, *s. pl.* credlythyrau, tystlythyrau; credwarant.
 Credibility, cri-den'-bul'-i-ti, *s.* gwiwgoel-odd, hygrededd, coeledigaeth; tebyg-olrwydd.
 Credible, cred'-i-bl, *a.* credadwy, coeladwy, gwiwgred, hygoel, haeddgred.
 Credit, cred'-ut, *s.* coel, cred, crediniaeth, ffydd; credid, achred; ymddiried; cymmeriad, bri, parch; awdurdod; dylanwad; credlen, credysgrif; derbynion.
 Credit, cred'-ut, *v. a.* coelio, credu, achredu; ymddiried; diddyledu; harddu, urddasu, addurno.
 Creditable, cred'-i-tybl, *a.* cyfrifol, parchus, hybarch, gwiwbarch, enwog, urddasol, clodfawr.
 Creditableness, cred'-i-tybl-nes, *s.* cyfrifiad, hybarchedd, cymmeriad, bri.
 Creditor, cred'-i-tyr, *s.* achretor, coeliwr, gofynwr, dyledai, echwynwr, credidwr, holwr, hawlydd.
 Creditrix, cred'-i-tyrics, *s.* achretores, gofynes, credides.
 Credulity, cri-diw'-li-ti, *s.* hygoeidd, rhygoeidd, hygrededd, coelgarwch.
 Credulous, cred'-iw-lyz, *a.* hygoel, coelgar, hygred; diletyb; hydwyll.
 Credulousness, cred'-iw-lyz-nes, *s.* coelgarwch, hygoeidd; hydwylledd.
 Creed, crid, *s.* credo; cred, crediniaeth; banau ffydd; cyffes ffydd.
 Creek, cric, *s.* ciffach, crigyll, ebach, morgilfach, cil; bachiad, tro, troad.
 Creeky, cr'-ci, *a.* ciffachog, crigyllog, ebachog; igamogam.
 Creep, crip, *v. n.* ymlusgo, creplan, ymgropian, criplan, creinio, ymlithro; cynffonloni; heidio; ffalsio.
 Creeper, cr'-pyr, *s.* ymlusgwr, cropiwr; lledwigyn, creplanog, rhedeglys; bach, crapach; ffolach, lleuen.
 Cremation, cri-me'-shyn, *s.* llosgiad; llosgiad y meirwon.

- Cremor, *cri'-mor*, *s.* hufen; swyf, ys-gai, ewyn; sug, sudd; sylwedd hufenog.
- Crenated, *cri'-ne-ted*, *a.* bylchog, rhyngog, rhiciog, cyfylchog, tolciog.
- Crepitate, *crep'-i-tet*, *v. a.* clindarddach, ermiellu, clectian, rhingcian.
- Crepuscule, *cri-pys'-ciwl*, *s.* cyflychwyr, cyfnos, cyddydydd, llychwyr; brig y nos.
- Crepuscular, *cri-pys'-ciw-lyz*, *a.* cyfnosol, llychwinol, lled-dywyll. [ol.
- Crescent, *res'-sent*, *a.* cynnyddol, tyf-
- Crescent, *res'-sent*, *s.* cilgant, hanner loer, hanner lleuad, cefn loer; loer-gynnydd; crymas; lluman y Tyrciaid; loerdllws.
- Crescent, *res'-sent*, *v. a.* cilgantio.
- Crescited, *res'-sen-ted*, *a.* cilgantio; cyfylchig.
- Crescive, *res'-suf*, *a.* cynnyddol, tyfol, tyfiannus.
- Cresset, *res'-set*, *s.* coelcerth, tân-fwdwl; erllen, llygorn, fflaglen, croeslygorn; trybedd; rhwyll.
- Crest, *res'*, *s.* crib; cribell; copa, siobyn; barfle; helmaddurn, penial, helm, penor, penffestin; cribaddurn; twff, mwng; trum, top; balelder.
- Crest, *res'*, *v. a.* cribogi, cobynu; hir-linnodi, hirlinellu.
- Crested, *res'-ted*, *a.* cribog, copynog, copog; cribellog, tyfflog; arfenog.
- Crestless, *res'-les*, *a.* digrib, diachen, diarflen; difonedd, lledrywiog, adlawaid.
- Cretaceous, *cri-te'-shyz*, *a.* marmog, marmaidd, marmain, sialcaidd.
- Cretic, *cri'-tic*, *s.* corfan cymhlyg dyrchafedig, corfan o un sill fer rhwng dwy hir.
- Crevice, *ref'-us*, *s.* breg, agen, hollt, ag, agoriad, gorel, rhwyg, crec.
- Crevice, *ref'-us*, *v. n.* agenu, agu, hollti, flawio.
- Crew, *crw*, *s.* ciwed, enud, haid, cwlwm, enfaint, myntai, ystrain, rhawd, cydforwyr, cydlongwyr; cymdeithion, dyhirwyr.
- Crewel, *crw'-el*, *s.* edef ddeugord; pellen edafedd.
- Crib, *crub*, *s.* preseb; rhastal, rhesel; cor ychain; bwthyn; corwely; blwch.
- Crib, *crub*, *v. a.* ffrongcio, cutio; darn-guddio, celcio.
- Cribbage, *crub'-bej*, *s.* cardchwareu.
- Cribble, *crubl*, *s.* gogr, gwagr tro; rhi-dyll.
- Cribble, *crubl*, *v. a.* gogrynu, gwagrynu; rhidylio.
- Crick, *eric*, *s.* pigyn, gwyneg, tryboen.
- Cricket, *cric'-et*, *s.* criciodyn, cricied, cricell, pryf tân; chware tafareh, chware humog, chware pel a chlwpa, humogaeth, tafarchaeth.
- Cricoid, *cri'-coid*, *a.* modrwyaidd.
- Crier, } *cri'-yr*, *s.* criwr; dolefwr,
Cryer, } *gwaeddwr*; cyhoeddwr, hoeddiadur.
- Crime, *creim*, *s.* trosedd, bai, camwedd, efrad, gwyd; pechod; cyllafan, camgwyl.
- Crimeful, *creim'-ffwl*, *a.* troseddog, dryglawn, beius, cylus, euog, pechadurus.
- Crimeless, *creim'-les*, *a.* didrosedd, difai, diddrwg.
- Criminal, *crum'-i-nyl*, *a.* troseddog, camweddus, dryglawn, camgyhus, drygionus.
- Criminal, *crum'-i-nyl*, *s.* troseddwr, drygweithredydd, camweddog.
- Criminality, *crum'-i-nal'-i-ti*, *s.* trosedd-oldeb, camweddogrwydd, euogrwydd; camwedd. [euogi.
- Criminate, *crum'-i-net*, *v. a.* cyhuddo;
- Crimination, *crum'-i-ne'-shyn*, *s.* cyhuddiad, achwyniad, cyhudded.
- Criminalatory, *crum'-i-ne-tyr-i*, *a.* cyhuddol, cyhuddiadol, cyhuddog, hyfeiol.
- Crimp, *crump*, *a.* brau, hydor, briwsionllyd, crispin, cras, crych.
- Crimp, *crump*, *v. a.* crimpio, gwasgu; dal; crychu, telcu, crispio, crybychu.
- Crimp, *crump*, *s.* crimp=goruchwyliwr dan fasnachwr glo; crimpyn; hudwr.
- Crimpage, *crum'-pej*, *s.* crimpyniaeth, crimpiad; lithdal.
- Crimple, *crum'-pl*, *v. a.* crebachu, crychu, argrychu, telgyngu; crimpio, ewtogi.
- Crimson, *crum'-zn*, *s.* rhudd, cochrudd, porffor, glasgoch, rhuddon, coch, creuliw, fluon, fflon.
- Crimson, *crum'-zn*, *a.* rhudd, rhuddgoch, cochrudd, cochlas, porfforaidd, coch, fluon.
- Crimson, *crum'-zn*, *v. a.* rhuddo, cochi, gwrido, porffori, ffuoni.
- Crimcum, *cring'-cum*, *s.* gwrwst, cwlwm gwythi; crebachiad; mympwy.
- Cringe, *crunj*, *v.* capio, ymgrymu, ymblygu, cyffonloni; truthio, cwriau; crebachu, crynhoi.
- Cringe, *crunj*, *s.* capiad, truthblygiad; truthfoes, gweniaith, cwriar.

Crinigerous, crei-nij'-yr-yz, *a.* blewog, gwalltog.
 Crinite, crei'-neit, *a.* fluwch, gwallt-tyfog, gwalltlaes, gwalltog.
 Crinkle, cring'-cl, *v.* crychu, ymgrychu; ymddillio; ymddolenu, dolystumio, ymdroi; rhychu, tolcio.
 Crinkle, cring'-cl, *s.* crych, crychni; plyg, dill; doleniad.
 Crinose, crei'-nöz, *a.* gwalltog, blewog.
 Crinosity, crei-nos'-i-ti, *s.* gwalltog-rwydd, blewogrwydd, garwder.
 Cripple, crup'-pl, *s.* cloff, efrydd, efrydd-yn; dyn baglog.
 Cripple, crup'-pl, *a.* cloff, efrydd.
 Cripple, crup'-pl, *v. a.* cloffi, efryddu; diffrywyo, analluogi.
 Crisis, crei'-sus, *s.* eithafnod, eithafed, terfenydd, eithafnis, eithafrad, eithafgyrch, uchafnod, argyfwng.
 Crisp, crusp, *ü.* crych, crispin, crychedig; modrwyog; llofnog; tolcio; brau, crin, sychgras.
 Crisp, crusp, *v.* crychu, crispinio; ymgrychu; torchi, ymnyddu; modrwyo, ymdroi; tolcio, ystumio; sychgras; fillio, llawethu.
 Crispation, crus-pe'-shyn, *s.* crispiniad, crychiad, ymnyddiad; sychgrasiad.
 Crisping-pin, crus'-ping-pun, } *s.*
 Crisping-iron, crus'-ping-ei-yrn, } crychiadur, crychnodwydd, haiarn crychu, crisppin.
 Crispness, crusp'-nes, *s.* crispynrwydd, crychiant; breuolrwydd; sychgras-der.
 Crispy, crus'-pi, *a.* crych, crispin; cud-ynog, modrwyog; brau, hyfriw, sychgras.
 Criterion, crei-ti'-ri-yn, *s.* safon, prawfaen, maen prawf, profiedydd, seil-brawf, coelbrawf, prawfynag, talben.
 Critic, crut'-ic, *s.* beirniad, llenfeirniad, beirniedydd, barnydd, barnodur; beiadur.
 Critic, crut'-ic, *a.* beirniadol, manyl-graff, manwl.
 Critic, crut'-ic, *v. a.* beirniadu, barnu.
 Critical, crut'-i-cyl, *a.* beirniadol, llenfeirniadol; manwl, craffus, cywrain, dichlyn, enbyd, peryglus; terfynol, pwysig; eithafus, terfenyddol; cecrus.
 Criticise, crut'-i-seiz, *v.* beirniadu, llenfeirniadu; arholi, barnodi; beio, senu.
 Criticiser, crut'-i-sei-zyr, *s.* beirniad, beirniedydd; beiw, beiadur.

Criticism, crut'-i-suzm, *s.* beirniadaeth, llenfeirniadaeth, barnoriaeth, llenfarn.
 Critique, cri-tic', *s.* beirniadeg, beirniadaeth, beirnnodiad; arholiad.
 Croak, cröc, *v. n.* cawcian, crugleisio, cröu, cogor, ysgrechian; grwytho, grymial, gryngian, grydian.
 Croak, cröc, *s.* cawc, dychre, grwyth, grwng, creglais. [saffyrfaen.
 Crocalite, crö'-cy-leit, *s.* saffrymfaen.
 Croceous, crö'-shyz, *a.* saffrymaidd, saffyraidd; saffrymog; melyn.
 Crock, croc, *s.* parddu, huddugl.
 Crock, *v. a.* pardduo.
 Crockery, cröc'-yr-i, *s.* llestri pridd, priddlestri, llestripriddion; cregenau.
 Crocodile, cröc'-ö-deil, *s.* afangc, crocö-deil, crocodil, addange.
 Crocodile, cröc'-ö-deil, *a.* afangcaidd, crocodilaidd; twyllodrus, bradwraidd, ffugiol; bachellus.
 Crocus, cröc'-cys, *s.* saffrwm, saffyr, saffrwn; lleblwch, pylor melyn.
 Croft, crofft, *s.* cadlas, gower, hwra, talwrn, maes bychan, llain.
 Croisade, croi-sed', *s.* crwysgad=*Crusade*.
 Cromlech, crom'-lec, *s.* cromlech.
 Crone, crön, *s.* gwrach, hen wraig; hen ddafad, hen famog.
 Crony, crö'-ni, *s.* cyfaill, cydymaith; cyfelles; hen gydnabod.
 Crook, crwc, *s.* bach, crwbach, gafaelfach, craff, crwg, crycyn, hwg; camuni, crymedd; bugeilffon, ffon gnwpa, baglan; ffon esgob; crowsydd; cyfrwysder, cast.
 Crook, crwc, *v.* camu, crymu, plygu, crybachu; ymgamu; gwyrö.
 Crooked, crwc'-ed, *a.* cam, crwca, crwm, achrwm; gwyrngam; bachog; ystumiol; bwaog; cefngwrwm.
 Crookedness, crwc'-ed-nes, *s.* camedd, crymedd, gwyrngamedd; bachogrwydd; gwyrdrawsedd.
 Croop, cröp, *s.* grygwst, crygwst, gyddf-wst, gyddglwyf.
 Crop, crop, *s.* crombil, cropa; cnwd, cynnyrch, heiniar, ffrywth; toraeth; cynauaf.
 Crop, crop, *v. a.* tocio, blaendori, cytio, cwtäu, ysgythru, trychu; blaenbori; tori, medi; gwelleisio, cneisio; plicio.
 Cropper, crop'-pyr, *s.* cropaog=colomen grombilfawr; tociwr, cneifiwr.
 Cropsick, crop'-sic, *a.* alarglaf, glythglaf; claf o loddest; alarlydd.

Crosier, crö'-zhyr, *s.* bugeilffon, ffon gnwpa, bagl esgob, croesferllysg; croes, bagl.

Croslet, crös'-let, *s.* croesig, croes fechan.

Cross, cros, *s.* croes, crog, crwys, croes-bren; adfyd, trallod, blinder, ing, croesineb.

Cross, cros, *a.* croes, traws; gwrthwyneb; anynad, dreng, gwrthnysig, trofäus, sarug.

Cross, cros, *v.* croesi; gwrthwynebu; beisio, rhydio; gwrthweithio, rhwystro, attal; dilëu; cymmysgu; croesnodi. [trawst.

Cross-beam, crös'-bäm, *s.* croeslath.

Cross-bite, crös'-beit, *s.* twyll, hoced.

Cross-bite, crös'-beit, *v. a.* twyllo, hocedu.

Cross-bow, crös'-bö, *s.* albrys, bwa croes, albras, blif.

Cross-examination, cros-egz-am-i-ne'-shyn, *s.* croesholiad, croeschwiliad, traws-holiad.

Cross-examine, cros-egz-am'-un, *v. a.* croesholi, traws-holi; gwrth-holi.

Crossness, crös'-nes, *s.* croesineb, trawder, anynadrwydd, sarugrwydd, cyn-dynrwydd.

Cross-wise, crös'-weiz, *ad.* yn groes, ar draws; ar lun croes.

Crotal, cröt'-y-lys, *s.* y gynffondrwrst, y gynffonrugl, y neidr gynffondrwrst.

Crotch, croç, *s.* fforch, ffwrch, fforch-bren; bach.

Crotchet, croç-et, *s.* crymfach, camfach; cynnalbren; asbri, dychymmyg, chwim, coegdyb, mympwy, nwyth; corfanig, penddu:—*pl.* cromfach-au=[]

Crowch, crowç, *v. n.* ymgrymu, capio, ymblygu; cwrienu; cynffonloni, truthio.

Croup, crwç, *s.* grygwst=*Croop*; pedrain, ffolen, crymal, cwman, bontin.

Crouped, crw'-ped, *s.* crymalnaid, crymnaid, gorlam, gornaid.

Crout, crows, *s.* surgawl, surfresych.

Crow, crö, *s.* brân; gwif, trosol; brangrwaiciad; canu, caniad.

Crow, crö, *v. n.* canu, crëu, crawcian; ffrostio, bocsbachu, bostio; bygylu.

Crow-bar, crö'-bar, *s.* gwif, trosol.

Crowd, crowd, *s.* twr, pentwr, torf, tyrfa, haid, lluaws, tyndorf; y werin, y bobl gyffredin.

Crowd, crowd, *v.* llenwi, gorlenwi, gwasgu, llethu; ymdyru, heidio, ymwithio; sengi, ymsangu.

Crowder, crow'-dyr, *s.* crythor, crythwr, ffilor.

Crown, crown, *s.* coron, coronrwy, talaith, teyrngoron; coronbleth, gwyr-len; coryn, copa, top, cwnwg, siäd; siobyn, cobyn; pumswllt; cwblhäd, cyflawniad.

Crown, crown, *v. a.* coroni; addurno; cwblhau, perfeithio, gorphen.

Crown-glass, crown'-glas, *s.* purwydr, gwydr dilin. [croesol.

Crucial, crw'-shi-yl, *a.* croes, traws, Cruciate, crw'-shi-et, *v. a.* arteithio, poeni, cystuddio. [croesaidd.

Cruciate, crw'-shi-et, *a.* arteithiog;

Cruciation, crw'-shi-e'-shyn, *s.* arteithiad; dirboen, poenedigaeth.

Crucible, crw'-su-bl, *s.* toddlestr, toddiadur, toddbot, toddgib; ffyrnes.

Crucifix, crw'-si-ffics, *s.* croeslun, croglun; croes, crog; y grefydd Gristionogol.

Crucifixion, crw'-si-ffio'-shyn, *s.* croeshoeliad, croeshoeliant.

Cruciform, crw'-si-fform, *a.* croesaidd, croesddulliog; ar lun croes.

Crucify, crw'-si-ffei, *v. a.* croeshoelio, hoelio ar y groes.

Crude, crwd, *a.* llymrwg, ammrwd, ir, crai, cri, anaddfed; anffaeth; anhyddysg; annosbarthus; anorphenedig; trwsgl.

Crude form, crwd form, *s.* cynffurf, cyssefinlun; ffurf gyntefig gair.

Crudeness, crwd'-nes, } s. llymrigrwydd,

Crudity, crw'-di-ti, } ofder, creider; anaddfedrwydd; annhrefnusrwydd; annhreuidd.

Cruel, crw'-el, *a.* creulawn, ffyrnig, milain, gwaedlyd, ciaidd, ysgeler, barbaraid.

Cruelness, crw'-el-nes, } s. creulondeb,

Cruelty, crw'-el-ti, } s. mileindra, ffyrnigrwydd, annynoldeb; traha, gormes, trais.

Cruet, crw'-et, *s.* chwaethel; costrelig, gwydrel; potelig; potel surwin.

Cruise, crwz, *v. n.* gwibforio, gwibhwylio; hyntian, morhyntian.

Cruise, crwz, *s.* gwibforiad, gwibhwyliaid; gwiblongdaith; gwibfa, gwibdaith.

Cruiser, crw'-zyr, *s.* gwiblong; preiddlong; ysbeienlong; gwiblongwr, gwibforiwr.

Crum, } cryn, *s.* briwsionyn, briwion-Crumb, } ym, breubysion, difyn, tip, mymryn; bywyn, briwfyd.

- Crum, } crym, *v. a.* briwsioni, briwio,
 Crumb, } breubysu, malurio, malu.
 Crumble, crym'-bl, *v.* briwio, briwsioni,
 malurio, manhau.
 Crummy, crym'-mi, *a.* briwsionog;
 bywynog, mwydiog; tyner, mwyth;
 cnodig, tew.
 Crump, crymp, *a.* crwm, crwca, cam,
 achrwm.
 Crumpet, crym'-pet, *s.* mwythdeisen,
 mwythen, teisen fasw.
 Crumple, crym'-pl, *v.* crychu, crybychu;
 cōri; annhrefnu.
 Crumpling, crym'-pling, *s.* corafal, crych-
 afal, cogwrn.
 Crunk, cryngc, *v.* ysgrechian.
 Cruor, crw'-yr, *s.* gōr, gwyar.
 Crupper, cryp'-pyr, *s.* pedrain, crymal,
 cwmmán; cloren, ffolen, bontin; pys-
 tylwyn :—*v. a.* pystylwyno.
 Crural, crw'-ryl, *a.* coesol, esgeiriol,
 heglaid.
 Crusade, crw-sed', *s.* croessawd, crwys-
 gad, rhyfel y groes; crwysad=bath-
 on Portugaidd=2s. 6c.
 Crusader, crw-sed'-dwr, *s.* croesodydd,
 croessawdiwr, crywsgadwr, crwysad-
 wr, milwr y groes.
 Cruse, cruz, *s.* costrelan, potelan,
 cib, cwpanig, ffïol; ystēn; cwpan-
 aid.
 Cruset, crw'-zet, *s.* toddiadur, toddgib,
 toddlestr.
 Crush, crysh, *v.* llethu, gwasgu, math-
 ru, yssigo, cyfarsangu; cymmriwio,
 candryllio; gormeilio, gorthrechu,
 gormesu; darostwng, gorchfygu; py-
 lori, meilion :—*s.* gwasgiad, ffwrch;
 yssigod, sigiad, briwiad; clindardd-
 ach, candrylliad.
 Crust, cryst, *s.* crofen, crawen, crest,
 crystyn, crwst, tonen, caen; cramen,
 cragen; plisgyn; crawd :—*v.* crofenu,
 cramenu; cragenu; plisgenu, ys-
 grawio.
 Crustaceous, crys-tes'-shyz, *a.* crofenaidd,
 crawenaidd, crystynaidd; cragen-
 aidd.
 Crustalogy, crys-tal'-ō-ji, *s.* crestflod-
 aeth, crestflodig, crestogaeth.
 Crustated, crys-tes'-ted, *a.* crofenog,
 crawenog, crystynog.
 Crustation, crys-tes'-shyn, *s.* crofeniad,
 cresteniad, ysgrawiad, teryg.
 Crustiness, crys'-ti-nes, *s.* crofenog-
 rwydd, crestogrwydd; sarugrwydd,
 anynadrwydd, ceintach.
 Crusty, crys'-ti, *a.* crawenog, crestog,

- cramenog; crofenol; crystaidd; af-
 rywiog, sarug.
 Crutch, cryc, *s.* bagl, ffon fagl; tud-
 fach; henaint :—*v.* cynnal ar ffyn
 baglau; tudfachu.
 Cry, crei, *v.* llefain, gwaeddi, crio,
 bloeddio, wylo, ubain, dolefain; cwyn-
 fan, gerain; crefu; cyhoeddi; udo :—
s. llef, gwaedd, cri, banllef; llefain,
 galarnad; swm; erchwys.
 Cryal, crei'-yl, *s.* creŷr, cregyr, garan.
 Cryer, crei'-yr, *s.* criwr; cyhoeddwr=
Crier; crieddydd=math ar walch.
 Crying, crei'-ing, *a.* gwaeddfawr, cy-
 hoedd, cyffredin, hysbys; hynod, hon-
 aid :—*s.* criad, bloeddiad; cyhoedd-
 iad; cri, gwaedd, crochlef, llefain,
 cwynofaint, galar.
 Cryophorous, crei-off'-ō-ryz, *s.* rhow-
 ddygydd, rhewiadur.
 Crypt, crypt, *s.* celgafell, celfa, cudd-
 gell; celogof; tanddaiargell; bedd-
 gell.
 Cryptic, crup'-tic, } *a.* dirgel, cudd,
 Cryptical, crup'-ti-cyl, } celedig, dirgel-
 aidd.
 Cryptogamy, crup-tog'-y-mi, *s.* cudd-
 weddogaeth, celweddogaeth, celbri-
 odaeth.
 Cryptography, crup-tog'-ry-ffi, *s.* celys-
 grifaeth, cuddysgrifaeth; celysgrif-
 en; celnodau.
 Cryptology, crup-tol'-ō-ji, *s.* celiath,
 cuddiaith, iaith gyfrin, cymmgy-
 iaith.
 Crystal, crus'-tyl, *s.* crisial, crisiant,
 grisial, cris :—*a.* crisialaidd, grisial-
 aidd; tryloyw, trybelid, claer, dys-
 glain, ffloyw.
 Crystalline, crus'-tyl-lun, *a.* grisialaidd,
 crisiannaidd; crisialog; trylachar,
 gloyw, dysglær.
 Crystallite, crus'-tyl-leit, *s.* eithinfaen,
 aethfaen.
 Crystallization, crus-tyl-li-ze'-shyn, *s.*
 crisialeiddiad, grisialiad, tryloywad.
 Crystallize, crus'-tyl-leiz, *v.* crisialu,
 ymgrisianu; tryloywi.
 Crystallography, crus-tyl-log'-ry-ffi, *s.*
 crisialeg, crisiannaeth, grisialydd-
 iaeth.
 Cub, cyb, *s.* cenaw, cenau, colwyn, ci-
 an; preseb, cōr ychain :—*v.* bwrw
 cenawon; alu; caethiwo.
 Cubation, ciw-be'-shyn, *s.* gorweddiad,
 lledorweddiad.
 Cubatory, ciw'-by-tyr-i, *a.* gorweddol;
 lledorweddol.

- Cubature, ciw'-by-cyr, *s.* cydrifiant, cubiadaeth.
- Cube, ciwb, *s.* cub, cubyn, tryfaint; corff chwechochrog; trygorff chwegyfochr.
- Cubic, ciw'-bic, } *a.* cubig, cubaidd,
Cubical, ciw'-bi-cyl, } chwechochrog, chwegyfochr; ar wedd dis.
- Cubicalness, ciw'-bi-cyl-nes, *s.* cubigrwydd, cubeiddrwydd.
- Cubicular, ciw'-bic'-iw-lyr, *a.* ystafellol, ystafellaidd, cufiglaidd.
- Cubiform, ciw'-bi-fform, *a.* cubynaidd, cubwedd.
- Cubit, ciw'-but, *s.* cufydd, cyfelin, elinad; iselin.
- Cubital, ciw'-bu-tyl, *a.* cufyddol, cyfelinol; cufydddeidiol; iselinol.
- Cucking-stool, cyc'-ing-stwl, *s.* trochgader, ystol drochi, cystwyfa.
- Cuckold, cyc'-yld, *s.* eyewallt, hoffdyn, cynricyll, cynrigddyn, gwanwr; gwr i wraig anffyddlaw:—*v. a.* cyewalltu, hoffdynu, diwrlo.
- Cuckoldly, cyc'-yld-li, *a.* cyewalltaidd, cynricyllaidd; gwael, isel; llechwr-aidd.
- Cuckoldmaker, cyc'-yld-me-cyr, *s.* cyewalltwr, hoffdynwr, cynricyllydd.
- Cuckoldom, cyc'-yl-dym, *s.* cyewalltedd, hoffyddnod, cynrigdod; godineb.
- Cuckoo, cwc'-cw, *s.* cog, y gog, cwcw; cethlydd. [cwcw'aidd.]
- Cuckoo-like, cwc'-cw-leic, *s.* cogaidd,
- Cucullate, ciw'-cyl'-let, *a.* cecyllog, cwfledig, hwfog, hodog.
- Cucumber, ciw'-cym-byr, *s.* cucumer, chwerfwr, y chwerddwfr, chwerddyfrlys.
- Cucurbit, ciw'-cyr-but, *s.* dystyllgib, merinlestr, dystyllyr, dystylliadur.
- Cucurbitaceous, ciw'-cyr-bu-te'-shyz, *a.* cucumeraidd, cicaionaidd, greolaidd.
- Cud, cyd, *s.* cil, cilforch; cyngylla, cynngwll, adgnofaeth, adgnofwyd; cilfochaid; safnaid.
- Cuddle, cyd'-dl, *v.* cyreydu, yswatio, cwrain; llechu, cofleidio; llochi.
- Cuddy, cyd'-di, *s.* cuddigl, cell, cegin; globysg.
- Cudgel, cyj'-yl, *s.* pastwn, cwlbren, llachffon, dulbren, ystwyal, clwpa, cogel; ffon, gwialffon:—*v. a.* pastynu, ffonodio, ystwyalu; llachio, ffustio, dulio, curo; ysbodoli.
- Cudgeler, cyj'-yl-yr, *s.* pastynwr, llach-iwr, ffonodiwr.
- Cue, ciw, *s.* cynffon, llosgwrn, godre;
- diwedd, awgrym, amnaid; cyfarwyddyd; tymmer, hwyll; gorchwyl; tro; pelfon; ffyrllingwerth; adeg, cyfle.
- Cuerpo, cwyr'-pö, *s.* corffwedd, corff.
- Cuff, cyff, *s.* dyrnod, paff; cernod, bonclust, palfod; llawesdorch, arddyrnodorch, llawdoroch:—*v.* dyrnodio, wabio; cernodio; curo, ymladd.
- Cuirass, cwi'-ras, ci'-ras, *s.* curas, dwyfroneg, llurig.
- Cuirassier, cwi'-ras-si'-yr, *s.* curaswr, curasog, milwr curasog, milwr llurigog.
- Cuisse, cwus, *s.* morddwydwisg, clunwisg.
- Culinary, ciw'-lu-nyr-i, *a.* ceginaidd, ceginol.
- Cull, cyl, *v.* dewis, dethol, pigo, cwlio, dichlynu.
- Cullender, cyl'-un-dyr, *s.* hidl, hidlyr.
- Cullion, cyl'-iyn, *s.* dyhiryn, anfadyn, bawddyn, cryn-wreiddyn, llorwreiddyn; tegeirian, caill y ci.
- Cullis, cyl'-lus, *s.* isgell, potes; cwlas, cwllis, rhintlath, sylchymyl.
- Cully, cyl'-li, *v. a.* twyllo, hocedu, somi, ffoli:—*s.* cwall, symlyn, hydwylllog, ffwl.
- Culm, cylv, *s.* cwlm, cwllwm, clwm, glo cwlm, glo clwm; callodr, paladr, corsen, bonyn.
- Culmiferous, cyl'-muff-yr-yz, *a.* callodrog, calafog, paladrog; cylvmog.
- Culminate, cyl'-mu-net, *v. n.* uchdeddu; deheuoli, bod yn y de; nawnoli, pryd-nawni.
- Culmination, cyl'-mu-ne'-shyn, *s.* uchedd-iad, nawniad; trosiad y nenbwngc; top, cwnwg, coryn, uchder, entrych, uchafnod.
- Culpable, cyl'-pybl, *a.* beius, cylus, cwyllfawr, hygwl, ar y cam; euog, troseddol.
- Culpableness, cyl'-pybl-nes, *s.* beiusrwydd, cylusrwydd, hygyledd; bai, cwl; euogrwydd.
- Culprit, cyl'-prut, *s.* cyhuddog, cyhuddedig; troseddwr, camweddwr, camweddog.
- Culter, cyl'-tyr, *s.* cwlltyr=Coultter.
- Cultivable, cyl'-tu-fybl, *a.* diwylladwy.
- Cultivate, cyl'-tu-fet, *v. a.* diwyllio, gwrteithio, coledd, diwygio, trin, amaethu, meithrin, achlesu; gwellän, cyweirio, ardymeru; myfyrio; gwareiddio; cynnyrchu.
- Cultivation, cyl'-tu-fe'-shyn, } *s.* diwyll-
Culture, cyl'-cyr, } iad, gwr-

- teithiad, amaethiad, meithriniad, tirddiwylliad, amaethyddiaeth; gwell-
 âd, angeledd; addysg, cyweiriad;
 cynnyrchiad, codiad.
- Cultivator, cyl'-tu-fe-tyr, *s.* diwylliwr,
 gwrteithiwr, trinwr, amaethwr, ar-
 eddwr.
- Culver, cyl'-fyr, *s.* colomen goed, ys-
 guthan, cuddan, cuthan; colomen.
- Culverin, cyl'-fyr-un, *s.* hirfagnel, hir-
 gyflegr.
- Culvert, cyl'-fyrt, *s.* tanfordd; mydfa,
 crymfa, tanffos, tanwythen, twnel.
- Cumbent, cym'-bent, *a.* gorweddol.
- Cumber, cym'-byr, *v. a.* rhwystro,
 lluddias; ystwyo, attal, beichio; dy-
 rysu, methlu:—*s.* rhwystr, lludd,
 traferth.
- Cumbersome, cym'-byr-sym, } *a.*
 Cumbrous, cym'-brvz, } rhwystrus,
 afrywdd, traferthus, blin; beich-
 iol, trwm; gormesol; cymmysg, an-
 nhrefnus.
- Cumbrance, cym'-brvns, *s.* rhwystr,
 afrywddineb; beichusrwydd, trym-
 der, gorthrymder.
- Cumulate, ciw'-miw-let, *v. a.* pentyru,
 crugio, casglu, carnedd, cyttyru.
- Cumulation, ciw'-miw-le'-shyn, *s.* pen-
 tyriad, crugiad, cludeiriad, dasyl-
 iad.
- Cumulative, ciw'-miw-le-tuf, *a.* pentyr-
 ol, carneddol, dasyrnol; chwanelog,
 attodol.
- Cunctuation, cyngo-te'-shyn, *s.* oediad, go-
 hiriad, llercian.
- Cuneal, ciw'-ni-yl, *a.* cynaid, geing-
 aidd, ar lun cŷn; cyniol, llettem-
 ol.
- Cunner, cyn'-nyr, *s.* brenigen, llygad
 myharan.
- Cunning, cyn'-ning, *a.* cyfrwys, ffel,
 gochelgar, call; ystrywgar, dichellgar,
 twyllodrus, castiog, ffals; cywrain,
 medrus; gwybodus, dysgedig:—*s.* cyfr-
 wysder=*Cunningness*.
- Cunningness, cyn'-ning-nes, *s.* ffelder,
Indisciplineable, un-dus'-su-plun-ybl, *a.*
annysgybladwy, annysgadwy.
Indiscoverable, un-dus-cyf'-yr-ybl, *a.*
anghanfyddadwy, anolrheiniadwy.
Indiscreet, un-dus-crit, *a.* annoeth,
anghall, amhwylllog, ehud.
Indiscretion, un-dus-cresh'-yn, *s.* an-
noethineb, anfoledd; ffolineb.
Indiscriminate, un-dus-crum'-i-net, *a.*
diwahaniaeth, anwahanol; didrefn.
Indiscrimination, un-dus-crum-i-ne'-
shyn, *s.* anwahaniaeth, annosbarth-
iad; annirnadaeth.
Indispensable, un-dus-pen'-sybl, *a.* an-
hegorol; angenrheidiol; anesgusad-
wy.
Indispose, un-dus-pöz', *v.* annhueddu;
anaddasu, anhwylio.
Indisposition, un-dus-pö-zish'-yn, *s.* an-
nhueddiad, anewylls, anhoffder; an-
hwyl, afiechyd, salwch, anardymmer.
Indisputable, un-dus-piw'-tybl, *a.* an-
nadleuadwy, diammeu, diau.
Indissoluble, un-dus'-so-liw-bl, *a.* an-

nhoddadwy, anhydawdd; annattodol;
cadarn.
Indistinct, un-dus-tingot', *a.* anwahan-
edig, anneilldudedig, annydoleddig; an-
egllur; anghroyw, anhyglyw; cym-
mysg, plith draphlith; ammerffaith.
Indistinction, un-dus-tinge'-shyn, *s.* an-
wahaniaeth, annosbarthiad; annhrefn,
ansicrwydd; annirnadaeth; cydradd-
oldeb.
Indistinguishable, un-dus-ting'-gwis-
ybl, *a.* anwahanadwy, anhybarth;
anwahanol.
Indite, in-deit', *v.* cyfansoddi, ysgrifenu.
Individual, un-du-fij'-iw-yl, *a.* diwahan,
anwahanadwy, anwahanol; am-
mharthus, gosbenol; neillduol; unig-
ol, un, unig; gwahanfodol:—*s.* gwa-
hanfod; undyn, un dyn, unigyn,
neillduolyn, dyniolyn.
Individuality, un-di-fij-al'-i-ti, *s.* gwa-
hanfodaeth; unigoldeb.
Individually, un-di-fij'-iw-yl-i, *ad.* bob
un, bob yn un ac un; bob un o'r neill-
du; yn unigol; wrtho ei hun; ar ei
ben ei hun; yn wahanfodol; yn an-
wahanol. [deb.
Indivinity, un-di-fun'-i-ti, *a.* annwyfol.
Indivisible, un-di-fuz'-i-bl, *a.* anrhanad-
wy, anhyran, anhybarth.
Indocible, un-dös'-i-bl, anhyddysg, an-
hydyn, anwar; hurt, pendew.
Indocility, un-dö-sul'-i-ti, *s.* anhyddysg-
edd, anhydrinedd; penfasedd.
Indoctrinate, un-doc'-tru-net, *v.* *a.*
egwyddori, athrawiaethu, addysgu,
athrylithio.
Indolence, un'-dö-lens, *s.* musgrellni;
mewydedd, seguryd, diogi; anymroad.
Indolent, un'-dö-lent, *a.* musgrell;
swrth, diog; anymarhous, diofal; di-
boen.
Indomitable, un-dom'-i-tybl, *a.* annof-
adwy, anhyddof, anwaradwy.
Indorse, un-dors', *v.* *a.* cefnysgrifo, ar-
ysgrifenu; cymmeradwyo=*Endorse*,
&c.
Indubious, un-diw'-bi-yz, *a.* diammeu,
anamheuil, ammetrus, diau, sicr.
Indubitableness, un-diw'-bu-tybl-nes, *s.*
ammetrusrwydd, diamheuaeth.
Induce, un-diws', *v.* *a.* tueddu, dar-
bwylio; denu, tynu, annog, cymbhell.
Inducement, un-diws'-ment, *s.* annog-
aeth; ysgogiad, cymhelliad; achlysur.
Induct, un-dyct', *v.* dwyn i mewn; ty-
wys; tryddwyn; glwyddfuddio, rhoi
goresgyn ar eglwys; swyddfreinio.

- Inductility, un-dyc-tul'-i-ti, *s.* anhydryn-
rwydd, anestynedd.
- Induction, un-dyc'-shyn, *s.* tynwyddydd,
cyfosiad; tywysiad, cyfarweiniad,
tryddygiad, trydded; glwysfuddiant,
goresgyniad; rhoddiad mewn medd-
iant.
- Inductive, un-dyc'-tuf, *a.* tynwyddydol,
tynwyddol, cyfosiadol; tywysiadol,
arweiniadol; casgliadol; tueddol.
- Inductive logic, un-dyc'-tuf loj'-ic, *s.*
rhesymeg dynwyddol, rhesymeg dy-
wysiadol = rhesymeg yn tywys y
meddwi i ddarganfyddiadau newydd-
ion.
- Inductor, un-dyc'-tyr, *s.* tryddygydd;
tywysydd, arweinior; dygydd i mewn.
- Indue, un-diw', *v. a.* gwisgo; cynnysg-
aeddu, donio; gwaddoli.
- Indulge, un-dylj', *v.* boddio, boddhau,
anwesu, llochi; darlota; mwytho;
caniatâu, goddef; porthi; mynwesu;
cydsynio.
- Indulgence, un-dyl'-jens, *s.* anwes, mal-
dodaeth, elwch, cocraeth, darfoddiant,
cydymoddef, boddhâd; tynerwch;
hoffder; rhyddid; maddeueb.
- Indulgent, un-dyl'-jent, *a.* tirion, hy-
naws, maddeugar; anwesog; cu, mad.
- Indurate, un'-diw-ret, *v.* caledu;
haiarnu.
- Induration, un-diw-re'-shyn, *s.* ymgaled-
iad; caledwch; calon-galediad.
- Indure, un-diw'yr, *v.* parhau; dioddef.
- Industrious, un-dys'-tri-yz, *a.* diwyd,
dyfal, astud, llafurus, dichlyn; gofal-
us.
- Industry, un'-dys-tri, *s.* diwydrwydd,
ystigrwydd, gweithgarwch, llafur,
ioirthrwydd.
- Indweller, un'-dwel-yr, *s.* preswlydd,
cyfanneddwr, trigiannydd, trigwr.
- Inebriate, un-ē-bri-et, *v.* meddwi,
brwyso; madroni, hurtio, llerthu:—
s. meddwyn, brwysgwr.
- Inebriation, un-i-bri-e'-shyn, } *s.* medd-
Inebriety, un-i-brei'-e-ti, } wddol,
brwysgedd, meddwad; hurtrwydd.
- Ineffective, un-e-ffec'-tuf, } *a.* an-
Ineffectual, un-e-ffec'-cw-yl, } effeithiol,
dieffaith; dirym, ofer, gwan; aflesol;
ammharol.
- Inefficacy, un-eff'-i-cy-si, } *s.* an-
Inefficiency, un-e-ffish'-en-si, } effeith-
ioldeb; diffwrwythder; dirymusder;
gwendid.
- Inefficient, un-e-ffish'-ent, *a.* aneffeith-
iol; dinerth, egwân, gwâg.
- Inelastic, un-i-las'-tic, *a.* anhydwyth,
anystwyth, annhwythol.
- Inelegance, un-el'-i-gyns, *s.* annhlysnï,
annheleidrwydd, annillynder, an-
harddwch.
- Inelegant, un-el'-i-gynt, *a.* annillyn, an-
orwyth, anghymhen, annheleidiw, an-
hoyw.
- Ineligible, un-el'-i-ji-bl, *a.* annewisol,
annymunol; anaddas, ammhriodol.
- Ineloquent, un-el'-ō-cwent, *a.* anhyawdl,
anymadroddus, anhyffraeth, ammar-
ablus, anarodrydd.
- Inequality, un-i-cwol'-i-ti, *s.* anghyfar-
taled, anghystadled, anghydraddol-
deb, anwastadrwydd.
- Inequitable, un-ec'-wu-tybl, *a.* annuniawn,
anghyfiawn, anghywir, anghyfartal.
- Inerrable, un-er'-rybl, *a.* anghyfeiliorn-
adwy, anhyball, anffaeledig, angham-
syniol.
- Inert, un-yr', *a.* anfywiog, swrth, mar-
waidd, diegni, musgrel; hurt.
- Inertia, un-yr'-shy, *s.* anegni; goddef-
oldeb, syrthni, anweithioldeb.
- Inessential, un-es-sen'-shyl, *a.* anhan-
fodol.
- Inestimable, un-es'-tu-mybl, *a.* ammhri-
siadwy, anhywerth, anhybris.
- Inevident, un-ef'-i-dent, *a.* anamlwg.
- Inevitable, un-ef'-i-tybl, *a.* anocheladwy;
anesgorol; dilys, sicr.
- Inexcusable, un-ecs-ciw'-zybl, *a.* anes-
gusodol, diesgus.
- Inexhalable, un-ecs-he'-lybl, *a.* annharth-
adwy, angyradwy.
- Inexhaustible, un-ecs-ho'-stu-bl, *a.* an-
hysbyddadwy, dihysbydd; anwadad-
adwy; diball; annhreuiliadwy.
- Inexhaustive, un-ecs-hos'-tuf, *a.* anhs-
byddol, annysbyddol, anwaghaol.
- Inexorable, un-ecs'-ō-rybl, *a.* annyhudd-
adwy, anghymmodlawn, anhynaws;
creulawn.
- Inexpedience, un-ecs-pē'-di-ens, *s.* an-
addasrwydd, anghymhwysder; an-
fuddioldeb.
- Inexpedient, un-ecs-pi'-di-ent, *a.* anghyf-
addas, anghymmesur; anghyfflës;
anfuddiol; afreidiol.
- Inexpensive, un-ecs-pen'-suf, *a.* an-
nhreulfawr, anghostus.
- Inexperience, un-ecs-pi'-ri-ens, *s.* am-
mhrofiad, anymbrwf, anymarferiad,
anghymefindra, anwybodaeth.
- Inexpiable, un-ecs'-pi-abl, *a.* annyhudd-
adwy, anghymmodadwy; anniwyg-
iadwy; annileadwy.

Inexplicable, un-ecs'-pli-cabl, *a.* anegluradwy, anesboniadwy, anysiblygol; dyrys.
Inexplicit, un-ecs-plus'-ut, *a.* anamlwg; ammhendant, anhysbysol; tywyll.
Inexplorable, un-ecs-plö'-rybl, *a.* anfforiadwy, anysbeiadwy, anchwiliadwy.
Inexpressible, un-ecs-pres'-su-bl, *a.* anhraethadwy, anadroddadwy, anhydraith.
Inextinguishable, un-ecs-ting'-gwish-ybl, *a.* anniffoddadwy, anniffodd.
Inextricable, un-ecs'-tri-cybl, *a.* annyrysadwy, annatodol; afwrwydd, nidr.
Infallibility, un-ffal-i-bul'-i-ti, *s.* anffaeledigrwydd, anhydwylledd, anfethiant, anghyfeiliornad, anhysomedd.
Infallible, un-ffal'-i-bl, *a.* anffaeledig, anhyball, difeth, anghyfeiliorn, ansonadwy; sicr, diymwad.
Infamous, un'-ffe-myz, *a.* gwarthus, gwaradwyddus, cywilyddus, anghlod; brwnt, cas.
Infamy, un'-fy-mi, *s.* gwarth, anurddas, drygair, achlod, enllib, cywilydd.
Infancy, un'-ffan-si, *s.* babandod, mabandod, mebyd, maboed, mabolaeth.
Infant, un'-fant, *s.* baban, mebyn, maban, plentyn, dyn bach:—*a.* babanaidd, mebin, mabinaidd, plentynnaidd; ieuange, ifanc, tyner.
Infanticide, un-ffan'-ti-seid, *s.* babanladdiad, lladdiad babanod; mabanleiddiad.
Infantile, un'-ffan-tul, } *a.* mabanaidd,
Infantine, un'-ffan-tun, } babanaidd,
 mebinol, mebinol, mebin, mebai; plentynnaidd; ieuange, tyner.
Infantry, un'-ffan-tri, *s.* milwyr traed, gwyr traed, peddyd, pedwys, peddytos, pedfilwyr, traedfilwyr, llyuddwyr traed.
Infatuate, un-ffat'-iw-ct, *v. a.* ynfydu, gorphwylllo, pensyfrdanu; llygattynu:—*a.* ynfyd, penwan, amhwyllig, rhemp.
Infatuation, un-ffat'-iw-ct'-shyn, *s.* gorphwyllliad, amhwyllliad; pensyfrdandod, lledfrydedd, ffoledd, hurt-rwydd; rhempiad.
Infeasible, un-ffé'-zu-bl, *a.* anwneuthuradwy, annichonadwy; anhydrin, anhywaith.
Infect, un-ffect', *v. a.* heintio, llynu, cynghlwyfo, plaeo; llygru; halogi; adwytho.
Infection, un-ffec'-shyn, *s.* haint, heintnaws, haint gynol, ynglwyf, clefyd

llusg, llwgr, pla, adwyth; gwenwyn; heintiad; heintred.
Infectious, un-ffec'-shyz, *a.* heintus, heintddwyn, cynghlwyfus; adwythig.
Infelicity, un-ffi-lus'-i-ti, *s.* annedwyddwch; anffawd, afwyddiant, blinfyd.
Infer, un-ffyr', *v. a.* casglu, tynu casgliad.
Inference, un'-ffyr-ens, *s.* casgliad; canlyniad, cynghlo.
Inferior, un-ffé'-ri-yr, *a.* is, iselach; gwaelach, salach; gwaeth; llai; diweddar; israddol; isaf:—*s.* isafiad, goriselwr, israddwr.
Inferiority, un-ffi-ri-or'-i-ti, *s.* iselder, isder, israddoldeb, gwaelder; israddiaeth; salwedd.
Infernal, un-ffyr'-nyl, *a.* uffernol, uffernnaidd; cethernol, dieffig; isaf:—*s.* uffernolyn.
Infertility, un-ffyr-tul'-i-ti, *s.* anffrwythlondeb, diffrwythder, diffaethder.
Infest, un-ffest', *v. a.* aflonyddu, blino, poeni, plaeo, gormesu.
Infidel, un'-ffi-del, *a.* digred, anghred, diffydd, anffyddiol; paganaidd; annuwiiaidd; infidelaidd:—*s.* anffyddiwr, anghredwr, anghredadyn, diffydd, anffyddiad, digred, annuwiad, gwrthffyddiwr; infidel.
Infidelity, un-ffi-del'-i-ti, *s.* anffyddiaeth, anghrediniaeth, anghred; annuwiiaeth, didduwiaeth, infideliaeth; anffyddlondeb; brad.
Infiltrate, un-fful'-tret, *v. n.* ymhidlo.
Infinite, un'-ffi-nut, *a.* anfeidrol; annerfynol; aneirif, afrifed, dirif; diddiwedd; diball.
Infinitecimal, un-ffun-i-tes'-i-myl, *a.* gorfychanigol, bychydigol; anfeidrol fach:—*s.* gorfychanigyn, gorfychydygyn.
Infinitive, un-ffun'-i-tuf, *a.* annerfynol; anorphen; annerfynadwy.
Infinitude, un-ffun'-i-tiwd, *s.* anfeidroldeb; annerfynolrwydd; anfesuri.
Infirm, un-ffyrn', *a.* gwan, egwan, di-rym, llesg, eiddil, ansad, methedig; claf; amhhybyr; amhenderfynol.
Infirmity, un-ffyr'-myr-i, *s.* clafdy, ysbytty, elusendy cleifion.
Infirmity, un-ffyr'-mi-ti, *s.* gwendid, egwanner, anghyferth, anghadernid; afiechyd, faeledd; amherffwithrwydd.
Infix, un-ffics', *v. a.* gosod, sodi; planu; greddfu; sicrhau.
Inflame, un-fflem', *v.* ennyn, fflamio,

- ennynu, flamychu, cynneu, tanio ; digio, cyffroi ; annos ; chwanegu ; ymlidio.
- Inflammability, un-flam-ma-bul'-i-ti, *s.* hyfflamedd, flamiogrwydd ; hylsgedd ; hyddigrwydd.
- Inflammable, un-flam'-mybl, *a.* hyfflam, flamychadwy, hyboeth ; ennynus, hyddig.
- Inflammation, un-flam-me'-shyn, *s.* flameg, ennyfa, tandde, llosgfa, brydaniaeth, tra-gwres, gwrid, angerdd, llosg ; flamiad ; darfrydiad ; llid, digder, cynhyrriad.
- Inflate, un-filet', *v. a.* fflugio ; chwythu ; chwyddo ; codi ; balchio ; llenwi :—*a.* fflugio ; chwyddedig ; dargestol.
- Inflation, un-ffe'-shyn, *s.* fflugiad ; ymchwyddiad ; bolchwydd ; balchder, coegni.
- Infect, un-fflect', *v. a.* plygu, camu, ystumio ; amrywio, treiglo, troi, newid.
- Infection, } un-fflec'-shyn, *s.* plygiad,
Inflexion, } gogwyddiad, gwyrriad ;
lleddfiad, amrywiad, treigliad ; cyweiriad ; gwyrogwydd.
- Infective, un-fflec'-tuf, *a.* plygiadol, plygol ; treigliadol ; hydreigl.
- Inflexible, un-fflec'-su-bl, *a.* anhyblyg, anystwyth, diymdro, anystumio ; cildyn, ystyfnig ; anghyfnewidiol, anyhuddadwy ; diysgog ; gwrdd.
- Infect, un-fflict', *v. a.* cospi ; cymhwyso ; gosod ar.
- Infection, un-fflic'-shyn, *s.* cospedigaeth, dial ; bwriad ar.
- Influence, un'-ffliw-ens, *s.* dylanwad, effaith, effeithioldeb, cyffrawd, gweithrediad, cynhyrriad, nerth, rhinwedd, gwyrrth ; llywodraeth ; annogaeth ; dyllifiad, ymlanwad ; goen :—*v. a.* dylanwi, dylanwadu, effeithio ar ; tueddu, gogwyddo, annog ; cyffroi ; llywodraethu, arwain.
- Influent, un'-ffliw-ent, *a.* ymlifol, dylanwol, ynferol.
- Influential, un'-ffliw-en'-shyl, *a.* dylanwadol ; annogol, cynhellol, cynddylig.
- Influenza, un'-ffliw-en'-zy, *s.* annwyd-wst, twymyn annwyd, annwyd heintiol.
- Influx, un'-fflycs, } *s.* ymlan-
Influxion, un'-fflyc'-shyn, } wad, ynfer, dyllifiad ; atgludiad ; cyflawnder.
- Infold, un'-fföld', *v. a.* dadblygu, dyblygu, amlenu, amwisgo, amdoi, amgau, goblygu, arlenu ; cuddio, gorchuddio ; cofleidio ; amglymu, plethu.
- Infoliate, un-ffö'-li-et, *v. a.* dalenu, deilio, deiliannu.
- Inform, un-form', *v.* hysbysu ; cyfarwyddo ; dysgu ; mynegi, traethu ; achwyn ; bywiogi :—*a.* dilun, aflun-iaidd, hagr.
- Informal, un-ffor'-myl, *a.* anffurfiol, afreolaidd, annhrefnus ; annefodus ; answyddogol ; anaddas.
- Informant, un-ffor'-mynt, *s.* hysbyswr, mynegwr, hyfforddwr ; achwynwr.
- Information, un-ffor-me'-shyn, *s.* hysbysrwydd, hysbysiad, gwybodaeth, copinod, mynegiad, cyfarwyddyd, hyfforddiant ; hanes ; dysg, athrawiaeth ; cyhuddiad, achwyn.
- Informative, un-ffor'-my-tuf, *a.* bywiocaol, bywhaol, bywiocäus.
- Informidable, un-ffor'-mu-dybl, *a.* anarswydlawn, anarswydol.
- Informity, un-ffor'-mu-ti, *s.* anffurfioldeb, afreolaeth, annhrefn ; affunieiddiwch.
- Infract, un-ffract', *v. a.* tori, dryllio ; troseddu.
- Infraction, un-ffrac'-shyn, *s.* toriad, breg ; troseddiad ; mandoriad.
- Infrangible, un-ffran'-ji-bl, *a.* annhoradwy ; anorfol, cryf.
- Infrequent, un-ffri'-cwent, *a.* anfynych ; anaml ; ambell ; anghyffredin.
- Infrigidate, un-ffrij'-i-det, *v. a.* oeri, sferu.
- Infringe, un-ffrunj', *v. a.* tori, dryllio ; troseddu ; dirymu ; cwtogi ; gormesu.
- Infuriate, un-ffiw'-ri-et, *a.* ffyrnig, cynddeiriog, gorwyllt, lliidiog, gorphwyllog :—*v. a.* cynddeiriogi, lliidio, cyffroi, gwylltio.
- Infuse, un-ffiwz', *v. a.* mwydo, trwytho, sicio ; ynfenu ; tywallt i mewn.
- Infusible, un-ffiw'-zu-bl, *a.* ynferadwy ; mwydadwy, siciadwy, hydywallt ; anrhoddadwy, anhwydaudd.
- Infusion, un-ffiw'-zhyn, *s.* tywalltiad ; awgrym, yngan ; ynferiad ; mwydiad, siciad, cymhlethiad ; mwydlyn, trwyth.
- Infuse, un-ffiw'-suf, *a.* cynneddfol ; trwythol, mwydol ; ynferol.
- Ingathering, un-gadd'-yr-ing, *s.* cynnull, cynauaf ; amser cynnull.
- Ingenerate, un-jen'-yr-et, *v. a.* greddfau, mewn-genedlu :—*a.* greddfol, cynhenid, naturiol.
- Ingenious, un-jö'-ni-yz, *a.* manylwch, cywrain, celfydd, athrylithgar, dyfeisgar, medrus ; synwryol, dealgar ;

cymhwys, cymhen; ystrywgar, cyfrwys.
 Ingenuity, un-ji-niw'-i-ti, *s.* manyldeb, cywreinarwydd, hyfedredd; athrylith, llafanedd.
 Ingenuous, un-jen'-iw-yz, *a.* didwyll, gonest, diffuant, rhydd, clau, diragrith; haelwych; boneddig, gwych, diledryw; breiniol.
 Ingenuousness, un-jen'-iw-yz-nes, *s.* tegwch. didueddwydd; haelwychder, boneddigrwydd.
 Ingest, un-jest', *v. a.* tafu i'r cylla; rhoi yn y cylla; cludo i mewn.
 Inglorious, un-glō'-ri-yz, *a.* anogoneddus, anghlodfawr, dianrhydeddus; gwarthus, cywilyddus; gwael, isel, sal, dirmygus.
 Ingot, ing'-gyt, *s.* clumpl, talp, llafn.
 Ingrate, un-gret', *a.* anniolchgar, diddiolch; anhyfryd, anfodds:—*s.* anniolchlyn, anniolchwas.
 Ingratiate, un-grē'-shi-et, *v. a.* ennill bodd; cymmeradwyo.
 Ingratitude, un-grat'-ti-tiwd, *s.* anniolchgarwch.
 Ingredient, yn-grē'-di-ent, *s.* cyffyr; defnydd; mysgran, cymmysgran.
 Ingress, ing'-gres, *s.* dyfodfa, trydded.
 Ingulf, un-gylf', *v. a.* llyngcu=*Engulf*.
 Ingurgitate, un-gyr'-ji-tet, *v.* trafylngcu, rheiblyngcu; gwangcio; ymddyfoli.
 Ingustable, un-gys'-tybl, *a.* anhybrawf, ammhrofadwy, anchwaethadwy.
 Inhabit, un-hab'-ut, *v.* preswylio, cyfanreddu, trigiannu, cartrefu; byw, bod.
 Inhabitable, un-hab'-i-tybl, *a.* cyfanreddol, preswyladwy.
 Inhabitant, un-hab'-i-tynt, *s.* trigiannydd, preswylwr, anneddwr, preseddwr; preswylferch.
 Inhabitation, un-hab-i-te'-shyn, *s.* preswylad, trigrant; preswylfod, arosfa; poblogaeth.
 Inhalation, un-ha-le'-shyn, *s.* ymanadliad.
 Inhale, un-hel', *v. a.* anadlu, atanadlu, iddanadlu; tynu i mewn.
 Inharmonious, un-har-mō'-ni-yz, *a.* anghynganeddol, digynganedd, anghydeiniol, anghyssain, anghyd-gordiol, anghydlaais, dianaw; anghyson, anghytun.
 Inhere, un-hē'yr, *v. n.* ymlynu, greddfdu, dwfnlynu.
 Inherence, un-hē'-rens, *s.* ymlyniad; cynhenidrwydd; ymreddfiad; ymfodolaeth.

Inherent, un-hi'-rent, *a.* cynhenid, cynnwynol, naturiol; yn nglŷn; elwig.
 Inherit, un-her'-ut, *v.* etifeddu; meddiannu, perchenogi; tattrefu.
 Inheritable, un-her'-i-tybl, *a.* etifeddadwy; etifeddol, treftadol, tattrefol.
 Inheritance, un-her'-i-tyns, *s.* etifeddiaeth, treftadaeth, priodoriaeth; meddiant; rhandir.
 Inheritor, un-her'-i-tyr, *s.* etifedd.
 Inheritor, un-her'-i-tyr, *s.* etifedd.
 Inheritor, un-her'-i-tyr, *s.* etifedd.
 Inheritor, un-her'-i-tyr, *s.* etifedd.
 Inhibit, un-hub'-ut, *v. a.* gwahardd, gwarafun, luddias, rhwystro, attal, llesteirio.
 Inhospitable, un-hos'-pu-tybl, *a.* anlettygar, anhywest, anghroesawus; anhynaws, anfwyn.
 Inhospitability, un-hos-pu-tal'-i-ti, *s.* anlettygarwch, aflettyaeth, anarfoll, anysbydwriaeth.
 Inhuman, un-hiw'-myn, *a.* annynol, creulawn, anwar, milain, anhynaws.
 Inhumanity, un-hiw-man'-i-ti, *s.* annynoliaeth, ffyrnigrwydd, cieidd-dra, dywalder.
 Inhumate, un-hiw'-met, } *v. a.* claddu,
 Inhume, un-hiwm', } daiaru.
 Inimaginable, un-um-maj'-i-nybl, *a.* annychymmygadwy, anhydub.
 Inimical, un-um'-i-cyl, *a.* gelynyol, gwrthwynebus, cas; niweidiol; angharedig; croes.
 Inimitable, un-um'-i-tybl, *a.* anefelychadwy, dihefelydd, annynwarddwy, annilynol, anieflyddadwy; digymhar, rhagorol.
 Iniquitous, un-ic'-wi-tyz, *a.* anghyfiawn, anunion, anonest, anwir, cam; drwg, anfad.
 Iniquity, un-ic'-wi-ti, *s.* anghyfiawnder, anwiredd, trawster, pechod, trosedd, camdwy.
 Irritable, un-ur'-ru-tybl, *a.* anhyddig, diddig, anhylid.
 Initial, un-ish'-yl, *a.* dechreuol; cychwynol, egwyddorol; cyntaf:—*s.* cynlythyren, blaenlythyren, rhaglythyren:—*pl.* dechreuolion.
 Initiate, un-ish'-i-et, *v.* egwyddori, addysgu, hyfforddi; dechreu; cyssegru; caniatáu:—*a.* anarferedig, newydd; dechreuedig; egwyddoredig.
 Initiation, un-ish-i-e'-shyn, *s.* egwyddoriad, cynwyddoriad, dechreuad, cychwyniad.
 Inject, un-ject', *v. a.* tafu, bwrw, idd-yru; chwistrellu; gyru i mewn.

- Injection, un-jec'-shyn, *s.* iddyriad; chwistrellwy, rhefolch; llenwad; chwistrelliad i mewn.
- Injudicable, un-jw'-di-cybl, *a.* anfarnadwy.
- Injudicial, un-jw'-di-cyl, *a.* anghyfreithiol.
- Injudicious, un-jw'-dish'-yz, *a.* annoeth, ansynwyrol, anghall; diamcan, difarn.
- Injunction, un-jyngc'-shyn, *s.* gorchymyn, arch, cymmyniad, gosodiad; gwaharddeb.
- Injure, un'-jur, *v. a.* niweidio, drygu, colledu; briwio, anafu; dolurio, poeni; sarhau; tori; troseddu; gwaethygu.
- Injurious, un-jw'-ri-yz, *a.* niweidiol, argyweddus, camweddus, anghyfiawn, traws; sarhâus, enllibus; dryglawn.
- Injury, un'-jyr-i, *s.* niwed, camwri, colled, erniwed; anghyfiawnder; sarhâd; blinder; drwg.
- Injustice, un-jys'-tus, *s.* anghyfiawnder, camwedd, annuwioldeb; anghyfraith.
- Ink, ingc, *s.* du, du ysgrifenu, ingc, ysgrifwy, ysgrifyn:—*v. a.* duo; ingcio.
- Inkhorn, ingc'-horn, *s.* corn du, corn du ysgrifenu, ingegorn, corn ingc.
- Inkling, ingc'-ling, *s.* lledhysbysrwydd, arwydd, awgrym, amnaid, lledfynag, crybwyl, eddrin, gorybydd, ingeling; tuedd.
- Inkstand, ingc'-stynd, *s.* ysgrifensaf, ysgriflestr, llestr ingc, ingcsaf.
- Inky, ingc'-i, *a.* du, duog, ingcaidd.
- Inlace, un-les', *v. a.* ynsideru.
- Inlaid, un-led', *p. p.* amryddarn, amrywaith; brithosodedig; halgoediog, arddalenog.
- Inland, un'-land, *a.* canoldirog, diarfor, ynnhiriog, anarfor, perfeddwladol; cymmherfedd; mewnlol; cartrefol:—*s.* canoldir, perfedd-dir, perfeddwlad, anarfordir, angorwlad.
- Inlaw, un-lo', *v. a.* dadanaddwyno.
- Inlay, un-le', *v. a.* arwynebu, arddalenu, hulgoedio; brithosod, ynsodi; brithweithio, amryfalu.
- Inlay, un'-le, *s.* yr ynsawd.
- Inlet, un'-let, *s.* geneu, ceg, geneuffordd, ffrydle, dyfrfa, gollyngfa; dyfodfa; camlas, cilfach, ebach.
- Inlock, un-loc', *v. a.* cloi i mewn; cloi un peth gyda'r llall.
- Inmate, un'-met, *s.* cytty, cyttywr, llettywr, gwestai, hydafog; trigianydd:—*a.* cyttyol, cytty, cyttyddol, bydafog; trigianydd.
- Inmost, un'-most, *a.* cymherfeddaf; dirgel; dirgelaf; dyfnaf.
- Inn, un, *s.* gwesty, gwestyfa, lletty, llettyfa, tafarn, gwest, ostl, ostri, In:—*v.* llettya, tuo; cymmeryd lletty.
- Innate, un'-net, *a.* cynhenid, cynwynol, greddfoll, naturiol, anianol, mewnlol; ardyfol.
- Innavigable, un-naf'-i-gybl, *a.* anfordwyol, anfordwyadwy, anforiadwy.
- Inner, un'-nyr, *a.* tufewnol, mewnlol; nes i mewn; oddi fewn; dirgelach.
- Innermost, un'-nyr-möst, *a.* nesaf i mewn; cymherfeddaf; dirgelaf; dyfnaf.
- Innerve, un-nyrf', *v. a.* cryfhau, grymuso, nerthu, gwrygio, arialu.
- Innholder, un-höl'-dyr, *s.* tafarnwr, gwestywr, ostriwr.
- Innocence, un'-ö-sens, *s.* diniweidrwydd, gwiriondeb, purdeb, glendid, cleuder.
- Innocent, un'-ö-sent, *a.* diniwed, gwirion, diddrwg, dieuog, dinam, glân; pur; cyfreithlawn:—*s.* gwirion, gwirioniad.
- Innocuous, un-noc'-iw-yz, *a.* diniwed, diddrwg, diberygl, anniweidiol.
- Innovate, un'-ö-fet, *v.* newyddu, newyddiannu, newyddlunio; newid defod; cyfnewid.
- Innovation, un-nö-fe'-shyn, *s.* newyddiant, newyddiad; arfer newydd, newyddbeth.
- Innoxious, un-noc'-shyz, *a.* diniwed, diddrwg, diadwyth; anheintus.
- Innuendo, un-iw-en'-dö, *s.* awgrym, amnaid, lledhysbysiad, byrson, crybwyl.
- Innumerable, un-niw'-myr-ybl, *a.* aneirif, afrifed, annifeiriol, dirif.
- Inobservable, un-ob-zyr'-fybl, *a.* anweladwy; annodadwy, anhynod.
- Inobtrusive, un-ob-trw'-suf, *a.* anymwthgar.
- Inoculate, un-oc'-iw-let, *v.* impio, bywullu, llygadimpio; heintimpio.
- Inodorous, un-ö-dö-ryz, *a.* disawr, ansawrus, diarogl.
- Inoffensive, un-off-en'-suf, *a.* didramgwydd; diniwed, diddrwg; anwrthwynebus.
- Inofficial, un-off-ish'-yl, *a.* answyddol.
- Inofficious, un-off-ish'-yz, *a.* anghymwynasgar; anfoesgar; angharedig; anymyrgar; anofalus.
- Inopportune, un-op'-pör-tiwn, *a.* anghyflêus; anamserol, amhrydlawn; anghyfadwas; diegwyl, diadeg.

- Inoppressive, un-op-pres'-suf, *a.* anormesol, anorthrymus, anormeilus.
- Inordinate, un-or'-di-net, *a.* afreolus, aflywodraethus; anghymmedrol, trachwantus, gormodol, dirraith; tra, rhy.
- Inorganic, un-or-gan'-ic, *a.* anghyfluniol, ammheiriannol, anernigol, digyfansawdd, anofferynol, anghrethol.
- Inquest, ing'-cwest, *s.* ymofyniad, ymchwiliad, holedigaeth, ymgais; rheithymchwil; rheithwyr; rheuth, profraith, trengholiad.
- Inquire, un-cwei'-yr, *v.* ymofyn, holi, ceisio, chwilio, ymorol, ymgeisio, ymgynghori.
- Inquiry, un-cwei'-ri, *s.* ymofyniad, ymchwiliad, ymorol, gofyniad.
- Inquisition, un-cwi-zish'-yn, *s.* ymofyniad, archwiliad, holedigaeth, trychwilid; rheithfarn, dedfryd, profraith; chwilylys, chwilyls, chwiliadlys, holiadlys.
- Inquisitive, un-cwuz'-i-tuf, *a.* ymofyngar, ymchwilgar, chwilyfrydig:—*s.* ymofynwr, chwilgarwr.
- Inquisitor, un-cwuz'-i-tyr, *s.* ymofynwr, holiedydd; chwilyswr.
- Inquisitorial, un-cwuz-i-tö'-ri-yl, *a.* ymofynol; chwilysol; trawsfarnol.
- Inrail, un-re'l, *v. a.* amgledru, amreilio.
- Inroad, un'-röd, *s.* ymgyrch, rhuthr, ymosodiad; rhyfelgyrch; gormes, trais.
- Insalubrious, un-sa-liw'-bri-yz, *a.* afiach.
- Insalutary, un-sal'-iw-tyr-i, *a.* afiach; anniogel.
- Insane, un-sen', *a.* gorphwyllog, gwallgof, ammhwylllog, lledfrydig; penwan, syfrdan.
- Insanity, un-san'-i-ti, *s.* gwallgofrwydd, gorphwyll, ymfydrwydd, ammhwyll.
- Insatiable, un-se'-shybl, } *a.* anniwall,
 Insatiate, un-se'-shi-et, } annigonol,
 diwala, anniwalladwy; gwangucus, awyddus.
- Insatiety, un-sa-tei'-e-ti, *s.* anniwallrwydd, annigonolrwydd, gwanguc.
- Insaturable, un-sat'-shw-rybl, *a.* anniwalladwy, annigonol, diwala.
- Inscribe, un-screib', *v. a.* arysgrifenu, arysgrifo, ysgythru ar, creifftio; ysgrifenu, argraffu, nodi; cyflwyno.
- Inscription, un-scrip'-shyn, *s.* arysgrifen, craifft, argraff, cerfysgrif; ysgrifen; testyn, senw, enweb; argyflwyniad; anrhegiad.
- Inscrutable, un-scrw'-tybl, *a.* anchwilidawdy, anolrheiniadwy; anhydraidd.
- Insect, un-or'-sect, *s.* trychfil, trychfilyn, trychbryfn, rhilyn, trychednogyn:—*a.* trychfilaid; bychan, dirmygedig.
- Insection, un-sec'-shyn, *s.* trychiad, toriad, gorthoriad, trwch, tor.
- Insecure, un-si-ciw'-yr, *a.* anniogel, ansicr, annilys.
- Insecurity, un-si-ciw'-ri-ti, *s.* anniogelwch, ansicrwydd; perygl.
- Insensible, un-sen-su-bl, *a.* dideimlad, annheimladwy, diymglywed; anhywel, annirnadwy; disynwyr; graddol.
- Inseparable, un-sep'-yr-ybl, *a.* anwahanadwy, anysgaradwy, anesgarol; anhyran.
- Insert, un-syr', *v. a.* rhoddi i mewn; doddi yn; impio; seidio, ynddodi, ynsodi; gosod, doddi.
- Insertion, un-syr'-shyn, *s.* rhoddiad i mewn; seidiad, ynddodiad; impiad; gorymddwyn; said.
- Inset, un-set', *v. a.* ynddodi, ynsodi, gosod, sodi, planu:—*s.* ynddodiad; nod mewn nod.
- Inshaded, un-she'-ded, *a.* cysgodog.
- Inshelter, un-she'-tyr, *v. a.* cysgodi.
- Inshrine, un-shrein', *v. a.* creirio; creirgellu, tlysgellu, ysgrinio, coffri.
- Inside, un'-seid, *s.* tu mewn, y rhan fewnol; ceudod; gwely.
- Insidious, un-sud'-i-yz, *a.* dichellgar, twyllodrus, bradwrus, cyfrwys, bachellgar.
- Insight, un'-seit, *s.* edrychiad i mewn; cyfarwyddydd, medrusedd, tryolygiad.
- Insignia, un-sug'-ni-y, *s. pl.* arwyddnodau, rhagornodau; arwyddion anrhydedd.
- Insignificance, un-sug-niff'-i-cyns, *s.* anystyr, anarwyddocâd, annefnydd, ysgafnder; gwagsawrwydd; oferedd, anfuiddoler; gwaelder.
- Insignificant, un-sug-niff'-i-cynt, *a.* dystyr, dibwyll; dibwys; ansylweddol, diddefnydd; ofer, anolo, gwagsaw; diles; dirmygedig.
- Insincere, un-sun-s'yr, *a.* anghywir, rhagrithiol, ffugiol, anffyddlawn, ffals.
- Insincerity, un-sun-ser'-i-ti, *s.* anghywirdeb, ffuantrwydd, ffug, twyll; anhegwch.
- Insinuant, un-sun'-iw-ant, *a.* hudfodd-

- iol; gwenieithus; lledfynegol; cyfrwys; ensyniol.
- Insinuate**, un-sun'-iw-et, *v.* lledawgrymu, lledarwyddo, lledfynegi, gogrybwyll, gogyfeirio, awgrymu, lledgynnyg, ensynio; ymlithro, ymlusgo; ennill yn raddol; gwenieithio, truthio, sidanu, hufdoddio; dyhidlo i mewn; ynferu.
- Insinuation**, un-sun-iw-e'-shyn, *s.* ymlithriad i mewn; lledawgrymiad, lledhysbysiad, gogrybwylliad; awgrym, lledfynag, annaid; lledsen, lledogan; trawsdrem; truthwenieithiad.
- Inspid**, un-sup'-ud, *a.* diflas, merf, anfflasus, merfaidd, ofaidd; marwaidd, ffladr; mall.
- Inspidity**, un-su-pud'-i-ti, *s.* diflasrwydd, merfedd, adffas, ofeiddrwydd, mallder.
- Insist**, un-sust', *v. n.* sefyll, gorphwys, pwyso; arsefyll, ymddibynnu: — *To insist on* = aros ar; cadw at; pwyso ar; haeru, hōni, mynu; dirgynhell; symbylu.
- Insnares**, un-sne'-yr, *v. a.* maglu, rhwydo, bachellu.
- Insobriety**, un-sō-brei'-e-ti, *s.* ansobriwydd, ansyberi, anghymmedroldeb, meddwod.
- Insociable**, un-sō'-shybl, *a.* anghyfeillgar, digyfeillach, anghymrodol; anhynaws.
- Isolate**, un'-sō-let, *v. a.* heulo, heuliadu; heulysychu, heulganu.
- Insolence**, un'-sō-lens, *s.* traha, trahauder, trawsfalchder, gorhydri, rhyfyg, rhydres; haerllugrwydd, herder; anfoes.
- Insolent**, un-sō'-lent, *a.* trahäus, taiog, balch, digywilydd, ffrom.
- Insolubility**, un-sō-lud'-i-ti, *s.* annirfingder, anfferder, ansadrwydd; gwendid.
- Insoluble**, un-sol'-iwbl, *a.* annhoddadwy; anhylif; annatodadwy; dyrys; anegluradwy.
- Insolvable**, un-sol'-fybl, *a.* annatodadwy; anegluradwy; annhaladwy, anhydral.
- Insolvency**, un-sol'-fen-si, *s.* talfeth, methdaliad, toredigaeth.
- Insolvent**, un-sol'-fent, *a.* methdalus, talfethol; toredig: — *s.* methdalwr, talfethwr, toredigwr.
- Insomuch**, un-sō-myc, *ad.* yn gymmaint; gan, can; hyd oni; fel, mal, fal, nes, fel ag; i'r fath raddau.
- Inspect**, un-spect', *v. a.* edrych i mewn; chwilio, bwrw golwg ar; arolygu, goruchwylio; edrych dros.
- Inspection**, un-spec'-shyn, *s.* edrychiad i mewn; chwiliad, arolygiaeth, llywodraeth; gwyliadwriaeth; darswyddiad.
- Inspector**, un-spec'-tyr, *s.* arolygwr, goruchwyliwr, golygiedydd, chwiliedydd; ymwelwr; darswyddwr; peithiedydd.
- Inspersion**, un-spyr'-shyn, *s.* taenelliad.
- Inspiration**, un-spu-re'-shyn, *s.* anadliad, anadliad i mewn; ysbrydoliaeth.
- Inspire**, un-spei'-yr, *v. a.* anadlu; tynu yr anad i mewn; ysbrydoli; awchu, cynhyrfu.
- Inspirit**, un-spur'-ut, *v. a.* bywiogi, bywiocâu, eidiogi, arialu; ysbrydoli; yniö, gwrygio.
- Insipation**, un-spu-se'-shyn, *s.* tewychiad, tewhäd.
- Instability**, un-sty-bul'-i-ti, *s.* ansefydlogrwydd, anwadalwch; cyfnewidioldeb.
- Instable**, un-ste'-bl, *a.* ansefydlog, gwamal, ansad, syfal; cyfnewidiol.
- Install**, un-stol', *v. a.* ystelio, gorseddu; urddo, graddio, sefydlu.
- Installation**, un-stol-le'-shyn, *s.* gorsedd-iad; urddiad, graddiad; sefydlu.
- Installment**, un-stol'-ment, *s.* gorsedd-iad, ystelfa; rhandal, cyfrandal; rhandaliad; dogn, rhan, cyfran.
- Instance**, un'-styns, *s.* anghraiff, enghraiff, engraff, cynllun, siampl, esiampl; cais, gofyn, eiriolaeth, taerineb, deisyfiad, dymuniad, amser, pryd, achlysur, achos; crybwyll: — *v.* rhoddi engraff; rhoi cynllun; son am, crybwyll, enwi; profi trwy engraff.
- Instant**, un'-stynt, *a.* presennol, digyfrwng, diattreg, diannod, disymmwth, ebrwydd; cyfagos, gerllaw; taer, dyfal, difrifol; rhe, cyfisol: — *s.* muniyd, meityn, eiliad, cythrym, cyttrym, chwipyn, haiach; amrentyn; pryd, amser; y mis hwn.
- Instantaneous**, un-styn-te'-ni-yz, *a.* disymmwth, diattreg, disyfyd, cythrymol, chwap.
- Instantaneously**, un-styn-te'-ni-yz-li, *ad.* yn ddisymmwth; mewn muniyd; mewn eiliad; ar darawiad amrant; ar unwaith; chwap; yn ebrwydd; haiach.
- Instantly**, un'-stynt-li, *ad.* yn ddisym-

- mwth; yn y man; toc=*Instantaneously*.
- Instate, un-stet', *v. a.* gosod, sefydlu; urddosod, graddosod.
- Instead, un-sted', *ad. prp.* yn lle; tros, dros.
- Instep, un'-step, *s.* mwnwgl troed, ar-sang.
- Instigate, un'-sti-get, *v. a.* cynhyrfu, annog, cyffroi, cymhell, annos, hysio.
- Instigation, un-sti-ge'-shyn, *s.* cynhyrfiad, annogaeth, ystuniad, ysmudiad, ergyriad, diriad.
- Instill, un-stul', *v. a.* defnyddu i mewn; ynferu; athrawiaethu, addysgu, egwyddori.
- Instillation, un-stul-le'-shyn, *s.* tywalltiad i mewn bob yn ddefnyn; ynferiad, deigryniad; athrawiaeth, hyfforddiad.
- Instillment, un-stul'-ment, *s.* defnyniad.
- Instinct, un'-stinget, *s.* greddf, cyingreddf, anian, cynneddf, anianwyn, cyffrawd, cynhyrfiad; ysbrydoliaeth: —*a.* cynhyrffedig, cyffroedig; bywiog, hawntus.
- Instinctive, un-stinget'-tuf, *a.* greddfoll, anianol.
- Institute, un'-sti-tiwt, *v. a.* gosod, sefydlu; deddfu, rheithio, ordeinio, ap-pwyntio; egwyddori, dysgu; gwneuthur; sylfaenu, selio; dechreu, cychwyn: —*s.* deddf, cynraith, rhaith; gosodiad, deddfawd; defod; egwyddor, arwireb, llyfr egwyddorion; sefydliad; cymdeithas.
- Institution, un-sti-tiwt'-shyn, *s.* sefydliad, gosodiad, trefniad; addysgiad, hyfforddiad, dysgeidiaeth; deddfiad, rheithiad; deddf; cymmeradwyad.
- Instop, un-stop', *v. a.* attal; cau; sicrhau. [edig.]
- Instratified, un-strat'-i-ffeid, *a.* ynhaen.
- Instruct, un-stryct', *v. a.* addysgu, hyfforddi, egwyddori, athrawiaethu; trawiadu; cyfarwyddo, hysbysu, gorchymyn.
- Instruction, un-stryc'-shyn, *s.* addysg, dysgeidiaeth, athrawiaeth; hyfforddiad, egwyddoriad; gorchymyn.
- Instructive, un-stryc'-tuf, *a.* addysgiadol, athrawus, hydrow.
- Instructor, un-stryc'-tyr, *s.* addysgwyr, dysgawdwr, athraw; cyfarwyddwr, trawiadur.
- Instructress, un-stryc'-tres, *s.* dysgodres, athrawes, dysgawdures.
- Instrument, un'-strw-ment, *s.* offeryn, peiriant, ermig, teclyn, tacl, ceryn, arf, diler, celfyn; dodrefnyn; gweithred, ysgrifen, llythyr.
- Instrumental, un-strw-men'-tyl, *a.* offerynol, peiriannol, ermigol; defnyddiol; gwasanaethgar, buddiol.
- Insubjection, un-syb-jec'-shyn, *s.* anarostyngiad. [sylweddol.]
- Insubordination, un-syb-or-di-ne'-shyn, *s.* afreolaeth, terfysg; anymostyngiad. [sylweddol.]
- Insubstantial, un-syb-stan'-shyl, *a.* an-insufferable, un-syff'-yr-ybl, *a.* anoddefadwy, annoddefol; atgas.
- Insufficiency, un-sy-ffish'-en-si, *s.* an-nigonoldeb; anallu; diffyg.
- Insufficient, un-sy-ffish'-ent, *a.* annigonol; analluog; anghyfraidd, anghyffaddas. [yswr.]
- Insular, un'-siw-lyr, *a.* ynysol: —*s.* yn-insulate, un'-siw-let, *v. a.* neillduo, gwahanddodi, unigo, manadu; ynysu: —*a.* ar ei ben ei hun; neillduedig, unigedig.
- Insulator, un'-siw-le-tyr, *s.* monadur; anarweinydd; anhrydar.
- Insult, un'-sylv', *s.* sarhad, dirmyg, traha, dirdra, argyweddi, cawdd, coddiant, sar; rhyfyg; rhuthr, ymgrych.
- Insult, un'-sylv', *v.* sarhau, ammharchu, dirmygu, tremygu, difriö; diystyru; gwawdio, gwatwar; ymruthro ar.
- Insuperability, un-siw-pyr-a-bul'-i-ti, *s.* anorfodedd, anorchfygolrwydd.
- Insuperable, un-siw'-pyr-ybl, *a.* anorfod, anorchfygol, anoresgynol; anesgorol.
- Insupportable, un-syp-pör'-tybl, *a.* anoddefol, annoddefol, anoddefadwy; gorthrwn.
- Insuppressible, un-syp-pres'-su-bl, *a.* anattladwy, afluddiadwy; anghuddiadwy.
- Insurance, un-shw'-ryns, *s.* diogeliad, digollediad, yswiriant; yswirdal, llog digolledu.
- Insure, un-shw'-yr, *v.* diogelu, digolledu, yswirio, gwarantu.
- Insurgent, un-syr'-jent, *a.* terfysgol, terfysgelyd, gwrthryfelgar: —*s.* terfysgwyr, gwrthryfelwyr; ymgodwyr, gwrthodwyr.
- Insurmountable, un-syr-mown'-tybl, *a.* anorfod, anorchfygadwy, anhrechadwy.
- Insurrection, un-syr-rec'-shyn, *s.* terfysg, gwrthryfel, cyffro, gwrthryn, trawen-iad.

- Insusceptible, un-sys-sep'-tu-bl, *a.* annerbyniadwy; aneffeithiol, anysgogol.
- Intangible, un-tan'-ji-bl, *a.* annheimpladwy, anhydeiml, anghyfyrdadwy.
- Intastable, un-te'-stybl, *a.* anchwaethwy, anflasadwy, amhrofodwy.
- Integer, un'-ti-jyr, *s.* cyfanrif, sym; *y* cyfan:—*pl.* cyfanion, symion, cyfanrifau.
- Integral, un'-ti-gral, *a.* cyfan, cyfa, cyfoll, didwn, symiol; cyflawn, llwyr, perffaith:—*s.* *y* cyfan, *y* cyfoll, cyfanbeth, cydol.
- Integrate, un'-ti-gret, *v. a.* cyfanu; adferu, adnewyddu; perffeithio.
- Integrity, un-teg'-ri-ti, *s.* cyfander; uniondeb, cywirdeb, gonestrwydd, purdeb, cleuder, addwynder, cyfiawnder, symledd.
- Integument, un-teg'-iw-ment, *s.* gwisg, gorchudd, tuded, twyg, croenen, pilionen.
- Intellect, un'-tel-ect, *s.* deall, deallt, dealltwriaeth, dyall, dallt, synwyr; llafanad, menwyd, menw, elfryd.
- Intellection, un-tel-lec'-shyn, *s.* dealliad, dyalltiad, llafaniad, menwad; gwybodaeth.
- Intellective, un-tel-lec'-tuf, *a.* deallol, deallus; llafanol, menwydus; gwybyddol.
- Intellectual, un-tel-lec'-ciw-yl, *a.* deallol, dyallus, dealltol; synwyr, meddyliol:—*s.* deall, synwyr.
- Intelligence, un-tel'-i-jens, *s.* deall, dealltwriaeth; menwyd; gwybodaeth; pwyll; hysbysrwydd, copinod, hanes, addysg; cystlynedd; elæeth, bod deallog, el, ener, elen, elfod, angel, ysbrydiad, gwybedydd.
- Intelligencer, un-tel'-i-jen-syr, *s.* newyddwr, hanesydd, hysbyswr, copinod-ydd; newyddiadur; ysbwr.
- Intelligent, un-tel'-i-jent, *a.* deallus, dealltwrus, synwyr, gwybodus, cywraint.
- Intelligible, un-tel'-i-ji-bl, *a.* dealladwy, hyddallt, hyddeall; eglur.
- Intemperament, un-tem'-pyr-y-ment, *s.* anghymmer, anghymmyr, anardymmer.
- Intemperance, un-tem'-pyr-yns, *s.* anghymmedroldeb; ansobrwydd; anghymmer.
- Intemperate, un-tem'-pyr-et, *a.* anghymmedrol, anghymmesur; anghymmerus; meddw, glwth; nwydwyllt; annhirion; garw.
- Intemperature, un-tem'-pyr-e-gyr, *s.* anghymmeruswydd; anghymmer; anghymmedroldeb; dryganiaeth.
- Intenable, un-ten'-ybl, *a.* anniffynadwy, annaliadwy.
- Intend, un-tend', *v. a.* bwriadu, amcanu, arfaethu; arofynd; meddwl; arfedd, gorfyddu; ewyllysio; estyn; golygu, angerddu, grymuso; lledhyntio.
- Intendancy, un-ten'-den-si, *s.* arolygiaeth, golygiad, goruchwyliaeth, talæath.
- Intendant, un-tend'-dynt, *a.* arolygwr, golygydd, goruchwylwr.
- Intendment, un-tend'-ment, *s.* bwriad, amcan, arfeddydd, cyngyd; meddwl, ystyr, tuedd, gofeg, pwyll.
- Intense, un-tens', *a.* angerddol, terwyn, tanbaid; dwys, mawr, tost; tyn, graid, awchus, gwrdd, egniol; eithaf; tra-, dir-.
- Intensity, un-ten'-si-ti, *s.* angerddoldeb, terwynder; dirfawredd; athostedd; hawnid; ainge; tynder; yngder.
- Intensive, un-ten'-suf, *a.* tynadwy, estynadwy; tynhaol; cryfhaol; dyfal, ystig, dwys.
- Intent, un-ten't', *a.* dyfal, diwyd, astud, prysur, llwyrfyddig:—*s.* bwriad, amcan, bryd, arfaeth, arofynd, lletynt; tuedd, gogwydd, ystyr, arwyddocad.
- Intention, un-ten'-shyn, *s.* bwriad, meddwl, bryd, dyben, arfaeth, cyngyd, goddeu; tuedd, gofeg; amcaniad; dirfoldeb; dwysder; ystyr.
- Intentional, un-ten'-shyn-yl, *a.* bwriadol, amcanol, arfaethol; amcanedig; cyngydus.
- Intentive, un-ten'-tuf, *a.* dyfal, astud, gofalus, dichlyn; prydlawn; dwys.
- Intentness, un-tent'-nes, *s.* dyfalwch, astudrwydd, eorthedd, brydlonedd.
- Inter, un'-tyr, *prf.* rhwng, rhyng, cyfrwng; ym mysg, plith; cyd-, cym-, cym.
- Inter, un-tyr', *v. a.* claddu, daiaru.
- Intercede, un-tyr'-sid', *v. n.* cyfyngu; eiriol, erfyn; rhyngu; ymyryd; eiriach.
- Intercedent, un-tyr'-sî-dent, *a.* cyfyngedigol, rhyngol; eiriolus, erfyniol.
- Intercept, un-tyr'-sept', *v. a.* rhagflaenu, rhwystro, lluddio, attal, diebrydu.
- Interception, un-tyr'-sep'-shyn, *s.* rhagod, rhagddaliad, rhagflaeniad, attaliad.
- Intercession, un-tyr'-sesh'-yn, *s.* cyfyngiad, cyfyngdod, eiriolaeth, ymbil, deisyfiad.

- Intercessor, un-tyr-ses'-yr, *s.* cyfryngwr; eiriolwr; canolydd.
- Interchain, un-tyr-çen', *v. a.* cydgadwyno.
- Interchange, un-tyr-çenj', *v. a.* cyfnewid, cydgyfnewid.
- Interchange, un'-tyr-çenj, *s.* cyfnewid, ymnewid, cylchgyfnewid; cyfnewidiad.
- Interchangeable, un-tyr-çen'-jybl, *a.* cydgyfnewidiol, cylchgyfnewidiol.
- Intercommunicate, un-tyr-com-miw'-nicet, *v. n.* ymgyfeillachu, cydgyfdeithasu, ymgyfranogi, cydgyfmmuno.
- Intercommunity, un-tyr-cym-miw'-ni-ti, *s.* cydgyfundod, cydgyfmmundeb; cydgyfranogiad; cydfeddiant.
- Intercourse, un'-tyr-cörs, *s.* cyweithas, ymgystlwn, trafodiaeth, ymgyfeillach, cyfathrach, cymdeithas, cyfeillach, cysmeriaeth, masnach, trafndiaeth, maeriaeth, ymdrin; rhyngrediad.
- Interest, un'-tyr-est, *s.* budd, lles, elw, ced, cyfles, mael, buddred, llesád; llog; rhan, cyfran; hawl, braint; awdurdod, cymmeriad; dylanwad; dyddordeb, ymdawr.
- Interesting, un-tyr-es'-ting, *a.* dyddorol, dyddorus, dorus; pwysfawr; ennillgar; boddhaol; buddiol.
- Interfere, un-tyr-ff'yr, *v. n.* cyfryngu; ymyryd, ymhel; gwrthdaro; gwrthwynebu; anghytuno, croesi; ymwithio.
- Interference, un-tyr-ff'-rens, *s.* ymyraeth, ymheliad; cyfryngiad; anghytundeb.
- Interfused, un-tyr-ffiwzd', *a.* rhyngdoddedig, rhyngdywalltog, rhyngdaenedig.
- Interim, un'-tyr-um, *s.* cyfamser, cyfrwng.
- Interior, un-ti'-ri-yr, *a.* mewdol, oddi mewn, tufewdol; ynnhirog; cartrefol:—*s.* tu mewn; canoldir, perfeddwlad, canolbarth.
- Interjacent, un-tyr-je'-sent, *a.* rhyngorweddol; cyfryngol, rhyngol.
- Interject, un-tyr-ject', *v.* taflodi, rhyngdaflu, cyfryngu, rhyngu.
- Interjection, un-tyr-je'-shyn, *s.* taflodiad, rhyngdafliaid, cyfryngdafl, cyfryngiad; ebychiad, ebychair, cyfryngair; taflodigaeth.
- Interjoin, un-tyr-join', *v. a.* cydgyssylltu, cyssylltu; cydymbriodi; cydymgloi.
- Interjunction, un-tyr-jyng'-shyn, *s.* cydgyssylltiad, cyfyngload.
- Interknit, un-tyr-nut', *v. a.* cydwau, cydglymu, cydgyssylltu.
- Interlace, un-tyr-les', *v. a.* cydgyfmysgu, cymhlitho; cyfrestru, cydblethu, cymhlethu, cydweu; rhyngsideru; rhwylo, cyfryngu.
- Interleave, un-tyr-láf', *v. a.* rhyngddalenu.
- Interline, un-tyr-lein', *v. a.* rhynglinellu, rhyngysgrifo, ysgrifenu rhwng y llinellau.
- Interlinear, un-tyr-lun'-i-yr, *a.* rhynglinellog:—*s.* llyfr rhynglinellog, rhynglinell-lyfr.
- Interlineation, un-tyr-lun-i'-e'-shyn, *s.* rhynglinelliad, rhyngysgrifiad.
- Interlink, un-tyr-linge', *v. a.* cydgadwyno, cydrwyo, cyd-ddalenu, cydfachu; cyssylltu.
- Interlocution, un-tyr-lö-ciw'-shyn, *s.* ymddyddan, cydymddyddan, cymddyddan, cydsiarad, ymgom, cynnadedd, cyfyymbwyll, chwedleuaeth, cylafaredd, parhiant, barn gychwedi, rhagbenderfyniad.
- Interlocutory, un-tyr-loc'-iw-tyr-i, *a.* cydymddyddanol, arddysmegol, cylafareddus, ymatebol; cyfryngol; rhagderfynol.
- Interlope, un-tyr-löp', *v. n.* rhyngymyryd; rhagbrynu, rhagachub; rhagafaelu; rhagachub marchnad; rhedfasnachu, rhedfaeliera, treisfasnachu; gormesu, hyruthro, ymyru.
- Interlude, un'-tyr-liwd, *s.* chware cyfrwng, rhyngchwareu, rhyngware; ysmaldodeg, ysmalawd; coegchware, coegware; hud a lledrith.
- Interlunar, un-tyr-liw'-nyr, *a.* rhyngleuadol, rhyngloerol.
- Intermarriage, un-tyr-mar'-rij, *s.* cydbriodas, cydymbriodas.
- Intermeddle, un-tyr-med'-dl, *v. n.* ymyryd, ymyraeth, ymhel; ymgymmysgu, trafodi.
- Intermeddler, un-tyr-med'-lyr, *s.* ymyrwr, rhodreswr, prysurwas.
- Intermedial, un-tyr-mi'-di-yl, } *a.* cyf-
Intermediate, un-tyr-mi'-di-et, } ryngol, cyfryngaidd, canolig, cyfryngedig.
- Intermedium, un-tyr-mi'-di-ym, *s.* cyfrwng; cyfwng, rhwng; cyfryngydd.
- Interment, un-tyr-ment, *s.* claddiad, claddodigaeth; daiariad.
- Interminable, un-tyr-mä'-nybl, *a.* annerfynadwy, diderfyn, didran.
- Intermingle, un-tyr-ming'-gl, *v.* cyd-

- gymmysgu, cydfysgu; plitho, bloffi; ymgymmysgu.
- Intermission, un-tyr-mish'-yn, *s.* dysbaid, ysbeidiad, hamdden, seibiant, tawl, gorphwysiad; anarferiad.
- Intermissive, un-tyr-mus'-suf, *a.* dysbeidiol.
- Intermit, un-tyr-mut', *v.* dysbeidio, peidio; oedi, gohirio; rhwystro, attal.
- Intermittent, un-tyr-mut'-tent, *a.* dysbeidiol, ysbeidiol:—*s.* cryd dysbeidiol, cryd a mwyth.
- Intermix, un-tyr-mics', *v.* cydgymmysgu; cymmysgu; plitho, bloffi; ymgymmysgu.
- Intermixture, un-tyr-mics'-cyr, *s.* cymmysgedd, cydfysgedd, mysgedd, cymmysgiad, plethiant, bloffiad; amrywio-gaeth.
- Intermural, un-tyr-miw'-ryl, *a.* rhyngferiur.
- Internal, un-tyr'-nyl, *a.* mewdol, tu-fewdol, oddi mewn; cartrefol; canol-barthol, gwir.
- International, un-tyr-nash'-yn-yl, *a.* rhwng cenedloedd; rhyngwladwriaethol.
- Internuncio, un-tyr-nyn'-shi-ö, *s.* rhyngnegesydd; cenad rhwng pleidiau; cenad gyfrwng; rhyng-genadydd.
- Interpellation, un-tyr-pel-le'-shyn, *s.* gwys, dyfyn, llythyr dyfyn, gwysiad, galwad; rhwystr, attal; eiriolaeth, ymbil.
- Interplead, un-tyr-plid', *v. n.* rhyngddadleu, rhyngbleidio.
- Interpolate, un-tyr'-pö-let, *v. a.* ffugddodi, geuddodi, ffuglenwi, geufysgu; llygru.
- Interpolation, un-tyr-pö-le'-shyn, *s.* ffugddodiad, geuchwanegiad, geuddawd; llygriad.
- Interpose, un-tyr-pöz', *v.* cyfryngu; rhyngu, dygyfrange; rhyngosod, rhyngddodi; ymyryd; gwahansangu; cynnyg; ymwithio i mewn.
- Interposition, un-tyr-pö-zish'-yn, *s.* cyfryngiad, rhyngosodiad, dygyfrange; ymsang, gwahansang, cyfrwng.
- Interpret, un-tyr'-pret, *v. a.* deongli, dehongli, deongli, esbonio; egluro; lladmeru; cyfieithu; dirnad.
- Interpretation, un-tyr-pri-te'-shyn, *s.* deongliad, dehongliad, esboniad, egluriad; cyfieithiad; dirnadaeth.
- Interpreter, un-tyr'-pri-tyr, *s.* deongliwr, lladmerydd; cyfieithwr; esboniwr; golwst.
- Interregnum, un-tyr-reg'-nym, } *s.*
 Interreign, un-tyr-ren', } rhyngdeyrnasiad, rhyngdeyrnedd; cyfrwng dau deyrn.
- Interrogate, un-tyr'-rö-get, *v.* holi, gofyn, ymholi &; posio.
- Interrogation, un-tyr-rö-ge'-shyn, *s.* holiad, holedigaeth, hawl, gofyuiad; holiath; holnod, gofynod, gofyneb = ?
- Interrogative, un-tyr-rog'-y-tuf, *a.* holiadol, ymfynol:—*s.* holiedydd, holiadair, holiadeb; rhagenw holiadol.
- Interrogatory, un-tyr-rog'-y-tyr-i, *s.* holiad, arholiad, gofyniad:—*a.* holiadol, gofyniadol.
- Interrupt, un-tyr-rupt', *v. a.* rhwystro, lluddias, llestair, attal, rhanu, anghyfuno; symmythu; aflonydd; trawsattal; godori:—*a.* toredig, godoredig, rhwystredig.
- Interruption, un-tyr-ryp'-shyn, *s.* rhwyst, lluddias, llestair, attaliad, rhwystredigaeth, godoriad; tor, godori, breg, attal; symmythiad; paid, dysbeidiad; cyfryngiad; aflonyddiad, toriad; bwich, adwy, hollt.
- Interscribe, un-tyr-screib', *v. a.* rhyngysgrifenu; rhynglinellu.
- Intersect, un-tyr-sect', *v.* cynghroesi, cydyngroesi, cydyndori, cydyndrychu.
- Intersection, un-tyr-sec'-shyn, *s.* cynghroesiad, cydyndrychiad, croesdoriad; canoldor; cyfwng; cynghroesbwngc. [osod.]
- Intersert, un-tyr-syrt', *v. a.* rhyng-
- Interspace, un-tyr-spes, *s.* rhyngofod, rhyngystod, rhyngysbaid, cyfrwng.
- Intersperse, un-tyr-spyrs', *v. a.* rhyngwasgaru; cyngwasgaru; gwasgar yma ac acw; britho.
- Interstice, un-tyr-stus, *s.* cyfwng, cyfrwng; rhil, rhwyll.
- Intertwine, un-tyr-twein', *v. a.* cyfrod-eddu, cydblethu, cordeddu, cadffilio.
- Interval, un-tyr-fyl, *s.* cyfwng, cyfrwng, ennyd, encyd, ystod, ysbaid; hamdden, gorsaf, saib; talm, gwagle; rhwng; gorphwysfa (mewn cerdd).
- Intervene, un-tyr-fin', *v. n.* cyfryngu; rhyngu; damweinio, dywanu; gwahanu; ymyryd.
- Intervient, un-tyr-fi'-ni-ent, *a.* cyfringol; dygwyddol; cyfamserol.
- Intervention, un-tyr-fen'-shyn, *s.* cyfringiad, rhyngiad; rhyngddyfodiad; ymyraeth; cyfwng.

- Interview, un'-tyr-fiw, *s.* ymgyfarfod, cyfrwch, ymwel; cynnadr, ymddyddan.
- Interweave, un-tyr-wif, *v. a.* cydweu, cyfrestru, cymhlethu; cymmysgu, cydosod.
- Intestacy, un-tes'-ty-si, *s.* anghymmyn, anghymmyniaeth, diewyllysiaeth.
- Intestate, un-tes'-tet, *a.* diewyllys, digymmyn, heb ewyllys, heb lythyr cymmyn:—*s.* anghymmynydd, dyn diewyllys.
- Intestinal, un-tes'-tu-nyl, *a.* perfeddol.
- Intestine, un-tes'-tun, *a.* mewndol, dirgel; cartrefol; gwladol:—*s.* coluddyn, perfeddyn, paneg, monochen.
- Inthroned, un-thron', *v. a.* gorseddu; penseddu, gorfeingcio; uchafu.
- Intimacy, un'-tu-my-si, *s.* cyfeillgarwch, cydnabyddiaeth; cudeb; carwriaeth.
- Intimate, un'-tu-met, *a.* cyfeillaidd, adnabyddus; cyfrinachol; cyfnesaf; mewndol; anwyl; agos:—*s.* cyfaill, anwyl, cymdeithaswr, cydnabod:—*v. a.* awgrymu, arwyddo, yngan, yngenyd, gofynegi, crybwyll.
- Intimation, un-tu-me'-shyn, *s.* awgrym, amnaid, lledhysbysiad, ynganiad, lledargoel, arwyddiad.
- Intimide, un-tum'-i-det, *v. n.* brawychu, dychrynn, arswydo, ofni, tarfu.
- Intimidation, un-tum-i-de'-shyn, *s.* brawychiad, hylldrawiad, aryneigiad, darswydiad, orn; bygyliaeth, dychryndod.
- Intituled, un'-tu-tiwd, *a.* a elwir, a enwir; o'r enw, dan yr enw.
- Into, un'-tw, *prp. i*, i mewn i, idd, i mewn; yn, mewn.
- Intolerable, un-tol'-yr-ybl, *a.* anoddefadwy, annioddefol; anrheithoddef; anguriol, enyr, enddrwg.
- Intolerance, un-tol'-yr-ans, *s.* anoddefgarwch, annioddefgarwch, anghyddgyiad.
- Intolerant, un-tol'-yr-ant, *a.* anoddefgar, annioddefgar, anoddefus:—*s.* anghydddefwr.
- Intomb, un-tum', *v. a.* claddu, beddu.
- Intonation, un-tö-ne'-shyn, *s.* seiniad, seiniadaeth, cydganiad; taraniad.
- Intone, un-tön', *v. n.* cyttoni, hirseinio.
- Intort, un-tort', *v. a.* nyddu, torchi, troi, fillio, dyrwyn, ystresu, cordeddu.
- Intoxicate, un-toc'-si-ctet, *v. a.* meddwi, brwysgo.
- Intoxication, un-toc-si-ce'-shyn, *s.* meddwdod, brwysgedd, abrwysgiad, lledfrydedd.
- Intra, un'-tra, *prf. o* fewn, oddi mewn; yn, mewn.
- Intractable, un-trac'-tybl, *a.* anhydryn, anhywaith, anhydryn, afreolus; anhyddysg.
- Intranquillity, un-tran-cwul'-i-ti, *s.* aflonyddwch, anesmwythder; cyffro.
- Intrinsic, un-tran'-shent, *a.* annifan-ol, parhaol.
- Intransitive, un-tran'-su-tuf, *a.* annhrofiadol, anerchwyndedig, anweithredol, didrosiad.
- Intransitive verb, un-tran'-su-tuf fyrb, *s.* perwyddiad rhydd, berf annhrofiadol, peryfiad annhrofiadol; perwyddiad canolig, berf ddiwrthddrych.
- Intransmissible, un-trans-mus'-su-bl, *a.* annhrosglwyddadwy.
- Intransmutable, un-trans-miw'-tybl, *a.* annewidiadwy=*Untransmutable*.
- Intrench, un-trensh', un-trenç, *v. a.* amgloddio; gwarchgloddio; gormesu, gormeilio.
- Intrenchment, un-trensh'-ment, *s.* amglawdd, amddiffyn, bwrch; dargloddion; amgaer, diogelfa, bardel; gormesiad.
- Intrepid, un-trep'-ud, *a.* diofn, diar-swyd, gwrol, hyf, dewr, pybyr.
- Intrepidity, un-tri-pud'-i-ti, *s.* anofnogrwydd, eonder, glewder, gwroldeb.
- Intricacy, un'-tri-cy-si, *s.* dyrys-wch, astrusi, nidredd, methledd, cymhleth-rwydd, penbleth.
- Intricate, un'-tri-ctet, *a.* dyrys, astrus, afrwydd, rhwystrus, cynghafog, nidrog, cymhleth, hyfagl; anhawdd, caled:—*v. a.* dyrysu, nidro; tywyllu.
- Intrigue, un-trig', *s.* cuddamcan, cuddneges, dichellwaith, cyfrinwaith, celfasnach, celfwriad, cuddymgystlwn; nwyfneges; cyttwng, ystryw; cynllwyn:—*v. n.* cuddnegesa, cuddym-drin, celfwriadu; cyfrinachu; traf-fethio; cydfradu.
- Intrinsic, un-trun'-sic, *a.* tufewndol, mewndol, oddi mewn; hanfodol, priodol, anianol, cynnwynol, cynhenid; gwirioneddol.
- Intro, un'-trö, *prf. i* mewn, tu mewn; yn, i.
- Introduce, un-trö-diws', *v. a.* dwyn i mewn; rhagarwain, cyfarwain, tryddwyn; cynnyrchu, peri; dechreu; dwyn ger bron; cydnabyddu; dwyn; cyflwyno.
- Introduction, un-trö-dyc'-shyn, *s.* rhagarweiniad, arweiniad i mewn, tywys-

- iad i mewn; arweiniad; rhaglith, rhagymadrodd, rhagdraeth, rhag-dreithawd, rhagaraeth.
- Introductory, un-tro-dyc'-tyr-i, *a.* rhagarweiniol, arweiniol, rhagymadroddol, rhaglwybrol; eychwynol:—*s.* rhagarweinydd, cyfarweiniwr; cyflwynwr; fforddoliad.
- Intromission, un-trö-mish'-yn, *s.* anfon-iad i mewn; derbyniad, caniatâd; ymyraeth.
- Introspection, un-trö-spec'-shyn, *s.* edrychiad i mewn.
- Introvenient, un-trö-fi'-ni-ent, *a.* yn dyfod i mewn; yn dyfod rhwng; tryddedol.
- Introvert, un-trö-fyrt', *v. a.* troi i mewn, mewndroi.
- Intrude, un-trwd', *v.* ymwithio; rhuthro i mewn; gormesu, gwasgu, gwithio; ymyryd; camoresgyn, treisruthro.
- Intrusion, un-trw'-zhyn, *s.* ymwithiad i mewn; trawsymwithiad, gormeiadiad, gormes; camoresgyniad; treisfeddiant; ymyraeth.
- Intrusive, un-trw'-suf, *a.* ymwithiol, gormesol; treisruthrol; trawsfeddiannol; ymyrgar.
- Intrust, un-tryst', *v. a.* ymddried.
- Intuition, un-tiw-ish'-yn, *s.* athrylith, cyngreddf; brydwel, darwel; gwybyddiaeth, ymwybodaeth, crybwylliad, golygiad.
- Intuitive, un-tiw'-i-tuf, *a.* cyngreddfol, arddifryd, golygiadol, ymwybodol; egwyddorol, amgyffredol, argynnwysol.
- Intwine, un-twein', *v. a.* cyfrododdu, cordeddu; amnyddu, fillio; cymhlethu.
- Inumbrate, un-ym'-bret, *v. a.* cysgodi, huddo, godywyllu.
- Inunction, un-yngc'-shyn, *s.* eneiniaid.
 Reception, *ri-sep'-shyn*, *s. derbynriad; arfolliad, croesaw; cymmeriad*.
 Recess, *ri-ses'*, *s. encil, ymgil; ciliad, ymadawiad; gwrthgiliad; celfan; dirgelfa; llystyn, cloer, dirgelwch*.
 Recession, *ri-sesh'-yn*, *s. ciliad; ymadawiad*.
 Rechange, *ri-çenj'*, *v. a. adgyfnewid*.
 Recharge, *ri-çarj'*, *v. a. adgyhuddo; adlwytho; adhyrddu*.
 Recipe, *res'-i-pi*, *s. cymmer-eb, cyfarwyddydd meddyg, cynghor meddyg*.
 Recipient, *ri-sup'-i-ent*, *s. derbynydd*.

^a, tel a yn tad; a, cam; e, hen; e, pen; i, llid; i, dim; o, tor, ond e i sain yn hwy; o llon;

Reciprocal, ri-sup'-rô-cyl, *a.* adgyrchol, attychwelidig, adymgyrchol; cydgyfnewidiol; bob yn ail; o bob tu; cyd-, cyf-, cym-, cys-, cy-, ym-: -s. yr adchwelidig.

Reciprocate, ri-su-prö-*cet'*, *s.* cydgyfnewid; cydarallu.

Reciprocation, ri-su-prö-*ce'*-shyn, *s.* cydgyfnewidiad; cydaralliad.

Reciprocity, res-i-pros'-i-ti, *s.* cydgyfnewidioldeb, attychwelogrwydd; cyfles, cyflesiant. [toriad.

Recision, ri-sizh'-yn, *s.* attrychiad, at-Recital, ri-sei'-tyl, *s.* adroddiad, mynegiad, dadgan, traethiad; ailadroddiad.

Recitation, res-i-te'-shyn, *s.* adroddiad, mynegiaeth, dadganiad; dysgwediad.

Recite, ri-seit', *v. a.* adrodd, dadgan, datgan, traethu, mynegi, dysgwedyd, addefaru, corganu.

Reck, rec, *v.* malio, gofalu, gwilio, pryderu, pwylo.

Reckless, rec'-les, *a.* diofal, difeddwl, anochelgar, ysmala, dibwyll, esgeulus.

Reckon, rec'-en, *v.* cyfrif; bwrw; rhifo; priso; barnu, meddwl, tybied; ymddibynu, hyderu.

Reckoner, rec'-en-yr, *s.* cyfrifydd, cyfrifwr; rhifydd.

Reckoning, rec'-en-ing, *s.* cyfrifiad, edrif; rhiñad; gild; bri; tymp.

Reclaim, ri-clem', *v.* galw yn ol; diwygio, gwella; adferu; dychwelyd; adholi; diwyllio; dofi, gwareiddio; gwaeddi, dolefaïn.

Recline, ri-clein', *v.* gogwyddo, lledogwyddo; lleodorwedd; plygu; at-tumio; gorphwys: -*a.* gogwyddol.

Reclose, ri-clöz', *v. a.* adgau. [dadglo.]

Reclude, ri-cliw'd', *v. a.* agor, dadgau;

Recluse, ri-clius', *a.* cauedig i fyny; neillduol; encilliedig; unig; dirgel; meudwyaidd, didryf; golochwydol: -*s.* didryfwr, meudwy, adfynach, golochwydwr; anger; lleian.

Reclusion, ri-cliw'-zhyn, *s.* neillduedd, ymneillduaeth; neilldugarwch; neu-dwyaeth.

Recognition, rec-og-nish'-yn, *s.* cydnabyddiaeth, adnabyddiaeth, ail gydnabyddiad, ail nabod; cydnabodedigaeth; cyfaddefiaeth; cof; gwybodaeth; adchwiliad, ail olygiad.

Recognizance, } rec'-og-nei-zyns, ri-con'-

Recognisance, } i-zyns, *s.* cydnabyddiad, ail gydnabod = *Recognition*; ymrwymiad; gorfodogaeth; rheithfarn, dedfryd.

Recognize, } rec'-og-neiz, *v.* nabod, ad-Recognise, } nabod, cynabod, adwaen, ail adnabod; adgofio; adchwilio, adolygu; ymrwymo, ymwystlo.

Recoil, ri-coil', *v. n.* adlamu, gwrthlamu, dadneidio; encilio; attorchi; dychwelyd; rhuso.

Recoin, ri-coin', *v. a.* adfathu, eilfathu.

Recollect, ri-col-lect', *v. a.* adgofio, cofio, adfeddwl, adgoffa; adgynnull, adgasglu, ail grynhoi.

Recollection, rec-col-lect'-shyn, *s.* adgof, cof, adfeddwl, adgoffa; adgofiad, adfeddyliad; adgynnulliad, adgasgliad; adgynnull, ail gasgl.

Recombine, ri-com-bein', *v. a.* adgyfuno, adgyssylltu, adgymhlethu.

Recomfort, ri-cym'-ffyr't, *v. a.* adgyuro.

Recommence, ri-com-mens', *v. a.* ail ddechreu, ad-ddechreu.

Recommend, rec-ym-mend', *v. a.* canmawl, cymmeradwyo; cyflwyno; cyfarwyddo; gorchymmyn; cym-mynu.

Recommendation, rec-ym-men-de'-shyn, *s.* canmoliaeth, adganmoliaeth, canmolawd, gair da, cymmeradwyaeth.

Recommendatory, rec-ym-men'-dy-tyr-i, *a.* canmoliaethol, cymmeradwyol.

Recommut, ri-cym-mut', *v. a.* ail wneuthur, adwneyd; ail draddodi, adanfon; adgysseddu.

Recompense, rec'-ym-pens, *v. a.* at-talu, ad-dalu, talu y pwyth; talu; gwobrwyo: -*s.* ad-dâl, taledigaeth, ataledigaeth, tâl, gwobr, gwobrwyo, taliad, daffar.

Recompile, ri-cym-peil', *v. a.* adgasglu.

Recompose, ri-cym-pöz', *v. a.* adlon-yddu, ail drefnu, adgymmonï, attrefnu; adgyfansoddi.

Reconcilable, rec-yn-sei'-lybl, *a.* adgymmodadwy, cymmodadwy; cymmod-lawn.

Reconcile, rec'-yn-seil, *v.* cymmodi, adgymmodi, cymmodloni, cymmod-eddu, dyhuddo, tangnefeddu, cylafar-eddu; athrywyn; cyssoni; ymgymmodi.

Reconcilement, rec-yn-seil'-ment, }
Reconciliation, rec-yn-sul-i-e'-shyn, } *s.*
cymmod, adgymmod, dygymmod, cymmodlonedd; cymmodiad, dyhudd-iant, adheddychiad; ail heddwch.

Recondense, ri-con'-dens, *v. a.* adddwysu, attywychu.

Recondite, rec'-yn-dut, *a.* dirgel, cudd,

- cel, dwfn; dyrys; anhawdd; ty-wyll.
- Reconduct, *ri-con-dyct'*, *v. a.* ail dywys, attywys.
- Reconnoitre, *rec-yn-noi'-tyr*, *v. a.* cyfar-chwilio, arolygu, ardremu, ysbio.
- Reconquer, *ri-cong'-cyr*, *v. a.* adorchfygu.
- Reconsider, *ri-cyn-sud'-yr*, *v. a.* adys-tyried, adfyfyrio; diddymu, dilëu.
- Record, *ri-cord'*, *v.* cofnodi, coflyfru, cofysgrifenu, coffa; cofrestru; brudio, dathlu.
- Record, *rec'-yrd*, *s.* cyflyfr, cofysgrif, cofnod, llyfr coffadwriaeth; cofiant; tystiolaeth; brud, brut; hen gof; tyst.
- Recorder, *ri-cor'-dyr*, *s.* cofiadur; cof-lyfrydd, cofrestrydd; ceidwad cof-lyfrau; pibell, chwibanogl.
- Recount, *ri-cownt'*, *v. a.* adrifo, adgyf-rif; adrodd, traethu.
- Recourse, *ri-cö'yr*, *s.* adred, ymadred, eilgyrch, gwrthred; cyrch; rhedfa; noddfa.
- Recover, *ri-cyf'-yr*, *v.* adgaffael, aden-nill, adferu, ail gyrhaedd; gwella, gwellaü, adgryfhau; dadebru; ym-iachäu: achub; goresgyn.
- Recoverable, *ri-cyf'-yr-ybl*, *a.* adferad-wy; gwelladwy.
- Recovery, *ri-cyf'-yr-i*, *s.* ail gaffaeliad, adenniliad; dadanhudd; goresgyn; gweliant, iachäd; adfeddiant; dy-farniad cyfraith.
- Recreate, *rec'-ri-ynt*, *a.* llwfr, anwraidd, ofnus, digalon; gau; gwaefrydig, bawaidd:—*s.* cilgi, cachgi, anwr, lyfrwas.
- Recreate, *rec'-ri-ct*, *v.* adfywhau, ad-fywiogi, dadffino, adgryfhau, lloni, dadebru. [greu.]
- Recreate, *ri-cri-ct'*, *v. a.* adgreu, ail
- Recreation, *rec-ri-ct'-shyn*, *s.* adfywiad, adloniad; difyrweh, difyrwaith.
- Recreative, *rec'-ri-y-tuf*, *a.* adfywiol, difyr.
- Recriminate, *ri-crum'-i-net*, *v.* adfeio, gwrthachwyn, gwrthfeio; adgeryddu, gwrthgyhuddo.
- Recrimination, *ri-crum-i-ne'-shyn*, *s.* adfeiad, gwrthachwyn, trawsachwyn-iad, gwrthgyhuddiad, adgerydd, gwrthsen.
- Recriminatory, *ri-crum'-i-ne-tyr-i*, *a.* adfeiol, gwrthachwynol, gwrthsenol.
- Recruit, *ri-cruw'*, *v.* adlenwi; adgyfanu; adgryfhau, adgyweirio, gwrygio; ymadlenwi; codi gwyr; adfilwrio:—
- s.* adgyflenwad, cyflawniad; adfilwr, milwr llanw.
- Rectangle, *rec-tang'-yl*, *s.* cyfongl, cywirongl, unionogl, ongl gyfartal.
- Rectifiable, *rec'-ti-ffei-ybl*, *a.* diwyg-iadwy, cywiradwy; dystylladwy.
- Rectification, *rec-ti-ffei-shyn*, *s.* unioniad, cywiriad, diwygiad; dystyll-iad.
- Rectify, *rec'-ti-ffei*, *v. a.* unioni, cywiro, wiro, iawnu; dystyllio, ad-ddys-tyllio.
- Rectilinear, *rec-ti-lun'-i-yr*, *a.* union-linellog, cyffinol; uniawn.
- Rectitude, *rec'-ti-tiwd*, *s.* uniondeb, cyfiawnder.
- Rector, *rec'-tyr*, *s.* rheithor, periglor, person, person plwyf; llyw, rheolwr.
- Rectorial, *rec-tö'-ri-yl*, *a.* rheithorol, periglorawl.
- Rectorship, *rec'-tyr-ship*, *s.* rheithor-dod, perigloriaeth, personod.
- Rectory, *rec'-tyr-i*, *s.* perigloriaeth, rheithoriaeth, personiaeth; persondy, rheithordy, periglory.
- Recubation, *rec-iw-be'-shyn*, *s.* gor-weddiad, dargeiniad, ymorphwysiad.
- Recumbent, *ri-cym'-bent*, *a.* gorwed-dol; gogwyddol, cleiniol; segur, di-waith.
- Recur, *ri-cyr'*, *v. n.* adgyrchu, adrede-g, ymgyrchu, dychwelyd, cyrchu, atroi.
- Recurrence, *ri-cyr'-ens*, *s.* dychweliad, attychwel, gwrthred; atroad; ym-gyrciad.
- Recurrent, *ri-cyr'-ent*, *a.* attychwelog; attroawl, gwrthredol, adredol.
- Recursion, *ri-cyr'-shyn*, *s.* dychweliad, adrediad, adgyrciad, gwrthred.
- Recusant, *ri-ciw'-zynt*, *s.* ymwrthodwr, ymneillduwr.
- Recusation, *rec-iw-ze'-shyn*, *s.* ymwrth-odiad, gomeddiad, anghydfurfriad.
- Red, red, *a.* coch, rhudd, ffion, ffuon:—*s.* coch, rhudd, llw coch.
- Redan, *ri-dan'*, *s.* adgilwaith, adgilfur.
- Redbreast, *red'-brest*, *s.* bronrhuddyn, bronrhuddog, y fron-goch, y rhuddog, rhobin goch.
- Redden, *red'-dn*, *v.* cochi, rhuddo, dar-gochi, gwrido, gwridgochi.
- Reddish, *red'-ish*, *a.* lledgoch, cochlyd, rhuddaidd.
- Reddle, *red'-dl*, *s.* rhuddell, nod coch, mwn coch.
- Redeem, *ri-dim'*, *v. a.* prynu, adbrynu; gwared, achub; rhyddhau, gollwng; dadwystlo; adennill; llwyr brynu.

Redeemable, ri-dē-mybl, *a.* adbrynadwy, hybryn.
 Redeemer, ri-dē-myr, *s.* prynwr, pryniedydd, pryniawdwr, adbrynwr; gwaredwr, achubwr, y Gwaredwr.
 Redemption, ri-dem-shyn, *s.* pryniad, adbryniad, prynedigaeth, gwaredigaeth, ymward, rbyddhād.
 Redemptory, ri-dem-tyr-i, *a.* prynedigol, adbrynedigol, pryniadol.
 Red-lead, red'-led, *s.* plwm coch, mwn coch; sinobl.
 Redness, red'-nes, *s.* cochni, cochder; gwrid.
 Redolence, red'-ō-lens, *s.* perarogledd, persawr.
 Redolent, red'-ō-lent, *a.* peraroglaidd, aroglber, persawr, peraidd.
 Redouble, ri-dybl', *v.* adblygu, dyblygu; mynychu; adnewyddu.
 Redoubt, ri-dowt, *v.* rhaggaeran, rhac-caer, pedrygaer; diffynwaith.
 Redoubtable, ri-dow'-tybl, *a.* ofnadwy, arswydol, dychrynlyd; cadarnwedd, gwrol, gwyh.
 Redound, ri-downd', *v. n.* tarddu; cynnyddu; ymhelaethu; dylifo; attueddu; dychwelyd.
 Redress, ri-dres', *v. a.* diwygio, adgyweirio, unioni, atrefnu; esmwythāu, lliniaru; rhyddhau; digolledu; iachāu.
 Reduce, ri-diws', *v. a.* adferu, edfryd; dwyn; dachwelyd, dymchwelyd; troi, gwrarwain; darostwng, goresgyn, cymmeryd, adennill; cwtogi, byrhau; crynhoi; iselu; attwysgo.
 Reducible, ri-diw'-su-bl, *a.* attwysgadwy, adferadwy; lleiadwy.
 Reduction, ri-dyc'-shyn, *s.* dygiad, dachweliad, attwysgiad, adferiad; darostyngiad, goruchafiaeth; adennilliad; lleihād, cwtogiad; troad; gwneuthuriad.
 Redundance, ri-dyn'-dysn, } *s.* gormod,
 Redundancy, ri-dyn'-dyn-si, } gormod-
 edd, arddigonedd, gorllawndid; gorllif; rhwy.
 Redundant, ri-dyn'-dynt, *a.* gormodol, gormod, gorddigon, gorhelaeth, rhy-lawn, tragorol; gorllifol; rhy; hel-aethlawn.
 Reduplicate, ri-diw'-pli-cet, *v. a.* dyblygu, adblygu, plygu:—*a.* dyblyg, deublyg, adblygol, attorchol.
 Reduplication, ri-diw'-pli-cē-shyn, *s.* dyblygiad, gwrthblygiad, adblygedd; attill; adgymeriad.

Re-echo, ri-ec'-ō, *v.* adseinio, adleisio, darstain:—*s.* arsain, dadsain, adlais, adlef.
 Reed, rid, *s.* corsen, cecysen, cawnen, calaf; gwelltyn: pibell; peithyn; brwyd; to; saeth.
 Reedy, ri'-di, *a.* corsenog; corsenaidd.
 Reef, riff, *s.* hwyllblyg; iselgraig, basgraig, creigres:—*v. a.* tynu hwylliau i mewn; hwylyfyr, hwyllrefu, hwyllgrychu, hwyllblygu.
 Reek, ric, *s.* tarth, anwedd, ager, agerdd, das:—*v. n.* anwedd, mygu, tarthu.
 Reel, ril, *s.* cengliadur, cyngrod, ceingyll, ril, rhill; estyllod dirwyn; troell; taplas, corelw:—*v.* cenglu, dyrwyn yn genglau; dyrynu; telgyngu, hongcian, hwntian, bwhwman, siglo, ymdroi: trangwyddo; corelwi, taplasu.
 Re-elect, ri-i-lect', *v. a.* adethol, ail ddethol.
 Re-embark, ri-em-barc', *v.* adlongio; adgymmyrd llong; adforio; ail anturio.
 Re-enact, ri-en-act', *v. a.* ail ddeddfu, eilbenu.
 Re-engage, ri-en-gej', *v.* adrwymo; ail ymrwymo.
 Re-enter, ri-en-tyr, *v.* ail fyned i mewn; ail gymmyrd; adoresgyn, adfeddiannu.
 Re-establish, ri-i-stab'-lish, *v. a.* adsefydlu.
 Reeve, rāf, *s.* maer, goruwchwyliwr; penswyddwr tref; heddswyddog; golygwr globwll; y grychedn fenyw.
 Re-examine, ri-eg-zam'-un, *v. a.* adholi, ail holi; adchwilio.
 Refection, ri-ffec'-shyn, *s.* adloniad, dad-bryd; pryd o fwyd; ymborth, llun-iaeth.
 Refectory, ri-ffec'-tyr-i, *a.* adgyweirfa, ymborthfa, ancwynfa.
 Refer, ri-ffyr', *v.* cyfeirio; bwrw; anfon; cyfarwyddo; cynhwysgo; rhoddi; gadaw; ymddibleidio; golygu; penodi; perthyn; dwyn; ymgynghori.
 Referee, reff-yr-ē', *s.* dyddiwr, cylafareddwr, canolwr.
 Reference, reff-yr-ens, *s.* cyfeiriad; cyfarwyddiad; perthynas; golygiad; rhoddiad ar gylafareddwyr; dyddiad; cyfeiriad.
 Referrible, ri-ffyr'-i-bl, *a.* cyfeiriadwy.
 Refine, ri-ffein', *v.* coethi, puro; diwygio, adgyweirio; caboli; manylu; ymgoethi.
 Refinement, ri-ffein'-ment, *s.* coethde,

- terineb; puriad; adgyweiriad; man-
yliad; cyfrwysder.
- Rest, ri-ffut', *v. a.* adgyweirio, attrwsio,
ail barotol; ail gymhwys.
- Reflect, ri-flect', *v.* gwrthdalu, gwrth-
blygu, gwrthdroi; tafu, bwrw; ad-
lewyrchu, attywynu, gwrthdys-
glaerio; gwrthdaro; adlunio; ym-
ddangos, gwrthrychio, gwrthym-
rithio; adfeddwl, adfyfyrto, ymsyn-
ied; ystyried; beio, goganu.
- Reflection, ri-flect'-shyn, *s.* gwrthdafi-
iad, gwrthblygiad; adlewyrchiad,
dattywyniad; adlewyrch, gwrth-
lewyrch; adlun, gwrthymddangosiad;
adfyfyrto, ymadgof; ymsyniad;
ystyriaeth; gogan, sen; gwrthnod-
lad, beiad.
- Reflective, ri-flect'-tuf, *a.* adlewyrchol,
attywynol, adluchiol; gwrthdroawl;
adfeddylol; beiol.
- Reflector, ri-flect'-tyr, *s.* adlewyrchyd,
attywynor, dattywynydd, drych,
adrithyr; adfyfyrwr.
- Reflex, ri-flecs', *v. a.* adlewyrchu,
gwrthdywynu, gwrthdalu, tafu yn
ol.
- Reflexible, ri-flect'-su-bl, *a.* gwrthblyg-
adwy, attroadwy.
- Refloat, ri-fflöt', *s.* adlif, gwrthlif, trai;
adnawf.
- Reflourish, ri-fflyr'-ish, *v. n.* adflodeuo,
attyfu, ail ffynnu.
- Reflow, ri-fflöt', *v. n.* adlif, gwrthlifo.
- Refluent, reff'-liw-ent, *a.* adlifol, gwrth-
liferiol.
- Reflux, ri-fflycs, *s.* adlif, gwrthlif, ad-
lifiad, gwrthred, adred.
- Reform, ri-fform', *v.* diwygio, gwella,
gwella; ymddiwygio; adffurfio, ad-
lunio, adgyweirio, attrefnu:—*s.* diw-
ygiad; gwella.
- Reformation, reff-or-me'-shyn, *s.* diwyg-
iad, diwygiaeth; gwelliant.
- Reformer, ri-ffor'-myr, *s.* diwygiwr;
attrefnwr.
- Refract, ri-ffract', *v. a.* gwrthdori, dat-
troi; gwrthdroi; attrychu.
- Refraction, ri-ffrac'-shyn, *s.* gwrthdoriad,
gwrthchweliant; gwrthdroad.
- Refractive, ri-ffrac'-tuf, *a.* gwrthdored-
igol, dattorol, dydoriadol.
- Refractory, ri-ffrac'-tyr-i, *a.* afrywiog,
cyndyn, gwrthwysig, anfydd:—*s.*
ymgyndynwr, un anfydd.
- Refrangible, reff'-ry-gybl, *a.* hydor, tor-
adwy; dychweladwy; gwrthbrofadwy.
- Refrain, ri-ffren', *v.* attal, rhwystro;
- ymgadw, ymarbed; nadael, peidio;
gochel:—*s.* hyrdyn, hyrdwn.
- Refresh, ri-ffresh', *v. a.* adloni, adfywio,
dadffino, dadebru; adnewyddu; add-
oeri; ireiddio; llawenychu, dyddanu:
—*s.* adloniad.
- Refreshment, ri-ffresh'-ment, *s.* adlon-
iant, adfywiad, diluddediad, dadffin-
iad, adnewyddiad; ireiddiant; cyn-
naliaeth, ymborth, adfaethiad; es-
mwythyd; gorphwysdra; dyddanwch.
- Refrigerate, ri-ffrij'-yr-ct, *v. a.* addoeri,
oeri; adloni.
- Refrigeration, ri-ffrij'-yr-ct'-shyn, *s.* add-
oeriad, addoeridigaeth, oeriad.
- Refuge, reff'-iwj, *s.* nawdd, nodedd,
noddfa, achles, amddiffynfa, diogelfa,
celefrud, celyfrad, arlawch; ymgudd-
fa, lloches:—*v. a.* noddi, diogelu, am-
ddiffyn.
- Refugee, reff'-iw-jz', *s.* ymnoddwr, ffoad-
ur nawdd.
- Refulgence, ri-fful'-jens, *s.* dysgleirdeb,
adlewyrch, lleufer, llethrid, ysblan-
der, eiriander, llewyrch.
- Refulgent, ri-ffyl'-jent, *a.* dysglaer,
llachar, gloyw, adlewyrchus, ysblen-
ydd, goleufawr, claerwch, eirian,
ffloyw.
- Refund, ri-ffynd', *v. a.* attywallt; dy-
chwelyd; attalu, ad-dalu; adferu.
- Refusal, ri-ffiw'-zyl, *a.* pall, nag, nacâd,
gomedd, llysiant, gwrthodiad, neg-
yddiad.
- Refuse, ri-ffiwz', *v.* gwrthod, gomedd,
nacâu, llysu, pallu, naca.
- Refuse, reff'-iws, *a.* gwrthodedig;
cwlledig; gwael:—*s.* ysgubion, carth-
ion, olion, ysbrêd, ysbwrial, mwlwg,
gwehilion, sothach, sorod, mwnws,
ffwlbrî, soegion.
- Refutation, reff'-iw-te'-shyn, *s.* gwrth-
brofiad, dadbrofiad; gwrthbrawf.
- Refute, ri-ffiwz', *v. a.* gwrthbrofi, dis-
brofi.
- Regain, ri-gen, *v. a.* adennill, adoresgyn,
adfeddu, ail gaffael; adferyd.
- Regal, ri-gyl, *a.* breniniol, teyrnol,
rhial;—*s.* organ fys.
- Regale, ri-gel', *v.* gwledda, arfolli, croes-
awu; adloni; boddhau:—*s.* brenin-
wledd, gwledd ddanteithiol; arfoll;
breninfrant, brant y brenin.
- Regalia, ri-gel'-li-y, *s. pl.* teyrnolion,
teyrnaddurnau, teyrndylsau; rhagor-
freintiau brenin.
- Regard, ri-gard', *v. a.* golygu, edrych
ar, sylwi; ystyried; parchu, anrhyd-

- eddu; hoffi; cadw; perthyn; dawr, dori:—*s.* golwg, golygiad; gofal; sylw; ystyriaeth; parch, cyfrif, cymmyredd; enw; perthynas; cyfeiriad.
- Regardful, ri-gard'-ffwl, *a.* gofalus, ystyriol.
- Regardless, ri-gard'-les, *a.* diofal, esgeulus; difater; dibarch.
- Regatta, ri-gat'-y, *s.* badredfa, rhedfa cychod, badgamp.
- Regency, ri-jen-si, *s.* rhaglywiaeth, rhaglafiaeth; rheolaeth, awdurdod.
- Regenerate, ri-jen'-yr-et, *v. a.* adgenedlu; adeni, ail eni; geni drachefn; adffurfio:—*a.* adgenedledig, adenedig, ail anedig.
- Regeneration, ri-jen-yr-e'-shyn, *s.* adgenedliad, adenedigaeth, ail enedig-aeth; adgynnychiad.
- Regent, ri'-jent, *a.* llywodraethol; rhaglawiwl, rhagofyddol:—*s.* rhaglaw, rhaglyw; rheolwr, llywydd, llywiadur, rhwyf.
- Regicide, rej'-i-seid, *s.* teyrnleiddiad, lleiddiad brenin; teyrnladdiad.
- Regimen, rej'-i-men, *s.* rheolaeth, llywodraeth, rheol; trefniad ymborth; hwyliant.
- Regiment, rej'-i-ment, *s.* catrawd; byddin:—*v. a.* catrodi; byddino.
- Regimental, rej-i-men'-tyl, *a.* catrodol; byddinol.
- Regimentals, rej-i-men'-tylz, *s. pl.* byddinwisg, catrodwisg.
- Region, ri'-jyn, *s.* bro, goror, ardal, parth, pau, gwlad, talaeth, trân; lle, man.
- Register, rej'-us-tyr, *s.* coflyfr, llyfr cofiadwriaeth, echrestr; coflyfrydd, cofrestrwr; rheolydd:—*v. a.* coflyfru, cofrestru, llyfru.
- Registry, rej'-us-tri, *s.* coflyfriad, cofrestriad; coflyfryd, cofnodfa; coflyfrau; cofrestydiaeth.
- Regium Donum, ri'-jym dö'-nym, *s.* rhodd freninol, breninddawn.
- Begorge, ri-gorj', *v. a.* cyfogi, chwydu, bytheirio; adlyngcu; traffyngcu, gwangoio.
- Regret, ri-gret', *s.* gofid meddwl; blinder, trallod, tristyd; adofid, adloes; anewyllysgarwch:—*v. n.* bod yn ddrwg gan un; gofidio, ymofidio am, ochi, galaru am.
- Regular, reg'-iw-lyr, *a.* rheolaidd, trefnus; gweddaidd; cyffredin; cysson:—*s.* milwr rheolaidd; mynach rheolaidd.
- Regularity, reg-iw-lar'-i-ti, *s.* rheoleiddrwydd; trefnusrwydd; cymmonedd; trefn; dull, modd; cymmedroldeb; cyssondeb.
- Regulate, reg'-iw-let, *v. a.* rheoleiddio, trefnu, gweddeiddio, muneru.
- Regulation, reg-iw-le'-shyn, *s.* rheoledigaeth, trefniad, rheithiad, ystopiad; rhcol, cysswy.
- Regulus, reg'-iw-lys, *s.* breninyn; gorddelid, goradwy, goreuon metel; eurgib.
- Rehearsal, ri-hyr'-syl, *s.* adroddiad, dadganiad, traethiad, mynegiad, cyn-draethiad.
- Rehearse, ri-hyrs', *v. a.* adrodd, dadgan, datgan, mynegi, cynnadgan; hanesu.
- Reign, ren, *v. n.* teyrnasu, gwladychu; llywodraethu; gwledigo; blaenori:—*s.* teyrnasiad, gwledychiad, rhwyfaniaeth; rhedaeth; breniniaeth; cyffredinolrwydd. [gorffori.
- Reimbody, ri-um-bod'-i, *v. n.* adym-Reimburse, ri-um-byrs', *v. a.* ad-dalu, attalu, talu yn ol.
- Rein, ren, *s.* awyn, afwyn, awen; ffirwyn, llywodraeth, rheolaeth:—*v. a.* ffirwyno; attal, rheoli, nadael, ystwyo.
- Reindeer, ren'-diyr, *s.* algar, gellgarw, algarw, carw Llŷchlyn.
- Reinforce, ri-un-ffö'yrs, *v. a.* adgyfnerthu, adgryfhau, adgyfenwi:—*s.* adgyfnerth.
- Reins, renz, *s. pl.* arenau, elwl, y llefnau.
- Reinspire, ri-un-spei'yr, *v. a.* adysbrydoli; adgalonogi.
- Reinstall, ri-un-stol', *v. a.* adorseddu, ail seddu, adystelio; adsefydlu.
- Reinstate, ri-un-stet', *v. a.* adsefydlu; ail osod; adwisgo; ail amgylchu; adruddo.
- Reiterate, ri-ut'-yr-et, *v. a.* adwedyd, ad-dywedyd, ail adrodd; mynychu; adwneuthur.
- Reiteration, ri-ut-yr-e'-shyn, *s.* ail adroddiad, adfynegiad; mynychiad; adwneuthuriad.
- Reject, ri-ject', *v. a.* gwrthod, llysu, gwrthneu; gochel; gwrthwynebu.
- Rejection, ri-jec'-shyn, *s.* gwrthodiad, llysiant; gwrthodedigaeth; edfn; gwadiad.
- Rejoice, ri-jois', *v.* llawenhau, llawenychu, lloni; ymlawennu, ymorfoleddu; llemain.

- Rejoicing, ri-joi'-sing, *s.* llawenychiad, gorfoleddiad; ymloniad; llawenydd, elwch; bloddest, gorawen.
- Rejoin, ri-join', *v.* adgyssylltu, ail uno; adymuno; ail gyfarfod; gwrthateb.
- Rejoinder, ri-join'-dyr, *s.* gwrthateb, ail ateb; atebiad.
- Rejoint, ri-joint', *v. a.* adgyssylltu, adgymmalu.
- Rejudge, ri-jyj', *v. a.* adfarnu; adolygu; adholi.
- Rekindle, ri-cin'-dl, *v. a.* ail ennyn, adennyn, adgynneu.
- Relapse, ri-laps', *v. n.* adlithro, gwrthgwympo, ail syrthio; dychwelyd; ail ymchwelyd; adglefychu:—*s.* adlithriad, gwrthsyrthiad, eilgwymp; adglefyd, ail glefyd.
- Relate, ri-let', *v.* adrodd, traethu, mynegi, hanesu; perthyn, deiryd.
- Relation, ri-le'-shyn, *s.* adroddiad, mynegiad, traethiad; hanes; perthynas, carenydd, tras, cyfathrach, cystlynedd; câr; cyfaledd; cyssylltiad; cyfartaledd.
- Relationship, ri-le'-shyn-ship, *s.* perthynas, cystlynaeth, tras, carenydd.
- Relative, rel'-y-tuf, *a.* perthynol, perthynasol; cyfatebol; gwrtholygol.
- Relax, ri-lacs', *v.* laesu, llacâu, llacio, rhyddhau; ysgafnhau; esmwytho, lliniaru; gollwng; agor; ymroi; llyfrhau; ymollwng; ymddattod; toddi; tyneru; diofalhau; oeri.
- Relaxation, rel-ac-se'-shyn, *s.* laesiad, llacâd; rhyddhâd; esmwythâd; llinariad; gollyngdod; ymlaciad; agoriad; dadegniad; seibiant, dysbeidiad.
- Relay, ri-le', *s.* newidfeirch, newidre, presfeirch; cwn newid; newidfa:—*v. a.* ail osod, adosod.
- Release, ri-lis', *v. a.* rhyddhau, gollwng; gwaredu; maddeu:—*s.* rhyddhâd, gollyngdod; gollyngdeb.
- Relegate, rel'-i-ge't, *v. a.* alludio, allwladu, deol, alldrodio.
- Relent, ri-lent', *v. a.* tyneru, meddal, nawseiddio; tosturio; gofidio; tirioni; toddi; laesu.
- Relentless, ri-lent'-les, *a.* didosturi; trwch; anhyblyg; caled; dideimlad.
- Relevant, rel'-i-fynt, *a.* cynnorthywyl; perthynasol, cyfaddas, cymhwys; cyfodol.
- Reliable, ri-lei'-ybl, *a.* credadwy.
- Reliance, ri-lei'-yys, *s.* goglud, hyder, ymddiried; coel, cred, ffydd; ymddibyniad; pwys.
- Relic, rel'-ic, *s.* gweddill; gwaged, rhelyw, sarid; crair, creirwy.
- Relict, rel'-ict, *s.* gweddw, gwraig weddw.
- Relief, ri-liff', *s.* cymhorth, cynnorthywyl, porth, help; esmwythâd, llinariad; adgyfnerth, cyfnerthiad; iawn; ymward; cysur; cafiad, codiad; cyrchfa.
- Relieve, ri-lif', *v. a.* cynnorthywyo, cymhorth, diwallu; porthi, cynnal; esmwythâu, ysgafnhau, lliniaru; helpu; adgyfnerthu; dilwytho; rhyddhau; dyddanu; cyfnewid gor-safwyr; cyferbynu.
- Relieving officer, ri-lif'-ing off'-i-syr, *s.* rheidweinydd, gweinydd y cardodau, swyddwr y tlodborth, swyddwr cynnorthywyl.
- Religion, ri-lij'-yn, *s.* crefydd; cred; duwioldeb.
- Religionist, ri-lij'-yn-ust, *s.* crefyddwr; crefyddwr penboeth, penboethyn.
- Religious, ri-lij'-yz, *a.* crefyddol, crefyddgar; duwiol; dyhewydus; duwiolfrydig.
- Relinquish, ri-ling'-cwish, *v. a.* gadael, gado; gollwng; diafael; peidio â.
- Relish, rel'-ish, *s.* blas, archwaeth, chwaeth, adchwaeth:—*v.* blasu, chwaethu, archwaethu; bod yn fiasus; boddhau, boddio.
- Relishable, rel'-ish-ybl, *a.* chwaethadwy; blasus.
- Reluctance, ri-lyc'-tyns, *s.* anewyllysgarwch, gwrthymdrech, gwrthymroad, gwrthryn; annhueddiad, anfodd; gwrthwynebiad.
- Reluctant, ri-lyc'-tynt, *a.* anwyllysgar, anewyllysgar, anfoddog, anfoddlawn, gwrthwynebus; annhueddol.
- Rely, ri-lei', *v. n.* hyderu, ymddiried; dibynu, ymddibynu; ymorphwys, pwysu.
- Remain, ri-men', *v.* aros, cyfaros, ymaros; bod; sefyll; gorphwys; bod yng ngweddill; trigo, preswylio; parhau; ystadu; eistedd; dysgwyl.
- Remainder, ri-men'-dyr, *s.* gweddill, gwaged, rhelyw, gadyd, sarid; y rhan ar ol.
- Remains, ri-menz', *s. pl.* gweddillion; olion; corff y marw; cyrff meirw.
- Remand, ri-mand', *v. a.* galw yn ol, gwrthalw; gwrthanfon, adanfon.
- Remark', ri-marc, *s.* sylw, sylwad, nod,

- nodiad, darsylwad; sylwnod; syniad; sylliad; ystyriaeth: - *v. a.* sylwi, nodi, darsylwi, dal sylw.
- Remarkable, *ri-mar'-cybl, a.* hynod, nodedig; gwiwnod; rhyfedd, od.
- Remediable, *ri-m^o-di-ybl, a.* gwellaedwy, meddygadwy, diwygiadwy, hywell.
- Remedy, *rem'-i-di, s.* meddyginiaeth; gwellaed; iachâd; adgyweiriad; rhwymedi; ymwared; lles; swyn; cyfaredd: - *v. a.* meddyginiaethu, gwellaü; diwygio; symmud.
- Remember, *ri-mem'-byr, v. a.* cofio; meddwl am; adgofio, coffa, adgoffa, coffâu; dysbwylllo.
- Remembrance, *ri-mem'-bryns, s.* cof, adgof, ymadgof; coffa; coffadwriaeth; cofen, cofeb, cofiaeth; cofnod; rhybudd.
- Remembrancer, *ri-mem'-bryn-syr, s.* cofiadur, cofiedydd, coffawr; rhybuddiwr.
- Remind, *ri-meind', v. a.* adgofio, ail goffa, adgoffâu; dwyn ar gof.
- Reminiscence, *rem-i-nus'-ens, s.* adgof, ymadgof; adgofiad; cof.
- Remiss, *ri-mus', a.* laes, llac; diarial, diawch, swrth; esgeulus, diofal; araf, chwarian; annyfal; marwaidd.
- Remissible, *ri-mus'-i-bl, a.* maddeuadwy; dileadwy; gollyngadwy.
- Remission, *ri-mish'-yn, s.* maddeuant, maddeu; gollyngdod, rhyddhâd; ysgafnhâd; lleihâd, taliad; llaesiad, llacâd; dysbeidiad.
- Remit, *ri-mut', v.* llaesu, llacäu; ysgafnhau, lleihau; maddeu; cyfeirio; gadael; dychwelyd, anfon; trosglwyddo (arian), trosi; adferyd, ymlaesu, treio.
- Remittable, *ri-mut'-ybl, a.* maddeuadwy; anfonadwy; trosglwyddiadwy.
- Remittance, *ri-mut'-yns, s.* anfoniad, trosglwyddiad, trosiad; arian trosglwydd.
- Remnant, *rem'-nynt, s.* gweddill; rhylyw; gobed (o frethyn); cilyn, cilcyn: - *a.* gweddilledig.
- Remodel, *ri-mod'-el, v. a.* adgynllunio, adlunio, ail gyflunio.
- Remonstrance, *ri-mon'-stryns, s.* gwrthfynag, gwrthfynegiad, gwrthddangosiad; gwrthdystoliaeth, gwrthdystiad, gwrthachwyn, cwynfynag; cyflymliw; ymresymiad, gwrthresymiad; cerydd; arlladfa.
- Remonstrate, *ri-mon'-stret, v.* gwrthachwyn, gwrthddangos, gwrthfynegi,
- gwrthresymu, gwrthdystio, cwynfynegi; ymresymu; dangos.
- Remorse, *ri-mors', s.* adgno, ymadgno, ymgno, gorbicrwydd, adloes; edifeirwch; dwys bigiad; tosturi.
- Remote, *ri-mot', a.* pell, pellennig, anghysbell, estronol; anunion-gyrch; bychan.
- Remount, *ri-mownt', v.* ail esgyn, adesgyn.
- Removable, *ri-mw'-fybl, a.* symmudadwy.
- Removal, *ri-mw'-fyl, s.* symmudiad, mudiad, symmudia, newidiad lle.
- Remove, *ri-mw'f, v.* mudo, symmud; troi allan; diswyddo; ymsymud; ynmud: - *s.* symmud, symmudiad, mudfa; gradd, cam; pellder.
- Remunerate, *ri-miw'-nyr-et, v. a.* gwobrywyo, gobri, attalu, talu yn ol, talu'r pwyth; talu.
- Remuneration, *ri-miw'-nyr-e'-shyn, s.* gobrwy, gwobr, tál, attaledigaeth, taliant; gwobrynawd, gwobrwyad; iawn.
- Remunerative, *ri-miw'-nyr-e-tuf, a.* gwobrwyedigol, attaledigol, taliadol; iawnol.
- Renal, *ri'-nyl, a.* arenol; llyfenol.
- Renard, *ren'-yrd, s.* madyn, madryn, llwynog, cadnaw, rhus, gwyddgi.
- Rencounter, *ren-cown'-tyr, s.* gwrthdarawiad, gwrthymgyrch, cyfergyr, ymosod, gwrthdrin, gwrthgyrch, ymosod, gwrthgyfarch; ysgarmes, ymladdfa, ymgwrdd: - *v.* gwrthdaraw, ymgrychu, ymosod, gwrthrynu, ymladd, cystwyo; ymglyfarfod, ymglyfrwch.
- Rend, *rend, v. a.* rhwygo, dryllio, llarpio.
- Render, *ren'-dyr, v.* rhoddi; dychwelyd; talu, ad-dalu; adferu; edfryd; gwneuthur, peri; cyfieithu; dangos; cymmydru, plastro; teru; ymroddi; cilio: - *s.* ymroddiad; rhoddiad i fyny; rhwygwr.
- Rendezvous, *ren'-di-fuz, ren'-di-fw, s.* cynnullfan, ymglyfarfod, ymglyfarfodfa, ymgynnullfa, ymglydgyrch; ymddangosfa, ymroddfa: - *v.* ymgynnull, cydymgyrchu, ymglyfarfod, ymgasglu; cynnull.
- Negade, *ren'-i-ged, s.* gwrthgiliwr; gwadwr; crwydryn, gwibiad.
- Renew, *ri-niw', v. a.* adnewyddu; adgyweirio.
- Renewal, *ri-niw'-yl, s.* adnewyddiad;

- adgyweiriad; ail wneuthuriad; adfywiad.
- Rennet, ren'-et, *s.* caul, cywer, ceuled, cywer llaeth, cywerdeb.
- Renounce, ri-nowns', *v.* ymwrthod â, gwrthod, gwadu, diarddelwi; ymwadu.
- Renovate, ren'-ö-fet, *v. a.* adnewyddu, dadheneiddio.
- Renovation, ren-ö-fe'-shyn, *s.* adnewyddiad, adnewyddiaeth, dadheneiddiad; dadiain.
- Renown, ri-nown', *s.* clod, bri, enw, enwogrwydd, mawl, anrhydedd:—*v. a.* enwogi, hynodi.
- Renowned, ri-nownd', *a.* enwog, clodfawr, hynod; ardderchog, clodwiw.
- Rent, rent, *s.* rhwyg, breg, ymraniad; ardreth, rhent; tâl, llog; cyllid:—*v.* rhwygo; brygawthan; ardrethu, rhentu; talu ardreth; cymmeryd tir.
- Rental, ren'-tyl, *s.* ardrethlyfr, rhentlyfr, rhentres, cyllidres; llyfr yr ardreth.
- Rentcharge, rent'-çarj, *s.* ardrethdal, rhenttal.
- Rent-roll, rent'-röl, *s.* rhentrol=*Rental*.
- Renunciation, ri-nyn-shi-e'-shyn, *s.* ymwrthodiad, ymwadiad, dywadiad.
- Reorganize, ri-or'-den, *v. a.* adurddo.
- Reorganize, ri-or'-gyn-eiz, *v. a.* adgyflunio.
- Repair, ri-pe'yr, *v.* cyweirio, adgyweirio, tarlu, trwsio, adnewyddu; cyfodi, cadarnhau; diwygio; digoll-edu; adferthu; myned, cyrchu, cynniwair, mynychu:—*s.* cywair, ail gywair; adgyweiriad; cyweirdeb; cyweirfa; adnewyddiad; diwygiad, trwsiad; diwyg, attrefn; mynediad, cyrchiad; dyfodfa, cynniweirfa.
- Reparable, rep'-yr-ybl, *a.* cyweiradwy, diwygiadwy, gwellaadwy.
- Reparation, rep-yr-e'-shyn, *s.* cyweiriad, adgyweiriad; diwygiad; iawn; tâl; cydnabyddiaeth; cyflenwad.
- Reparative, ri-par'-y-tuf, *a.* adgyweiriol.
- Repartee, rep-yr-tē', *s.* fraethair, fraetheb, cymhenair, prestl:—*v. a.* picio fraetheiriaiu; prestlu.
- Repass, ri-pas', *v.* ail basio; adgroesi; dychwelyd.
- Repast, ri-past', *s.* pryd, pryd o fwyd; ad-wledd, adfaeth, lluniaeth; ym-borthiad:—*v. a.* porthi, seigio; gwledda. [tal.
- Repay, ri-pe', *v. a.* ad-dalu, attalu, dat-
- Repeal, ri-päl', *v. a.* diddymu, difodi, dilëu, adferu; gwrthtalw:—*s.* diddymiad, dilead, adfar; adfarn, dadfarn.
- Repealable, ri-pl'-'ybl, *a.* diddymadwy, difodadwy; adfarnadwy, gwrthtalwadwy.
- Repeat, ri-pit', *v. a.* ail adrodd, adwed- yd, ail fynegi, adfynegi; adrodd, mynegi, traethu, dywedyd, gweyd; mynychu; adwnenthur; adnewyddu; attroi:—*s.* ail adroddiad, adwediad; attro, adchwal.
- Repeatedly, ri-pi'-ted-ly, *ad.* drachefn a thrachefn; yn fynych; drosodd a throddod.
- Repeater, ri-pē'-tyr, *s.* adroddwr, mynegwr; adwnenthurwr; mynychydd; mynychrif; tarawiadur = oriadur a darawo yr oriau.
- Repel, ri-pe'l', *v.* gwrthyru, gwrth- hyrddio, cilgwrthio, gwrthdaraw; burthio; gwrthguro; rhiddio; attal, rhwystro; gwrthymegnio.
- Repent, ri-pent', *v.* edifarhau, edifaru, tifar; ymofidio; dychwelyd.
- Repentance, ri-pen'-tyns, *s.* edifeirwch, edifeiriant; tifarwch; attawr.
- Repentant, ri-pen'-tynt, *a.* edifeiriol, edifarhaol:—*s.* edifarydd.
- Repeople, ri-pi'-pl, *v. a.* adböbli, ail boblogi.
- Repertory, rep'-yr-tyr-i, *s.* trysorfa, trys- orgell, ystorfa, cronfa; coflyfr; dang- oseg.
- Repetition, rep-i-tish'-yn, *s.* ail adrodd- iad, ad-ddywediad, adfynegiad; traethiad; adwnenthuriad; myn- ychiad; adnewyddiad.
- Repine, ri-pein', *v. n.* ymofidio, ym- ddiigio, ymgurio, anfoddloni, grwg- nach.
- Replace, ri-ple's', *v. a.* adlehau, ail sef- ydlu, adsefydlu, ail osod.
- Replant, ri-plant', *v. a.* adblanu.
- Replead, ri-pläd', *v. a.* dadleu, adhaeru.
- Replenish, ri-plen'-ish, *v.* llenwi, ad- lenwi, cyflenwi; cyflawni; diwallu; ymlenwi.
- Replete, ri-plit', *a.* llawn; gorllawn.
- Repletion, ri-plē'-shyn, *s.* gorllawnder, llawndid, cyflenwad.
- Replevin, ri-plef'-un, } *s.* dadafael, dat-
Replevy, ri-plef'-i, } tafael, dattaf-
aeleb=ysgrifen adferiad attafael:—
v. a. dattafaelu, diattafaelu; meich-
nio.
- Reply, ri-plei', *v.* ateb, rhoi ateb; gwrthheb, gwrthhateb; ymateb; gwrth-

- ddadleu; atoralw:—s. ateb, atebiad; gwrthateb; dysgwrthebiad.
- Report, ri-pŵrt, *v. adrodd, mynegi, traethu, hanesu; dywedyd, son, chweddeu; cyhoeddi; taenu; crybwyll; gohebu*:—s. gair, son, chwedl; adroddiad, mynegiad; hanes; cyfrif; hysbysiad; adson, adswn; swm, ysgort, diasbad, trwst; bri, cymmeriad.
- Reporter, ri-pŵr-tyr, *s. adroddwr, mynegwr, cyhoeddwr, arfynegrwr; gohebydd; hysbyswr; ysgrifenydd*.
- Repose, ri-pŵz, *s. gorphwys, gorphwyso, ymorphwys; cymmyrdd hoe; ymlonyddu; cysgu, huno; gorwedd; ymddiried; gosod, rhoddi; gwelyddu*:—s. gorphwys, gorphwysdra; esmwythder; saib; tawelwch; cwsg; gorweddffa; heddwch; hyder.
- Repository, ri-poz-i-tyr-i, *s. ystorfa, ystordy, cronfa, trysorfa, addawd, clydian, percell, cadwfa.*
- Repossess, ri-poz-zes', *v. a. adfeddiannu, adberchenogi, ail gaffael.*
- Reprehend, rep-ri-hend', *v. a. cerddyddu, dwrddio, senu, anghreiffio, argyhoeddi, ystwrddio, cyhuddo.*
- Represent, rep-ri-zent', *v. a. dangos; gosod allan, arddangos; arwyddo, darlunio; cynddrychioli, cynnrychioli; dirprwyo; arwyddocâu.*
- Representation, rep-ri-zen-te'-shyn, *s. arddangosiad; darluniad; cynddrychiolaeth, cynnrychiad; delw, eilun.*
- Representative, rep-ri-zen'-ty-tuf, *a. dangosedigol, adgynnrychiol; darluniedigol.*
- Repress, ri-pres', *v. a. darostwng, llethu, ystwyo, cyfarsangu; attal, ffrwyno.*
- Repression, ri-presh'-yn, *s. darostyngiad, cyfarsangiad, attaliad.*
- Repressive, ri-pres'-suf, *a. darostyngol, cywarsangol, attaliol, ffrwynedigol.*
- Reprieve, ri-prif', *v. a. dienoedi, caniatâu dienoed; oedi, gohirio*:—s. oed dienydd, dienoed; gwarant dienoed; dysbeideb, oedwarant; attreg.
- Reprimand, rep-ru-mand', *v. a. ceryddu, anghreiffio, dondio, ystwrddio, senu, cystwyo*:—s. cerydd, sen, argyhoedd-iad, senair.
- Reprint, ri-prunt', *v. a. adargraffu, ail argraffu, ail brintio*:—s. adargraffiad, argraffiad newydd.
- Reprisal, ri-prei'-zyl, *s. adgipiad, attreisiad, ail gymmeriad; attrais; gwrthysgafael.*
- Reproach, ri-pröç', *v. a. gwaradwyddo, gwarthruddo; edliw, lliwied; cablu, athrodi, senu*:—s. gwaradwydd, gwarth, cywilydd; sarhad, anair, ammharch; dannod, edliw; enllib, hort, cabledd.
- Reproachful, ri-pröç'-ffwl, *a. gwaradwyddol, gwarthus, goganus; edliwgar; athrodol; sarhäus, ammlharchus.*
- Reprobate, rep-rö-bet, *a. gwrthodedig, anghymmeradwy; anfad, ysgeler, diriaid, diras, esgyimmun; anobeithiol, drwg diobaith*:—s. drygddyn, anfadwr, dyhiryn, adyn, gwrthodigyn.
- Reprobate, rep-rö-bet, *v. a. gwrthod; diranghymmeradwyo; gwrthwynebu.*
- Reprobation, rep-rö-be'-shyn, *s. gwrthodedigaeth, gwrthodiant, gwrthod.*
- Reproduce, ri-prö-dius', *v. a. adgynnyrchu.*
- Reproduction, ri-prö-dyc'-shyn, *s. adgynnyrchiad, ail gynnyrchiad.*
- Reproductive, ri-prö-dyc'-tuf, *a. adgynnyrchol.*
- Reproof, ri-pruiff', *s. cerydd, sen, argyhoedd-iad, dwrddiad; bai.*
- Reprovable, ri-pruf'-ybl, *a. ceryddadwy, beius.*
- Reprove, ri-pruif', *v. a. ceryddu, argyhoeddi, beio, anghreiffio, senu.*
- Reptile, rep'-tul, *a. ymlusgol, ymgreiniol, llusgenol; gwaal, salw, brwnt*:—s. ymlusgiad, ymlusgydd, lledwigyn, sarddan, sarth; adyn.
- Republic, ri-pyb'-lic, *s. gweriniaeth, gwerinlywodraeth, gwerinbenaeth, gwladwriaeth gyffredin, gwerindodaeth; gwladwriaeth.*
- Republican, ri-pyb'-li-cyn, *a. gweriniaethol, gwerinlywiol*:—s. gweriniaethwr, gwerinwladwr.
- Republicanism, ri-pyb'-li-cy-nuzm, *s. gwerinoliaeth, gweriniaeth, gwerinlywodraeth, ffurfiywodraeth werinol.*
- Republish, ri-pyb'-lish, *v. a. adgyhoeddi.*
- Repudiate, ri-piw'-di-et, *v. a. gwrthod, llysu; ysgaru, esgar; diarddelwi.*
- Repudiation, ri-piw'-di-e'-shyn, *s. gwrthodiad; ysgariad; diarddelwad.*
- Repugnance, ri-pyg'-nyns, *s. gwrthwynebiad, gwrthsfafiad; anewyllysgarwch; anghyssondeb.*
- Repugnant, ri-pyg'-nynt, *a. gwrthwynebol, gwrthladdol, gwrthneuil, croes; anghysson.*
- Repulse, ri-pyls', *s. cilgwth, gwrthryiad, gwrthergyd, burth; nag, pall,*

- gomedd :—*v. a.* cilgwthio, gwrthyru, gwrthguro; gwrthdaraw; rhiddio, cillorni.
- Repulsive, *ri-pyl'-suf, a.* gwrthyrol, gwrth-hyddol, ysgyrol, gwrthlrus; anghynhesol, oer, anhawddgar; cill-iornus.
- Reputable, *ri-piw'-tybl, a.* cymmeradwy, parchus, cyfrifol.
- Reputation, *rep-iv-te'-shyn, s.* cymmeriad, cyfrif, bri, gair da, geirda, clod, parch, cymmriad, anrhydedd; nod-wedd; son.
- Repute, *ri-piwt', s.* cymmeriad=*Reputation* :—*v. a.* cyfrif; ystyried, tybied, meddwl, golygu.
- Request, *ri-cwest', s.* cais, arch, deisyfiad, dymuniad, erfyniad, erfyn, archiad, gofyn; cyfrif, cymmeriad, bri :—*v. a.* ceisio, erchi, deisyf, dymuno, erfyn, gofyn.
- Requiem, *ri'-cwi-em, s.* gorphwyseg, gorphwysgan, hoegan.
- Require, *ri-cwei'-yr, v. a.* gofyn, ceisio, erchi, erfyn; hawlio, arddelwi; galwan.
- Requisite, *rec'-wi-zut, a.* gofynedig, angenrhaid, rheidiol; addas :—*s.* anhebgor, angenrhaid.
- Requisition, *rec-wi-zish'-yn, s.* gofyniad, archiad, myniad, cais; galwad.
- Requital, *ri-cwei'-tyl, s.* tâl, taledigaeth, gwobr; iawn; adferiad; pwyth.
- Requite, *ri-cweit', v. a.* talu, attalu, talu'r pwyth; rhoddi; gwobrwyo.
- Resale, *ri-sel, s.* adwerthfa, adwerthiad.
- Rescind, *ri-sund', v. a.* diddymu, dirymu, dilëu; tori; attrychu.
- Rescript, *ri'-scrup't, s.* adysgrifen.
- Rescue, *res'-ciw, v. a.* gwaredu, achub, rhyddhau; rhagachub; cipio; treisachub :—*s.* gwaredigaeth, treisachubiad; adennilliad; diangc.
- Research, *ri-syrç', s.* adchwiliad, chwilfa; manylgais :—*v. a.* adchwilio; adgeisio; ail chwilio; chwilio.
- Reseize, *ri-siz', v. a.* adgipio, adafaelu; adoresgyn.
- Resemblance, *ri-zem'-blyns, s.* tebygol-iaeth, tebygolrwydd, cyffelybrwydd; llun, eilun, delw, dull; delweddiad.
- Resemble, *ri-zem'-bl, v. a.* tebygu; cyffelybu, eilfyddu, cymharu; efelychu.
- Resent, *ri-zent', v. a.* cymmeryd yn ddrwg; digio wrth; atteimlo, attalu.
- Resentful, *ri-zent'-ffwl, a.* hyddig, hyffrom; anfoddog, drygnwydus, digofus; cyffroadwy.
- Resentment, *ri-zent'-ment, s.* atteimlad; anfoddogrwydd, digder; ad-daliad.
- Reservation, *rez-yr-fe'-shyn, s.* adgadwad, adgeidwadaeth; celiad, argeliad; cadwraeth; ammod; eithriad, llysiad.
- Reserve, *ri-zyrf', v. a.* cadw; dal; adgadw, derdgelu; arbed, gweddillio :—*s.* ystôr; cadw; ymgadwad; tawedog-rwydd; pwyll; eithriad; darngel; gwylder.
- Reserved, *ri-zyrfd', a.* tawedog; gochelgar, amwel; dystaw; disiarad; termud; gwyl; manwl.
- Reservoir, *rez'-yrf-wor, s.* cadwrfa, cronfa, pwnt; dyfrigist; llyn, cron-bwll.
- Reside, *ri-zeid', v. n.* aros, trigo, preswyllo, cyfanneddu, cartrefu, gorseddu.
- Residence, *rez'-u-dens, s.* arosiad, trigfa, trigias, trigfaniad, preswyliaid; preswylfa, cartref, haddef, cyfannedd-le.
- Resident, *rez'-i-dent, a.* trigiannol, cyf-arosol, cyfanneddol, preswyl, arosol :—*s.* trigiannydd, cyfarosydd, trig-iawdr, gweinidog cyfarosol.
- Residentary, *rez-i-den'-shyr-i, a.* trigiannol, cyfarosog :—*s.* eglwyswr cyf-arosol; cyfarosydd, trigiannydd cyf-arosog.
- Residue, *rez'-i-diw, s.* gweddill, Residuum, *ri-zud'-iw-ym, s.* gwarged, rhelyw; y rhan arall; y tachwedd.
- Resign, *ri-zein', v. a.* rhoi i fyny; gadael; cyflychu; ymostwng, ymroddi; ailrwyddo, adlofnodi, ail lawnnodi.
- Resignation, *rez-ug-ne'-shyn, s.* rhoddiad i fyny; ymroad, ymroddiad; ymadawiad; cyflychiad; ymostyngiad; ymddiswyddiad; goddefiad.
- Resin, *rez'-un, s.* ystor, ystawr.
- Resinous, *rez'-un-yz, a.* ystoraidd, ystorant.
- Resist, *ri-zust', v.* gwrthwynebu, gwrthsefyll, gwrthrun; gyर्थio, rhwystro.
- Resistance, *ri-zus'-tyns, s.* gwrthwynebiad, gwrthladdiad, gyrthder; gwrthrun, gwrthnerth.
- Resistibility, *ri-zus-tu-bul'-i-ti, s.* gwrthrynoldeb, gwrthwynebolrwydd.
- Resistible, *ri-zus'-tu-bl, a.* gwrthwynebadwy, gwrthsafadwy.
- Resistless, *ri-zust'-les, a.* anwrthwynebadwy, anwrthwynebol, anwrthrynol.
- Resolute, *rez'-ô-liwt, a.* penderfynol; bwriadlawn, llwyrfydig; diysgog; dewr.

- Resolution**, rez-ö-liw'-shyn, *s.* penderfyniad, bwriad, amcan, arfaeth, llawnfryd; diofryd, dyhewyd; calonid, gwrolfryd; dattodiad; dosraniad, trychwiliad; dattawdd, toddiad; eglurhâd, deongliad; gwneuthuriad, atwysgiad.
- Resolvable**, ri-zol'-fybl, *a.* dattodadwy; dadgyssylltadwy; dosranadwy; egluriadwy.
- Resolve**, ri-zolf, *v.* dattod; dadglymu; dosranu, dadansoddi, dosbarthu; toddi; penderfynu, bwriadu; brydlunio; ymroddi, diofrydu; cadarnhau; gwasgaru; egluro; dywedyd, hysbysu; myned, dyfod.
- Resolved**, ri-zold', *p. p.* dattodedig; penderfynedig; safadwy; sefydlog.
- Resonance**, rez'-ö-nyns, *s.* adsain; gwrthsain; adseiniad; adlais.
- Resonant**, rez'-ö-nynt, *a.* adseiniol, dadseiniol, adleisiog.
- Resort**, ri-zort', *v. n.* cyrchu, cynniwair, myned, dyfod, ymgynnull, pryseddu:—*s.* cyrchfa, cynniweirfa, ymgynnullfa, ymgyrch; cydymgasgliad; tramwyad; gofwyad.
- Resound**, ri-zownd', *v.* adseinio, dadseinio, adleisio, adlefain, darstain; clodfori:—*s.* adsain, adlais.
- Resource**, ri-sö'rs, *s.* adnawdd; adgyfnerth; noddfa; meddyginiaeth; dyfais, dychymmyg; edfryd, edryd.
- Respect**, ri-spect', *v. a.* golygu; ystyried; parchu, anrhydeddu, edmygu, cymmyreddu; gwneuthur cyfrif o; edrych ar; perthyn i; deiryd:—*s.* golwg, golygiad; ystyriaeth, ystyr; sylw; parch, bri, cymmeriad, cyfrif, edmygedd; perthynas; cyfeiriad; cymmediw.
- Respectability**, ri-spec-ty-bul'-i-ti, *s.* parchusrwydd, cymmriedd, tefogrwydd; edmygedd.
- Respectable**, ri-spec'-tybl, *a.* parchus, cyfrifol; parchadwy, haeddbarch, gwiwbarch; myg; cymmesur.
- Respectful**, ri-spec'-ffwl, *a.* parchus; edmygus, cynmyreddus; gostyngedig.
- Respective**, ri-spec'-tuf, *a.* neillduol, penodol, hysbysol; gwahanredol, gwahanol; priod, priodol; perthynol, perthynasol.
- Respiration**, res-pu-re'-shyn, *s.* anadliad; adanadliad; anadl, anal, ffun; chwyth; seibiant.
- Respire**, ri-spei'yr, *v.* anadlu, alanu; chwythu; dyhëu; gorphwys.
- Respite**, res'-put, *s.* seibiant, hamdden, saib, dysbaid, hoe, gorphwys; oed, oediad, attreg; dienoed:—*v. a.* oedi.
- Resplendence**, ri-splen'-dens, *s.* dysgleirdeb, tywyniad, atwyniad, llewyrchiad, pefredd, ysblander, llethrid, addoedi, gohиро; dienoedi.
- Resplendent**, ri-splen'-dent, *a.* dysglaer, llachar, dysbleiniol, atwyniol, llewyrchol, goleufawr, dysgleiniol, ysblenydd, eirian, clærwyth.
- Respond**, ri-spond', *v. n.* ateb; cyfateb; gwrthateb, gwrtheb:—*s.* atebgan; ateb.
- Respondent**, ri-spon'-dent, *s.* atebydd; gwrthatebwr, gwrthebydd.
- Response**, ri-spons', *s.* atebiad; gwrtheb; gwrthateb; ymateb.
- Responsibility**, ri-spon-su-bul'-i-ti, *s.* atebolrwydd, ateboldeb; cyfrifoldeb.
- Responsible**, ri-spon'-su-bl, *a.* atebol; ymatebol; atebadwy; galluog; cyfrifol.
- Responsive**, ri-spon'-suf, *a.* atebedigol; ymatebol; cyfatebol.
- Rest**, rest, *s.* gorphwys, gorphwysdra, hoe, saib, seibiant; llonyddwch; esmwythder; cwsg, hun; tangnef, heddwch; gweddill, rhelyw:—*v.* gorphwys, gorphwyso, seibio; ymorphwys; pwyso, ymddibynu; ymddiried; gosod; sefyll; gorwedd; bod; ymfodloni; trigo; parhau; huno, cysgu; llonyddu.
- Restitution**, res-ti-tiw'-shyn, *s.* adferiad, edfryd, dadferedigaeth, edrydiad; ad-daliad, digollediad.
- Restive**, res'-tuf, *a.* rhusog=*Restiff*.
- Restless**, rest'-les, *a.* diorphwys; aflonydd, anesmwyth; digwsg; ansefydlog; ffwdanlyd.
- Restlessness**, rest'-les-nes, *s.* anorphwys, aflonyddwch; anhunedd; ysgogiad.
- Restoration**, res-tö-re'-shyn, *s.* adferiad, dadferiad, adferedigaeth=*Restitution*; adnewyddiad; gwelliant; adgyweiriad; adgryfhâd; dadroddiad.
- Restorative**, ri-stö'-re-tuf, *a.* adferol, edfrydol; adgyweiriol; adgryfhaol:—*s.* cyffyr adferol.
- Restore**, ri-stö'r, *v. a.* adferu, dadferyd, edfryd, edryd, gwrthfer, atroi; adalu, dattalu, adroi; adgyweirio; adosod; adnewyddu; iachäu; gwella; adfywio.
- Restrain**, ri-stren', *v.* attal, ffirwyno, rhwystro, lluddias, caethiwo; cyfyngu; toli.

- Restraint, ri-strent', *s.* attal, attaliad, rhwystr, rhwym, achludd; caethiwed, carchar; cyfyngiad; gwahardd; dalfa; ffwrw; hwb.
- Restrict, ri-strict', *v. a.* cyfyngu, caethiwo, attal; rhwymo, rhagrwymo.
- Restriction, ri-strict'-shyn, *s.* cyfyngiad, argaethiad; terfyniad; attaliad; rhwymiad; caethiwed; attalfa; caethder.
- Restrictive, ri-strict'-tuf, *a.* terfynedigol, cyfyngol, dargaethol; dywasgol.
- Restrictive, ri-strun'-jent, *a.* rhwymol, argaeol, bolrwymol, dirglymol:—*s.* rhwymai, rhwymgyffer, dirglymai.
- Result, ri-zylt', *v. n.* deilliaw, tarddu; hanu; dyfod; canlyn; terfynu; codi; adlamu, adneidio:—*s.* deilliad, daill, canlyniad; effaith; ffwrwyth; diwedd, dybendod; penderfyniad; tarddiad; adlamiad, adnaid.
- Resume, ri-ziam', *v. a.* adgymmeryd, ail ddechreu; cymmeryd yn ol.
- Resumption, ri-zym'-shyn, *s.* adgymmeriad; ail ddechreuad.
- Resumptive, ri-zymp'-tuf, *a.* adgymmeredigol, adgymmerol.
- Resurrection, rez-yr-ec'-shyn, *s.* adgyfodiad, ail gyfodiad; cyfodiad.
- Resuscitate, ri-sys'-i-tet, *v.* dadebru, adfywio, adfywiocâu, bywhau; adgynnyrchu.
- Retail, ri-tel', *v. a.* manwerthu, darnwerthu; ail adrodd:—*s.* manwerth, rhanwerth, manwerthiant.
- Retain, ri-ten', *v. a.* cadw, dal, dala, hurio, cytuno â; rhwymobri.
- Retainable, ri-ten'-ybl, *a.* daliadwy.
- Retake, ri-tec', *v. a.* adgymmeryd.
- Retaliate, ri-tal'-i-et, *v. a.* talu y pwyth, attalu, gwrthwytho; dial; rhydal.
- Retaliation, ri-tal-i-el'-shyn, *s.* taliad pwyth, ad-daledigaeth; gwrthwyth.
- Retard, ri-tard', *v. a.* afrwyddo, rhwystro, arluddio, llestair, attal, dal; hwyrhau; oedi, addoedi, gohario.
- Retardation, ri-tar-de'-shyn, *s.* afrwyddiad, rhwystriad; arludd, llestair; oediad, gohiriad.
- Retch, *reç*, *v. n.* cyfogi, gorchwydu.
- Retention, ri-ten'-shyn, *s.* daliad, attaledigaeth; cof; attalfa.
- Retentive, ri-ten'-tuf, *a.* attaledigol, daliedigol; cynnwysol; gafaelgar; cofgar.
- Reticence, ret'-i-sens, *s.* dystawrwydd; lledgeliad; attaliaeth.
- Reticule, ret'-i-ciwl, *s.* rhwyden, rhwydwaith, tremiadur; melgod y cylla; rhwydgoden.
- Retina, ret'-i-ny, *s.* rhwydlen y llygad, y rhwylen.
- Retinue, ret'-i-niw, *s.* gosgordd, gosgorddu; llu, torf, nifer.
- Retire, ri-tei'-yr, *v.* ymneillduo; cilio, encilio; myned, ymgadw; echain; llochwyta.
- Retirement, ri-tei'-yr-ment, *s.* ciliad, ymgiliad; ymneillduedd; encill, celfa; unigedd.
- Retort, ri-tort', *v.* gwrthdroi, dychwel-yd; gwrthateb; gwrthgeisio; gwrthgnoi; gwrthblygu:—*s.* gwrthgis, gwrthsen; dadergyr; gwrthgno; gwrthgam, gwrthdro; gwrthgellwair.
- Retrace, ri-tres', *v. a.* adolrhain, ail olrhainio.
- Retract, ri-tract', *v.* tynu yn ol; dadddywed; adalw; diarddelwi.
- Retraction, ri-trac-te'-shyn, *s.* galwad yn ol; dadweddiad, gwrthganiad; adalwad; diarddelwad.
- Retraction, ri-trac'-shyn, *s.* dad-ddyweddiad=*Retraction*.
- Retreat, ri-trit', *s.* enciliad, ciliad, gwrthgiliad, gwrthred, attaith, atychwel; encilfa, dirgelfa, diogelfa, argel, llechfa, adfan, cuddigl, lloches; neillduedd; gwrthwanas, gwrthhatteg; ffoad:—*v. n.* encilio, gwrthgilio; dychwel-yd; atteithio; gwrthreddeg; ffoi; ymneillduo.
- Retrench, ri-trensh', *v.* toli, lleihau, byrhau, cwtogi, talfyru; tocio, ysgythru, cynnilo; dattrenlio; amgloddio.
- Retrenchment, ri-trensh'-ment, *s.* toliad, lleihad; tocïad, trychiad; cynniliad; clawdd, diffynglawdd, amgaer, amgaerwaith.
- Retribution, ret-ri-biw'-shyn, *s.* ad-daliad, attaledigaeth; tâl, taliad; cywerthedd; iawn.
- Retributive, ri-trub'-iw-tuf, } *a.* attal-
Retributory, ri-trub'-iw-tyr-i, } edigol;
iawnol.
- Retrieve, ri-trif', *v. a.* adferu, dadfer-yd, edfryd; achub; adennill; adgyweirio; adalw.
- Retriever, ri-tri'-fyr, *s.* adferydd, adfergi.
- Retro, ri'-trö, *prf.* yn ol, ol; gwrthdad.
- Retrograde, ret'-rö-gred, *a.* gwrthfynedol, olfynedol, gwrthgerddol, dadymchwelog; anghyfeiriol:—*v. n.* myned

- yn ol; gwrthfyned, gwrthgerdded, dattreiglo.
- Retgression, ret-rö-gresh'-yn, *s.* gwrthfynediad, olfynediad; dachweliad.
- Retrospect, ret'-rö-spect, *s.* adolwg, gwrtholwg, ail olwg, adolygiad; gwrthwel, adbaith.
- Retrospective, ret-rö-spec'-tuf, *a.* gwrtholygol, gwrthweledig, adolygol, adbeithiol, gwrthedrychol.
- Return, ri-tyrn', *v.* dychwelyd, attroi, ymchwelyd; adwedd, adrefu; troi adrefu; troi adref; ad-dalu; ateb; adrodd, mynegi; edfryd, adferu; anfon; trosglwyddo:—*s.* dychweliad, atychwel; attait, ymchwelfa; adwedd; gwrthred; ymadred; ad-daliad; taledigaeth; anfoniad; adferiad; ateb; troad; cynnyrch; ennill, budd, elw; cyfrifeb, cyfrif swyddol; hysbyseb.
- Returnable, ri-tyrn'-ybl, *a.* dychweladwy.
- Reunion, ri-iw'-ni-yn, *s.* adundeb; aduniad, adgydiad; cyfarfod, cynnullfa.
- Reunite, ri-iw'-neit', *v.* aduno, adgysylltu; ail ymuno; adgryfhau; adgymodi.
- Reveal, ri-fil', *v. a.* dadguddio, egluro, diargelu, amlygu; dangos.
- Revel, ref-el, *v. n.* wtresa, gloddesta, gwledda; cyfeddach; rhonta:—*s.* wtres, sarllach, gloddest.
- Revel, ri-fel', *v. a.* dattynu, tynu yn ol.
- Revelation, ref-i-le'-shyn, *s.* dadguddiad, datguddiad, arddadgudd; amlygiad; y Dadguddiad.
- Revelry, ref-el-ri, *s.* wtresa=*Revel*, *s.*
- Revenge, ri-fenj', *v. a.* dial, ymddial ar; talu y pwyth; dialeddu:—*s.* dial; dialedd; ymddial.
- Revengeful, ri-fenj'-fiwl, *a.* dialgar, ymddialgar.
- Revenue, ref-en-iw, ri-fen'-iw, *s.* cyllid, ardreth, daered; derbyniadau; blwyddred; gwobr, oed.
- Reverberent, ri-fyr'-byr-ent, *a.* adseinol, gwrthseinol; gwrthyrol, dygurol.
- Reverberate, ri-fyr'-byr-et, *v.* adseinio, dadseinio, gwrthseinio, adleisio, arysteinol; gwrthguro, gwrtharo; adlewyrchu.
- Revere, ri-fí-yr, *v. a.* parchu, anrhydeddu, edmygu; ofni; arswydo.
- Reverence, ref-yr-ens, *s.* parch, anrhydedd, edmyg; urdduniant, bri; ofn; parchedigaeth:—*v. a.* parchu=*Revere*.
- Reverend, ref-yr-end, *a.* parchedig, hybarch, haeddbarch, mygedig; ofnadwy.
- Reverent, ref-yr-ent, } *a.* parch-
Reverential, ref-yr en'-shyl, } us; edmygol; ufydd.
- Reverie, ref-yr-i, *s.* hepynt, gofreuddwyd; mympwy; dychymmyg; gwel-edigaeth.
- Reverse, ri-fyrs', *v. a.* gwrthdroi, dymchwelyd; gwrthwynebdroi; dirymu; cyfnewid; datroi:—*s.* gwrthdroad, tro; ymchwel; cyfnewidiad; gwrtholiad; gwrthwyneb; cefn; anffawd; trofedd:—*a.* gwrthwyneb, gwrthdröedig.
- Reversible, ri-fyr'-su-bl, *a.* gwrthdroadwy; ymchweladwy; dileadwy.
- Reversion, ri-fyr'-shyn, *s.* gwrthdroad; arymchweliad; olfeddiant, olyniaeth.
- Revert, ri-fyrt', *v.* ymchwelyd, darymchwelyd, gwrthdroi; troi yn ol.
- Revertible, ri-fyr'-tu-bl, *a.* ymchweladwy.
- Review, ri-fiw', *v. a.* adolygu, adchwilio, adsyllu; adystyried; adbrofi; ail ddarllen; adolrhain; adgyweirio:—*s.* adolygiad, arolygiad; ail olwg, adwel; adsyllwad, adsyll; adchwilfa, adbrawf; adgyweiriad.
- Reville, ri-feil', *v. a.* difenwi, difrio, cablu, gwaradwyddo, edliw, senu, duo.
- Revisal, ri-fei'-zyl, *s.* adolygiad, ail ddarlleniad=*Review*, *s.*
- Revise, ri-feiz', *v. a.* adolygu=*Review*, *v. a.*:—*s.* adolygiad=*Review*, *s.*; adbroffen, diwyglen.
- Revision, ri-fizh'-yn, *s.* adolygiad=*Review*, *s.*; adholiad; cyfrifiad trigolion.
- Revisit, ri-fuz'-ut, *v. a.* ail ofwyo, adymweled ág; adolygu.
- Revival, ri-fei'-fyl, *s.* adfywiad, adfywhad, ymadfywiad, dadebriad.
- Revive, ri-feif', *v.* adfywio, bywhau, bywiogi, dadebru; adferu; ymadfywio. [wy.]
- Revocable, ref-ö-cybl, *a.* gwrthwalwad.
